



Gweinyddiaeth
Cyfiawnder

Strategaeth Troseddwyr Benywaidd

Mehefin 2018

Cm 9642



Gweinyddiaeth
Cyfiawnder

Strategaeth Troseddwyr Benywaidd

Cyflwynwyd i'r Senedd
gan yr Arglwydd Ganghellor a'r Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder
drwy Orchymyn Ei Mawrhydi

Mehefin 2018



© **Hawlfraint y Goron 2018**

Mae'r cyhoeddiad hwn wedi'i drwyddedu o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored f3.0 ac eithrio lle nodwyd yn wahanol. Er mwyn gweld y drwydded hon, ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3

Lle rydym wedi nodi bod yr hawlfraint ar unrhyw wybodaeth yn eiddo i drydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd i'w defnyddio gan y deiliaid hawlfraint sy'n gysylltiedig.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn <https://www.gov.uk/government/publications>

Dylid anfon unrhyw ymholiadau am y cyhoeddiad hwn atom ni yn y cyfeiriad e-bost canlynol: cjwst@Justice.gov.uk

ISBN 978-1-5286-0562-5

CCS0618901868 06/18

Argraffwyd ar bapur sy'n cynnwys o leiaf 75% o gynnwys ffibr wedi'i ailgylchu

Argraffwyd yn y DU gan APS Group ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi

Cynnwys

Rhagair	3
Cyflwyniad	5
Pennod Un: Ymyrraeth Gynnar	11
Pennod Dau: Atebion Cymunedol	18
Pennod Tri: Dalfeydd Gwell	28
Pennod Pedwar: Fframwaith ar gyfer Gweithredu	38
Diwedd glo	47
Atodiad A: Cylch Gorchwyl Adolygiad yr Arglwydd Farmer	49

Rhagair

Fel Llywodraeth, rydym wedi ymrwymo i wneud popeth yn ein gallu i amddiffyn a chefnogi'r rhai sy'n fwyaf agored i niwed yn ein cymdeithas. Nid oes unman lle mae hynny'n fwy angenrheidiol na'r system cyfiawnder troseddol, lle mae nifer mawr o bobl sy'n agored i niwed yn eu cael eu hunain mewn argyfwng fel dioddefwyr, fel troseddwy'r neu fel y ddau.

Mae pobl yn gwneud dewisiadau ac yn ymddwyn mewn ffyrdd sy'n achosi gofid a niwed i eraill a drwg ehangach i'n cymdeithas. Mae'n briodol ein bod yn rhoi cosb am y mathau hynny o ymddygiad ac yn disgwyl i unigolion dderbyn cyfrifoldeb am eu gweithredoedd. Fodd bynnag, dim ond un rhan o'r stori yw honno. Mae troseddwy'r yn rhan o'n cymdeithas a rhaid i ni gymryd camau i ddeall a delio ag achosion sylfaenol troseddu, os ydym i wella bywydau dioddefwyr a helpu troseddwy'r i drawsnewid eu bywydau eu hunain.

Mae'r dystiolaeth yn dangos nad canlyniad i droseddu yn unig yw bod yn agored i niwed. Gall hefyd sbarduno ymddygiad troseddol ac atal pobl rhag dianc o gylch o aildroseddu.

Mae hyn yn arbennig o glir yng nghyswllt troseddwy'r benywaidd. Rydym yn gwybod bod rhai anghenion yn fwy cyffredin ymysg troseddwy'r benywaidd, fel rhai sy'n ymwneud â phroblemau iechyd meddwl, a hunan-niwed. Mae ffyrdd caotig o fyw gan nifer mawr ohonynt sydd yn aml yn ganlyniad i gam-drin a thrawma ar hyd eu hoes; mae bron 60% o droseddwy'r benywaidd wedi profi cam-drin domestig.

Rwyf wedi fy argyhoeddi bod ffordd briodol o ymdrin â throseddwy'r benywaidd – un sy'n delio â ffactorau sy'n eu gwneud yn agored i niwed, sydd wedi'i seilio ar dystiolaeth am ffyrdd i'w helpu i drawsnewid eu bywydau, ac yn eu trin fel unigolion o werth – yn un a allai ddod â buddion sylweddol i ddiodefwyr, teuluoedd, a chymdeithas ehangach, yn ogystal â'r troseddwy'r benywaidd eu hunain.

Mae'r strategaeth hon yn dangos ymrwymiad y Llywodraeth i raglen waith newydd ar gyfer troseddwy'r benywaidd, wedi'i seilio ar dair blaenoriaeth: ymyrraeth gynnar, pwyslais ar atebion yn y gymuned, a'r nod o wneud dalfeydd mor effeithiol a gweddus â phosibl i'r menywod hynny sy'n gorfod bod ynddynt. Mae hefyd yn amlinellu ein fframwaith ar gyfer gweithredu ar hyn: dim ond drwy bartneriaethau effeithiol, ar lefel genedlaethol a lleol, y gellir gwneud cynnydd gwirioneddol. Yn benodol, rwyf yn gwybod y bydd rôl partneriaid y trydydd sector, fel canolfannau menywod, wrth weithio gyda chyrrff statudol lleol, yn hanfodol i weithredu ar hyn.


Mae nifer o ffeithiau pwysig yn sail i'r dull hwn o weithredu. Roedd 70.7% o'r oedolion benywaidd a 62.9% o'r oedolion gwrywaidd a ryddhawyd o'r ddalfa rhwng Ebrill a Mehefin 2016 yn dilyn dedfryd fer o garchar o lai na 12 mis wedi aildroseddu o fewn blwyddyn. Mae tystiolaeth gref bod dedfrydau byr o garchar yn llai effeithiol wrth leihau aildroseddu na gorchmynion cymunedol. Mae dedfrydau byr yn achosi trosiant sy'n un o'r prif ffactorau sy'n sbarduno ansefydlogrwydd yn ein carchardai ac nid ydynt yn rhoi digon o amser ar gyfer gweithgarwch adsefydlu. Bydd hyn yn cael effaith sylweddol iawn ar fenywod, y bydd nifer mawr ohonynt wedi'u dedfrydu am droseddu di-drais, lefel isel ond cyson, am gyfnodau byr yn aml. Mae'r achosion o orbryder a hunan-niwed yn fwy cyffredin nag ymysg carcharorion gwrywaidd. Gan fod mwy o droseddwy'r benywaidd yn brif ofalwyr na

throseddwyr gwrywaidd ar gyfartaledd, mae'r dedfrydau hyn yn arwain at effaith anghymesur ar blant a theuluoedd a methiant i atal y cylch o droseddu sy'n pontio'r cenedlaethau.

Heddiw mae 3,850 o fenywod yn ein carchardai. Rwyf am weld y nifer hwn yn gostwng, a llai o fenywod yn y carchar ar ddedfrydau byr. Y ffordd ymlaen yw symud y pwyslais o'r carchar i'r gymuned.

Mae'r strategaeth hon yn amlinellu'r mesurau rydym yn eu cymryd ar unwaith i gyflawni hyn, yn cynnwys buddsoddi ar draws Llywodraeth a chynlluniau i dreialu opsiynau preswyl newydd i ddargyfeirio menywod rhag mynd neu ddychwelyd i'r ddalfa ar ddedfrydau byr o garchar.

Rydym yn disgrifio ein hymrwymiad a'n cyfeiriad ar gyfer troseddwyr benywaidd. Rydym yn cydnabod y bydd sicrhau newid ystyrion yn dasg sylweddol a pharhaus. Rydym wedi ymrwmo i ymgymryd â'r daith hon mewn partneriaeth ar draws Llywodraeth, drwy gefnogi dulliau o weithredu dan arweiniad lleol ac adeiladu ar y sylfaen dystiolaeth am yr hyn sy'n gweithio.



Y Gwir Anrhydeddus David Gauke AS
Yr Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder

Cyflwyniad

Strategaeth ar gyfer troseddwy'r benywaidd

1. Er mwyn lleihau troseddu a gwneud gwahaniaeth i ddiodefwy'r, mae angen ystyried achosion sylfaenol troseddu ac aildroseddu, a gweithredu ar sail tystiolaeth i adsefydlu troseddwy'r.
2. Rydym yn gwybod bod nifer mawr o droseddwy'r ymysg y bobl sy'n fwyaf agored i niwed mewn cymdeithas a bod y ffactorau sy'n eu gwneud yn agored i niwed yn gallu cyfrannu'n aml at eu hymddygiad troseddol neu eu ffordd o ymgysylltu ac ymateb i ymyriadau.^{1,2} Gall troseddwy'r benywaidd fod ymysg y rhai sy'n fwyaf agored i niwed o bawb, o ran mynychder a chymhlethdod eu hanghenion. Mae nifer mawr ohonynt yn profi ffyrdd caotig o fyw sy'n gysylltiedig â chamddefnyddio sylweddau, problemau iechyd meddwl, digartrefedd, ac ymddygiad troseddol – mae'r rhain yn ganlyniad yn aml i oes o gam-drin a thrawma.³
3. Er bod cyfran y menywod yn y system cyfiawnder troseddol yn fach – tua 5% o boblogaeth y carchardai a 15% o droseddwy'r yn y gymuned – mae'r effaith gadarnhaol o ddelio â'u hanghenion yn sylweddol.⁴
4. Ar gyfartaledd, mae troseddwy'r benywaidd yn cyflawni troseddau llai difrifol nag y mae troseddwy'r gwrywaidd ac yn aml yn peri risg isel neu ganolig o achosi niwed difrifol i'r cyhoedd.^{5,6} Er hynny, y gyfradd aildroseddu ymysg menywod yw 22.9% ar gyfer y cohort rhwng Ebrill a Mehefin 2016, a'r rhain yn aml yn droseddau sy'n ddi-drais ac ar lefel isel ond cyson, fel dwyn o siopau.^{7,8} Yn ogystal â hyn, mae ffyrdd caotig o fyw ac anghenion cymhleth ymysg troseddwy'r benywaidd yn golygu'n aml fod eu hanghenion am wasanaethau'n codi dro ar ôl tro a bod hyn yn amharu ar fywyd eu teulu. Roedd troseddwy'r benywaidd wedi costio tua £1.7bn i'r Llywodraeth yn 2015/16, yn cynnwys amcangyfrif o gostau o tua £1bn i'r heddlu.⁹ Nid yw hyn yn cynnwys costau ehangach i gymdeithas, fel cost troseddu sy'n pontio'r cenedlaethau.
5. Felly mae'n glir y byddai mynd i'r afael â'r cylch troseddu ymysg menywod a'i leihau yn gallu dod â buddion sylweddol i ddiodefwy'r, teuluoedd, a Llywodraeth, a hefyd i'r troseddwy'r benywaidd eu hunain.
6. Gall canlyniadau i fenywod yn y ddalfa fod yn waeth na'r rheini i ddynion: er enghraifft, mae'r gyfradd hunan-niweidio bron pum gwaith yn uwch yng ngharchardai menywod.¹⁰ Mae'r gwahaniaeth hwn yn peri pryder mawr ac mae'n briodol ceisio sicrhau cyfle cyfartal i ddynion a menywod yn y system cyfiawnder troseddol i'w hadsefydlu eu hunain. Dangosodd adroddiad arloesol y Farwnes Corston, *A review of women with particular vulnerabilities in the Criminal Justice System* (2007), fod y ffactorau sy'n gallu arwain dynion a menywod i droseddu, ac aildroseddu, yn gallu amrywio'n sylweddol, fel y gall y ffordd y mae dynion a menywod yn ymateb i ymyriadau.¹¹ Mae ein hadolygiad ein hunain o'r dystiolaeth yn awgrymu bod sicrhau ymyriadau sydd wedi'u teilwra'n briodol i anghenion penodol menywod yn gallu bod yn fwy effeithiol na chymhwyso dull generig o weithredu at ddynion a menywod.¹²

7. Mae cyfle amlwg i ymdrin mewn ffordd gwbl wahanol â'r cohort hwn – un sy'n delio â ffactorau sy'n ei wneud yn agored i niwed, yn cydnabod rôl rhywedd, yn trin troseddwy'r benywaidd fel unigolion sydd â'r potensial i gyfrannu'n gadarnhaol i gymdeithas ehangach, ac yn y pen draw yn torri'r cylch aildroseddu gan ddod â'r holl fuddion cysylltiedig i deuluoedd a chymdeithas gyfan.

Y Ddadl o Blaid Newid:

Mae troseddoli unigolion agored i niwed yn cael effeithiau negyddol ehangach ar gymdeithas

8. Mae dod i gysylltiad â'r system cyfiawnder troseddol, a dalfeydd yn benodol, yn gallu tanseilio gallu menywod i ddelio â'r materion sydd wedi achosi eu troseddu. Yn benodol, mae nifer mawr ohonynt yn ei chael yn anodd cadw cyflogaeth a llety tra byddant yn y system cyfiawnder troseddol. Gall hyn gyfrannu at ddod â'r menywod hyn i argyfwng, neu fethu â dod ohono, gan arwain, yn y pen draw, at fwy o angen am gymorth gan wasanaethau ac at aildroseddu. Yn ogystal â hyn, mae troseddoli neu garcharu rhieni yn cael effaith fawr ar deuluoedd a phlant.¹³ Mae'n bosibl hefyd fod carcharu menywod yn cael effaith anghymesur ar droseddu sy'n pontio'r cenedlaethau gan eu bod yn fwy tebygol o fyw gyda'u plant cyn mynd i'r ddalfa.¹⁴

Nid yw dedfrydau byr o garchar yn sicrhau'r canlyniadau gorau i droseddwy'r benywaidd

9. Mae'r ddalfa wedi'i bwriadu i'w defnyddio yn niffyg pob dewis arall, i amddiffyn y cyhoedd a chosbi ac adsefydlu troseddwy'r. Mae mwy na thri chwarter y menywod sy'n cael dedfryd o garchar yn cael dedfryd o lai na 12 mis.¹⁵ Roedd 56.1% o'r oedolion benywaidd a ryddhawyd o'r ddalfa rhwng Ebrill a Mehefin 2016 wedi aildroseddu o fewn blwyddyn, ac roedd 70.7% o fenywod wedi aildroseddu yn dilyn dedfryd fer o garchar (<12m).¹⁶ Mae tystiolaeth gref bod dedfrydau byr o garchar o lai na 12 mis yn llai effeithiol o ran lleihau aildroseddu na chosbau cymunedol.¹⁷ Mae cyfnodau yn y ddalfa yn amharu'n sylweddol ar fywyd teuluol. Rydym hefyd yn gwybod bod y ddalfa'n gallu bod yn arbennig o niweidiol i fenywod, gan fod eu cyfraddau hunan-niweidio bron pum gwaith yn uwch na'r rheini ar gyfer dynion.¹⁸ Mae menywod hefyd yn ddwywaith yn fwy tebygol o roi gwybod eu bod yn dioddef o orbryder ac iselder ac yn fwy tebygol o roi gwybod am symptomau sy'n arwydd o seicosis.¹⁹

Mae rheolaeth dda yn y gymuned yn gweithio

10. Mae nifer mawr o droseddwy'r benywaidd a allai gael eu cynnal yn fwy llwyddiannus yn y gymuned, lle mae canlyniadau o ran aildroseddu yn well.²⁰ Mae gorchmynion cymunedol hefyd yn cynnig cyfle i helpu troseddwy'r benywaidd i gael cyflogaeth a'i chadw, a sicrhau llety sefydlog. Gellir eu defnyddio'n effeithiol i ymdrin ag achosion sylfaenol eraill i droseddu, fel problemau camddefnyddio sylweddau. Mae'r rhwydwaith o wasanaethau i fenywod yn y trydydd sector, fel canolfannau menywod, yn chwarae rhan bwysig drwy ein helpu i gwrdd ag anghenion menywod, lleihau'r amharu ar deuluoedd a chynnal troseddwy'r benywaidd yn fwy effeithiol o fewn eu cymuned fel dinasyddion cynhyrchiol, ar lai o gost i Lywodraeth gan ddod â mwy o fudd iddyn nhw eu hunain ac i gymdeithas.

Ein gweledigaeth a blaenoriaethau strategol:

Llai o fenywod yn dod i'r system cyfiawnder troseddol

11. Rydym am weld llai o fenywod yn troseddu yn y lle cyntaf. Drwy ymyrryd yn gynharach i ddelio ag anghenion menywod agored i niwed, gellir atal rhai rhag troseddu, a thorri'r cylch aildroseddu ar gyfer eraill. Rydym am weld mwy o gymorth i fenywod agored i niwed yn y gymuned a rhagor o fesurau i ddargyfeirio menywod rhag dod i gysylltiad â'r system cyfiawnder troseddol, lle y bo'n briodol.

Llai o fenywod yn y carchar (yn enwedig ar ddedfrydau byr) a chyfran fwy o fenywod yn cael eu rheoli yn y gymuned yn llwyddiannus

1. **Rydym am leihau nifer y menywod mewn carchardai, gan anfon llai o droseddwyr i'r carchar am gyfnodau byr. Felly byddwn yn symud ein pwyslais o'r ddalfa i'r gymuned ac, yn rhan o hynny, ni fyddwn yn adeiladu'r pum Carchar Cymunedol i Fenywod newydd.**²¹ Yn lle hynny, rydym am sicrhau bod y cyhoedd a'r farnwriaeth yn ymddiried mewn dedfrydau digarchar - fel gorchmynion cymunedol effeithiol - sy'n mynd i'r afael yn uniongyrchol ag achosion aildroseddu, yn cynnwys camddefnyddio alcohol neu gyffuriau. Byddwn yn ystyried beth allwn ei wneud yn rhagor i bwysleisio y dylai dedfrydau byr o garchar gael eu gweld yn ddewis olaf.

Gwell amodau i'r rheini sydd yn y ddalfa

2. Rydym am weld amgylchedd mewn carchardai sy'n parhau i amddiffyn y cyhoedd, ond sydd hefyd yn rhoi'r gallu i adsefydlu ac yn sicrhau gwell canlyniadau i droseddwyr benywaidd. Mae hyn yn cynnwys gwella cysylltiadau teuluol. Rydym am leihau'r cyfraddau hunan-niweidio a hunanladdiad i'r eithaf. Rydym am weld menywod yn cael cymorth ar ôl eu rhyddhau i bontio'n ôl i'r gymuned drwy sicrhau llety sefydlog ac addysg a/neu gyflogaeth; ynghyd â'r cymorth sydd ei angen i reoli a chwrdd ag anghenion eraill, fel problemau iechyd meddwl a chamddefnyddio sylweddau. Bydd hyn yn helpu rhagor o fenywod i gamu o'r cylch aildroseddu a dod yn ddinasyddion cynhyrchiol.

Fframwaith ar gyfer Gweithredu:

3. Mae'n bwysig bod ein blaenoriaethau strategol yn cael eu hategu gan fframwaith clir i'r holl bartneriaid y tu mewn a'r tu allan i'r system cyfiawnder troseddol er mwyn sicrhau cynnydd gwirioneddol. Rydym am gefnogi dull o weithredu sydd:

O dan arweiniad lleol

4. Rydym am weld ardaloedd lleol ledled Cymru a Lloegr yn teimlo eu bod wedi'u grymuso i gynllunio dulliau o weithredu pwrpasol i fodloni anghenion penodol eu poblogaethau ac amgylchiadau lleol. Byddwn yn parhau i'w cefnogi drwy ddarparu tystiolaeth o'r hyn sy'n gweithio. Rydym yn credu bod datblygu Dulliau System Gyfan sy'n cynnig cymorth cyfannol drwy ddarparu gwasanaethau lleol cydgysylltiedig yn hanfodol i sicrhau gwell canlyniadau.

Yn canolbwyntio ar bartneriaeth

5. Rydym am sicrhau dull cydgysylltiedig o weithredu ar draws Llywodraeth ar lefel genedlaethol a rhwng gwasanaethau ar lefel leol, gan gynnwys y trydydd sector, i ddarparu ymateb cyfannol i anghenion menywod. Byddwn yn gosod strwythur clir i helpu partneriaid i gydweithio'n effeithiol i ddelio â'r ffactorau sy'n sbarduno troseddu ac anghenion troseddwy'r benywaidd.

Wedi'i seilio ar dystiolaeth

6. Drwy weithio gydag ardaloedd a darparwyr lleol, byddwn yn parhau i ddatblygu'r sylfaen dystiolaeth i gael gwell dealltwriaeth o'r hyn sy'n gweithio. Rhoddir prawf ar ymyriadau am eu cynaliadwyedd, eu gallu i dyfu'n unol â'r anghenion, ac i sicrhau'r defnydd gorau o'r cyllid sydd ar gael.

Ein Hymrwymiad:

7. Mae'r strategaeth hon yn nodi lansio rhaglen waith newydd i wella ein dull o ymdrin ar y cyd â throseddwy'r benywaidd ac i wneud cymdeithas yn fwy diogel drwy fynd i'r afael ag achosion sylfaenol troseddu ac aildroseddu.

8. Mae ein hymrwymadau heddiw yn gam cyntaf a fydd yn sail i weithredu yn y dyfodol. Rydym yn ymrwmo i wneud y canlynol heddiw:

- **Buddsoddi cyllid o £5 miliwn ar draws Llywodraeth dros ddwy flynedd mewn darpariaeth gymunedol i fenywod.** Yn rhan o hyn, rydym heddiw'n lansio cystadleuaeth gychwynnol am grantiau o £3.5 miliwn ar gyfer 2018/19 a 2019/20, sy'n cynnwys cyllid o £2 miliwn yn benodol ar gyfer troseddwy'r benywaidd sydd wedi profi cam-drin domestig. Rydym yn cydnabod ei bod yn hanfodol bod y gwasanaethau hyn, fel canolfannau menywod, yn gynaliadwy a'u bod ar gael, i sicrhau ein bod yn gallu gwireddu'r weledigaeth rydym wedi'i disgrifio. Buddsoddi swm ychwanegol o £1.5 miliwn i helpu i ddatblygu darpariaeth yn y gymuned i droseddwy'r benywaidd, fel cymorth preswyl.
- **Gweithio gyda phartneriaid lleol a chenedlaethol i ddatblygu cynllun peilot ar gyfer 'canolfannau menywod preswyl' ar o leiaf bum safle ar draws Cymru a Lloegr.** Mae hyn yn ategu ein gweledigaeth o weld llai o fenywod yn y carchar drwy ddatblygu rhagor o opsiynau ar gyfer cynnal menywod yn y gymuned. Rydym yn gwybod bod nifer mawr o fenywod, yn enwedig y rheini a gafodd ddedfryd fer o garchar, a allai gael eu cynorthwyo'n well yn y gymuned drwy ddedfrydau cymunedol cadarn ac effeithiol. Credwn ei bod yn allweddol bod opsiynau cymorth preswyl dwys ar gael, ar adeg dedfrydu ac ar adeg rhyddhau o'r carchar, i sicrhau'r newidiadau rydym am eu gweld. Bydd y cynllun peilot yn ein galluogi i dreialu modelau sy'n darparu llety diogel a chymorth cyfannol i fenywod yn y gymuned fel y gallant ddelio ag achosion sylfaenol eu troseddu.
- **Rydym wedi ymrwmo i leihau nifer y menywod ar ddedfrydau byr o garchar.** Os gallwn ddargyfeirio menywod yn llwyddiannus oddi wrth droseddu fel y gellir cau un neu ragor o garchardai, rydym am weld defnyddio rhan o leiaf o'r refeniw a arbedir i hyrwyddo nodau'r strategaeth hon, ar ôl ystyried y cyd-destun ehangach bryd hynny.

9. Er mwyn rhoi cymorth i weithredu, rydym yn cyhoeddi ochr yn ochr â'r strategaeth hon:

- **Canllawiau i'r heddlu ar weithio gyda menywod agored i niwed, a ddatblygwyd mewn partneriaeth â Chyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu (NPCC).** Os ydym i ymyrryd yn llwyddiannus yn gynharach, rhaid i'r heddlu allu asesu a nodi'r canlyniad mwyaf priodol i'r menywod hyn a'u hatgyfeirio i ffynonellau cymorth. Ledled Cymru a Lloegr mae enghreifftiau lleol addawol o weithredu modelau i frysbennu achosion menywod sy'n agored i niwed a'u helpu i dderbyn Penderfyniadau y Tu Allan i'r Llys y lle bo'n briodol.
 - **Canllawiau ar ddatblygu dulliau system gyfan,** sy'n amlinellu'r sylfaen dystiolaeth sy'n datblygu ar gyfer dull amlasiantaeth cyfannol i gwrdd ag anghenion troseddwy'r benywaidd.
10. Rydym am wella canlyniadau i fenywod ar bob cam yn y system cyfiawnder troseddol. Gyda golwg ar hynny, rydym wedi:
- **Gofyn i'r Arglwydd Farmer barhau â'i waith ar bwysigrwydd cysylltiadau teuluol ar gyfer gwella canlyniadau i droseddwy'r, drwy ymgymryd â gwaith ychwanegol i adolygu ei argymhellion o safbwynt anghenion troseddwy'r benywaidd.** Rydym yn disgwyl y bydd yr adroddiad ar hyn yn dod i law erbyn diwedd y flwyddyn. Rydym yn gwybod bod teuluoedd a phlant yn profi effaith pan fydd menyw yn dod i gysylltiad â'r system cyfiawnder troseddol a bod dedfrydau o garchar yn gallu cael effaith neilltuol ar blant i famau a garcharwyd. Bydd yr adolygiad hwn yn ein galluogi i ddeall pa fesurau penodol y gallwn eu cymryd i gryfhau eu cysylltiadau teuluol, yn enwedig â'u plant, tra byddant yn cwblhau dedfrydau yn y gymuned, yn y ddalfa ac ar ôl eu rhyddhau.
 - **Dechrau'r broses o fabwysiadu Fframwaith Polisi Menywod yn lle Gorchymyn Gwasanaeth Carchardai (PSO) 4800.** Byddwn yn ceisio cyhoeddi'r fersiwn derfynol cyn diwedd yr hydref yn 2018. Bydd hyn yn ehangu'r cwmpas o weithio gyda menywod yn y carchar i gynnwys canllawiau ar weithio gyda menywod ym mhob rhan o'r system cyfiawnder troseddol.
11. Yn olaf, rydym yn gwybod mai'r unig ffordd i ni wneud cynnydd ar ddelio ag anghenion troseddwy'r benywaidd, sydd yn aml yn rhai cymhleth, yw drwy fabwysiadu dull partneriaeth ar lefel genedlaethol a lleol. Felly, byddwn yn:
- **Gweithio ar draws Llywodraeth a chyda phartneriaid cenedlaethol a lleol eraill i ddatblygu Concordat Cenedlaethol ar Droseddwy'r Benywaidd.** Bydd y concordat hwn yn amlinellu sut y dylai partneriaid a gwasanaethau lleol gydweithio mewn partneriaeth i nodi ac ymateb i anghenion menywod, sydd yn aml yn rhai lluosog a chymhleth, wrth iddynt fynd drwy'r system cyfiawnder troseddol. Rydym yn bwriadu ei gyhoeddi erbyn diwedd 2018.

Cwmpas:

1. Cwmpas daearyddol y strategaeth hon yw Cymru a Lloegr. Mae gweinyddiaethau datganoledig y DU wedi mabwysiadu eu dulliau eu hunain o ymdrin â gofal iechyd troseddwy'r lle mae cyfrifoldeb wedi'i ddatganoli. Felly mae rhai o'r meysydd polisi o dan y strategaeth hon fel iechyd a gofal cymdeithasol yn cynnwys Lloegr yn unig. Mae unrhyw gyfeiriad at feysydd sy'n gysylltiedig â gwaith Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi a'r Weinyddiaeth Cyfiawnder yn gymwys i Gymru a Lloegr. Rydym ni, Y Weinyddiaeth Cyfiawnder, yn gweithio gyda'r gweinyddiaethau datganoledig i sicrhau dull cydgysylltiedig o ymdrin â gofal a rheolaeth carcharorion

ym mhob rhan o'r DU. Mae'r boblogaeth y cyfeirir ati yn y strategaeth hon yn cynnwys yr holl droseddwyr benywaidd sy'n oedolion yng Nghymru a Lloegr.

Y Cyd-destun Cymreig

2. Mae Llywodraeth Cymru yn rhannu'r uchelgeisiau cyffredinol sydd yn y strategaeth hon, yn cynnwys lleihau nifer y menywod mewn carchardai, ymyrraeth gynharach a mwy priodol, dargyfeirio, gweithio'n gryf mewn partneriaeth, a chymorth i adsefydlu sy'n galluogi menywod i drawsnewid eu bywydau a rhoi'r gorau i droseddu.
3. Fodd bynnag, mae gan Gymru ei chyd-destun ei hun o ran deddfwriaeth a pholisi mewn meysydd fel iechyd, gofal cymdeithasol, camddefnyddio sylweddau, tai a llety, addysg a sgiliau a thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol. At hynny, nid oes carchar menywod yng Nghymru. O ganlyniad i hyn, mae ar Gymru angen dull neilltuol o ymdrin â menywod sydd yn y System Cyfiawnder Troseddol ac sydd mewn perygl o fynd iddi.
4. Mae Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi yng Nghymru, sy'n rhan o'r Weinyddiaeth Cyfiawnder, a Llywodraeth Cymru yn gweithio mewn partneriaeth i ddatblygu "glasbrint" ar y cyd i Gymru, i sicrhau darpariaeth briodol ar gyfer menywod yng Nghymru sydd yn y System Cyfiawnder Troseddol neu sydd mewn perygl o fynd iddi. Bydd y glasbrint hwn yn ystyried y cyd-destun datganoledig (Llywodraeth Cymru) a'r cyd-destun nas datganolwyd (Y Weinyddiaeth Cyfiawnder). Bydd y glasbrint yn amlinellu uchelgais a rennir i sefydlu a gwreiddio Dull System Gyfan yng Nghymru, yn ymestyn o atal ac ymyrraeth gynnar i ailsefydlu ac ailintegreiddio. Bydd hefyd yn ymdrin â'r cwestiwn o ddewisiadau eraill yn lle'r ddalfa i fenywod yng Nghymru, yn ogystal â dull neilltuol o gynorthwyo troseddwyr, eu teuluoedd, a menywod sydd mewn perygl o droseddu.
5. Bydd y glasbrint, a'r gwaith mewn partneriaeth sy'n parhau, yn sicrhau y bydd anghenion amrywiol a chymhleth y troseddwyr benywaidd yng Nghymru yn cael eu diwallu yn y ffyrdd gorau posibl.

Pennod Un: Ymyrraeth Gynnar

Crynodeb o'r Bennod:

12. Mae cyfran sylweddol o'r menywod sy'n dod i gysylltiad â'r system cyfiawnder troseddol yn cyflawni troseddau sy'n rhai lefel isel.²² Mewn rhai achosion, byddai wedi bod yn bosibl atal eu troseddu drwy ddelio'n gynharach â'r ffactorau a oedd yn eu gwneud yn agored i niwed. Mae gan nifer mawr ohonynt ffyrdd caotig o fyw sy'n gysylltiedig â chamddefnyddio sylweddau, problemau iechyd meddwl, digartrefedd ac ymddygiad troseddol – fel y mae'r Strategaeth Trais yn erbyn Menywod a Genethod wedi cydnabod, mae'r rhain yn aml yn ganlyniad i hanes o gam-drin a thrawma.²³ Yn aml ceir galwadau cyson gan y troseddwy'r hyn am wasanaethau a byddant yn mynd ymlaen i aildroseddu. Mae dod o gysylltiad â'r system cyfiawnder troseddol yn peri'n aml i'r menywod hyn fynd i argyfwng neu fethu â dod ohono. Gall euogfarn arwain at golli llety a chyflogaeth, amharu ar deuluoedd a phlant a dechrau cylch o droseddu sy'n pontio'r cenedlaethau.
13. Mae buddion amlwg i'w cael o ymyrryd yn gynharach i leihau nifer y menywod sy'n dod i gysylltiad â'r system cyfiawnder troseddol. Ar gyfer dioddefwyr, byddai atal a lleihau aildroseddu yn arwain at ostyngiad mewn troseddau; ar gyfer cymdeithas ehangach, byddai llai o gost a llai o bwysau ar wasanaethau; ar gyfer troseddwy'r a'u teuluoedd, gallent osgoi argyfwng ac, yn lle hynny, dechrau dilyn y llwybr at ffordd fwy sefydlog o fyw.

Byddwn yn lleihau nifer y menywod sy'n dod i gysylltiad â'r system cyfiawnder troseddol drwy:

Ymyrryd yn gynharach i ddelio â ffactorau sy'n eu gwneud yn agored i niwed sy'n gallu arwain at droseddu drwy:

- Ariannu darpariaeth gymunedol a gwasanaethau cam-drin domestig i fenywod

Dargyfeirio troseddwy'r oddi wrth y system cyfiawnder troseddol, lle mae'n briodol gwneud hynny, ac ymdrin â'u hanghenion er mwyn atal aildroseddu drwy:

- Optimeiddio cynlluniau Cyswllt a Dargyfeirio
- Helpu'r Heddlu i weithio gyda menywod agored i niwed
- Gwella'r defnydd o Benderfyniadau y Tu Allan i'r Llys
- Gweithio gydag erlynwyr heblaw'r heddlu
- Hyrwyddo Dargyfeirio Seiliedig ar Fanwerthu

Yr Her

14. Rydym yn gwybod bod ffactorau sy'n gwneud menywod yn agored i niwed yn gallu cyfrannu mewn llawer achos at droseddu ymysg menywod, boed hynny'n ymwneud â

chamdefnyddio sylweddau, profiadau o gam-drin, perthnasoedd, tai, cyflogaeth neu faterion ariannol.

15. Rydym yn cydnabod bod cam-drin domestig yn gallu chwarae rhan bwysig mewn troseddu gan fenywod. Gall cam-drin o'r fath fod o wahanol fathau, yn cynnwys ymddygiad cymhellol a gormesol. Mae dioddef cam-drin domestig yn rhagfynegydd ar gyfer aildroseddu treisgar ymysg menywod. Mae bron 60% o'r troseddwy'r benywaidd sydd o dan oruchwyliaeth yn y gymuned neu yn y ddalfa, a gafodd eu hasesu, wedi profi cam-drin domestig.^{24,25}
 16. Yn adroddiad yr Ymddiriedolaeth Diwygio Carchardai, "*There's a reason we're in trouble,*" edrychwyd ar gam-drin domestig fel ffactor sy'n sbarduno troseddu ymysg menywod.²⁶ Daeth i'r casgliad bod yr ymateb gan asiantaethau cyfiawnder troseddol i droseddwy'r benywaidd sy'n profi effaith cam-drin domestig yn gallu bod yn allweddol i dorri'r cylch o erledigaeth a throseddu, a'i bod yn hollbwysig adnabod achosion o gam-drin domestig ar y cyfle cyntaf. Mae Strategaeth Trais yn erbyn Menywod a Genethod y Llywodraeth yn cydnabod yr amcangyfrif o £3.9 biliwn am gost cam-drin domestig i wasanaethau iechyd, tai a chymdeithasol a gwasanaethau cyfiawnder troseddol a chyfraith sifil.²⁷ Mae cynorthwyo'r menywod hyn yn gynnar, cyn iddynt droseddu neu pan fo'r trosedd ar lefel isel iawn, yn gallu eu hatal rhag mynd neu ddychwelyd i'r system cyfiawnder troseddol.
 17. Mae erlyniadau yn erbyn menywod yn llawer mwy tebygol o fod am droseddau di-drais lefel isel na'r rheini yn erbyn dynion.²⁸ Dwyn o siopau yw un o'r troseddau mwyaf cyffredin y mae menywod a dynion yn cael dedfryd o garchar amdanynt, a hwn yw'r trosedd mwyaf cyffredin y mae menywod yn cael Hysbysiad Cosb am Anhrefn, dedfryd gymunedol neu ddedfryd ohiriedig amdano.²⁹ Yn 2017, siopladrad oedd yn cyfrif am 43% o'r oedolion benywaidd a gafodd ddedfryd am droseddau ditiol/neillfordd. Hefyd mae mwy o fenywod ar gyfartaledd yn cael eu herlyn am efadu ffi'r drwydded deledu a thriwantiaeth plant. Yng nghyswllt efadu ffi'r drwydded deledu, mae tua 70% o'r erlyniadau yn erbyn menywod.³⁰ Mewn rhai achosion, gall fod yn fwy priodol dargyfeirio'r menywod hyn rhag eu herlyn ac ymdrin ag achosion eu troseddu.
1. Gall cysylltiad â'r system cyfiawnder troseddol ddod â chanlyniadau negyddol iawn hefyd i'r teuluoedd, yn enwedig plant i droseddwy'r. Mae tystiolaeth ryngwladol wedi dangos bod plant i rieni a garcharwyd yn wynebu mwy o risg o ymddygiad gwrthgymdeithasol a throseddol.³¹ Gan fod cyfran fwy o famau a garcharwyd yn byw gyda'u plant dibynnol cyn eu carcharu nag o dadau a garcharwyd (~60% vs. ~45%), mae carcharu mamau'n cael mwy o effaith ar drefniadau byw plant dibynnol na carcharu tadau.³²
 2. Gwaethygir y risgiau hyn gan natur anghyson y ddarpariaeth o wasanaethau cymunedol seiliedig ar rywedd sydd ar gael i'w helpu, yn enwedig y rheini sy'n cael eu rhedeg gan y trydydd sector fel canolfannau menywod, y gwyddom eu bod yn gallu bod yn effeithiol o ran lleihau aildroseddu. Hyd yn oed lle mae gwasanaethau ar gael, nid yw lefel y ddarpariaeth yn ateb y galw lleol bob amser, fel y gwelir yn Llundain, yr ardal lle mae'r nifer mwyaf o droseddwy'r benywaidd y pen yng Nghymru a Lloegr.

Ymyrryd yn gynharach i ymdrin â'r ffactorau sy'n peri bod menywod yn agored niwed a all arwain at droseddu

Rôl ardaloedd lleol, y trydydd sector ac Adrannau Llywodraeth eraill

3. Rydym am weld ardaloedd lleol, sy'n amrywio o ran strwythur eu gwasanaethau, yn ymdrin drwy ddull cydgyssylltiedig, amlasiantaeth â'r rhwystrau sy'n atal menywod ag anghenion lluosog a chymhleth rhag gwneud defnydd effeithiol o wasanaethau. Er mwyn bod yn effeithiol, mae'n bwysig bod y dulliau gweithredu hyn yn cynnwys asiantaethau fel Comisiynwyr Heddlu a Throsedd, gwasanaethau iechyd, asiantaethau cyfiawnder troseddol a darparwyr y trydydd sector. Er mwyn cyflawni hyn, rydym am weld darpariaeth ddigonol, seiliedig ar rywedd mewn ardaloedd lleol i gwrdd ag anghenion troseddwyr benywaidd.
4. Mae gwasanaethau a gomisiynwyd gan Gomisiynwyr Heddlu a Throsedd, rhwydwaith canolfannau menywod y trydydd sector a gwasanaethau penodol i fenywod yn darparu cymorth cynnar gwerthfawr i fenywod sy'n agored i niwed, llawer ohonynt ag anghenion cymhleth, cyn iddynt ddod i argyfwng. Gan ystyried y menywod y mae'r gwasanaethau hyn yn gweithio gyda nhw, hoffem weld asiantaethau a chomisiynwyr lleol yn cydweithio â ni ac yn buddsoddi mewn canolfannau menywod a gwasanaethau eraill sy'n benodol i fenywod. Rydym yn cydnabod y rhan hanfodol y maent wedi'i chwarae i helpu i sicrhau bod gwasanaethau cymunedol i fenywod fel canolfannau menywod yn gynaliadwy. Rydym am sicrhau bod ein dull o weithredu'n meithrin
5. Gall nifer o wasanaethau eraill, fel gwasanaethau addysg neu iechyd, ddod i gysylltiad â menywod sy'n wynebu risg cyn iddynt fynd i'r system cyfiawnder troseddol. Rydym am weld gwasanaethau'n adnabod ac yn ymgysylltu â'r menywod hyn er mwyn delio â materion a allai fod yn ffactorau yn eu troseddu.
6. Rydym yn ddiolchgar am y rhan y mae ymddiriedolaethau a sefydliadau elusennol wedi'i chwarae mewn cefnogi gwasanaethau cymunedol i fenywod, drwy ddarparu cymorth hanfodol yn aml i ddarparwyr y trydydd sector. Rydym yn awyddus i gydweithio â'r sefydliadau hyn a sicrhau bod gwasanaethau lleol yn gallu parhau i elwa o'u harbenigedd, profiad a chymorth.

Ariannu darpariaeth gymunedol a gwasanaethau cam-drin domestig i fenywod

7. Yn rhan o'n newid pwyslais o'r ddalfa i'r gymuned, rydym yn lansio cystadleuaeth am grantiau ochr yn ochr â'r strategaeth hon a fydd yn dyfarnu cyllid o £3.5 miliwn rhwng 2018 a 2020 (£2 miliwn yn 2018/19 ac £1.5 miliwn yn 2019/20) ar gyfer darpariaeth gymunedol i droseddwyr benywaidd neu'r rheini sydd mewn perygl o droseddu. Darperir cyllid i ddatblygu darpariaeth i fenywod sydd wedi profi cam-drin domestig, i gynnal a datblygu gwasanaethau cymunedol i fenywod, ac i helpu ardaloedd lleol i ddatblygu a gwreiddio Dulliau System Gyfan ar gyfer troseddwyr benywaidd (gweler pennod pedwar am ragor o fanylion am Ddulliau System Gyfan).
1. Gan fod nifer y menywod Duon, Asiaidd a lleiafrifol ethnig yn y system cyfiawnder troseddol yn uwch na'r cyfartaledd, rydym am weld cyllid yn cael ei ddefnyddio i gwrdd ag anghenion y cohort hwn, yn ogystal ag anghenion cohortau eraill o fenywod sydd â nodweddion gwarchoddedig sy'n ei chael yn anodd cael gafael ar

wasanaethau.³³ Bydd angen dangos mewn ceisiadau i'r gystadleuaeth grantiau sut y byddant yn cynyddu'r ymgysylltu â chohortau o'r fath ac yn eu cynorthwyo.

2. Byddwn yn buddsoddi cyllid cyfalaf ychwanegol o £1.5 miliwn i helpu i ddatblygu darpariaeth yn y gymuned i droseddwy'r benywaidd.
3. Daeth ymgynghoriad y Llywodraeth ar gam-drin domestig, *Trawsnewid yr Ymateb i Gam-drin Domestig* i ben ar 31 Mai 2018. Cyhoeddodd y Prif Weinidog yng Nghyllideb y Gwanwyn 2017 y byddai cyllid o £20 miliwn ar gael i fynd i'r afael â cham-drin domestig, ac mae £2 miliwn o'r cyllid hwn wedi'i neilltuo ar gyfer troseddwy'r benywaidd. Roedd yr ymgynghoriad wedi gofyn barn am ffordd i gydweithio'n well â throseddwy'r benywaidd a menywod agored i niwed sy'n wynebu risg o droseddu i adnabod achosion o gam-drin domestig yn gynharach. Rydym yn ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad er mwyn penderfynu ar y ffordd orau i ddefnyddio'r cyllid sy'n weddill i helpu dioddefwyr a theuluoedd sydd mewn perygl. Bydd y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol (MHCLG) hefyd yn cyhoeddi cyllid sylweddol ychwanegol ar gyfer gwasanaethau cam-drin domestig, yn cynnwys llochesau, cyn gynted â phosibl yn y flwyddyn ariannol hon. Bydd hyn yn cynnwys lansio cronfa newydd y bydd pob ardal leol yn Lloegr yn gallu gwneud cynnig am gyfran ohoni.

Dargyfeirio troseddwy'r oddi wrth y system cyfiawnder troseddol, lle mae'n briodol gwneud hynny, ac ymdrin â'u hanghenion er mwyn atal ail-droseddu

Optimeiddio Gwasanaethau Cyswllt a Dargyfeirio

4. Mae gwasanaethau Cyswllt a Dargyfeirio a gomisiynir gan y GIG ar flaen yr ymdrech i ddargyfeirio menywod oddi wrth y system cyfiawnder troseddol. Maent yn lleoli staff clinigol mewn gorsafoedd heddlu a llysoedd ledled Lloegr i ddarparu asesiadau ac atgyfeiriadau am driniaeth a chymorth. Gellir dargyfeirio troseddwy'r oddi wrth y system cyfiawnder troseddol yn gyfan gwbl, oddi wrth eu cyhuddo, neu i gyflawni dedfryd gymunedol gyda gofyniad am driniaeth. Mae iechyd wedi'i ddatganoli yng Nghymru ac mae Cymru wedi datblygu gwasanaeth Cyswllt a Dargyfeirio Cyfiawnder Troseddol sy'n debyg ond ar wahân. Dechreuwyd darparu gwasanaethau Cyswllt a Dargyfeirio yn Ebrill 2014 ac maent yn cael eu cyflwyno ledled Lloegr. Maent yn cwmpasu 82% o boblogaeth Lloegr ar hyn o bryd, a byddant ar gael i'r boblogaeth gyfan erbyn Mawrth 2020. Mae cynlluniau tebyg yn cael eu datblygu yng Nghymru.
5. Bydd y gwasanaethau hyn yn fwyaf effeithiol lle gallant ymateb i anghenion menywod mewn ffordd seiliedig ar rywedd, gan fod nifer mawr o fenywod yn ei chael yn anodd datgelu manylion am eu hamgylchiadau. Yn aml byddant yn ofni canlyniadau negyddol o roi gwybod am broblemau iechyd meddwl neu faterion yn ymwneud â chamddefnyddio sylweddau, yn enwedig os oes rhai'n ddibynnol arnynt neu os ydynt mewn perthynas gamdriniol. Ar hyn o bryd, mae NHS England yn gwella'r 'llwybrau menywod' yn yr holl wasanaethau Cyswllt a Dargyfeirio, ac mae swyddog arweiniol menywod wedi'i benodi ym mhob gwasanaeth i arwain y gwaith hwn. Mae'r llwybrau hyn yn cael eu cynllunio ar y cyd â menywod sydd â phrofiad uniongyrchol o'r system cyfiawnder troseddol. Bydd gwasanaethau'n caniatáu i fenywod sy'n dod i ddalfeydd yr heddlu ddewis rhywedd yr ymarferydd a fydd yn gweithio gyda nhw, yn cynnig offer sensitif i rywedd ar gyfer sgrinio ac yn darparu atgyfeiriadau effeithiol i wasanaethau seiliedig ar rywedd. Rhoddir ystyriaeth hefyd i ddelio â'r rhwystrau a wynebir gan

grwpiau penodol, fel gweithwyr rhyw a menywod sy'n wladolion tramor, wrth gael gafael ar wasanaethau. Bydd Y Weinyddiaeth Cyfiawnder yn parhau i gydweithio â'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol a NHS England i helpu i gyflwyno'r gwasanaethau hyn a sicrhau eu bod yn gallu diwallu anghenion menywod i'r graddau mwyaf posibl.

Helpu'r Heddlu i weithio gyda menywod agored i niwed

1. Po gyntaf y gallwn adnabod y ffactorau sy'n peri i fenywod fod yn agored i niwed, mwyaf y gallwn ei wneud i ymyrryd yn y cylch troseddu.³⁴ Mae cysylltiad â'r heddlu yn gyfle i gynnig asesiad anghenion sengl sy'n pennu ac yn ymdrin â'r holl gymhlethdodau yn amgylchiadau'r unigolyn, yn cynnwys nodweddion gwarchoddedig.
2. Ochr yn ochr â'r strategaeth hon, rydym yn lansio canllawiau cynhwysfawr ar weithio gyda menywod agored i niwed sydd wedi'u datblygu mewn partneriaeth rhyngom ni a Chyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu (NPCC). Mae'r rhain yn cynnwys asesiadau o anghenion ar gyfer menywod sy'n dod i gysylltiad â'r heddlu, pa un a ydynt wedi'u harestio neu beidio. Byddant yn rhoi'r gallu i'r heddlu ddargyfeirio menywod oddi wrth y system cyfiawnder troseddol yn gyfan gwbl, neu'n helpu llysoedd i roi gorchymyn cymunedol i fenywod yn hytrach na dedfryd fer o garchar drwy roi darlun mwy cyflawn iddynt o amgylchiadau'r fenyw. Mae'r Weinyddiaeth Cyfiawnder, y Swyddfa Gartref, NPCC a Chymdeithas Comisiynwyr yr Heddlu a Throsedd (APCC) wedi cyd-ymrwymo i argymhell a hyrwyddo'r defnydd o'r canllawiau gan yr holl heddluoedd yng Nghymru a Lloegr.
3. Yn ogystal â hyn, mae'r Coleg Plismona wedi datblygu rhaglen hyfforddi ar risgiau a bod yn agored i niwed sy'n paratoi staff i weithio mewn ffordd wybodus am drawma. Mae'r cwrs hwn wedi'i ddarparu i 9,500 o swyddogion a staff yr heddlu, ac mae ar gael bellach i'w ddarparu'n lleol o dan drwydded gan y Coleg.

Gwella Penderfyniadau y Tu Allan i'r Llys

4. Wedi i fenywod ddod i gysylltiad â'r heddlu, gellir gweinyddu Penderfyniad y Tu Allan i'r Llys i ddelio'n gymesur â throseddu lefel isel heb fynd i'r llysoedd. Er y gallai hyn fod yn ddull effeithiol o gynnal menywod yn y gymuned, o dan y system bresennol mae gormod o benderfyniadau sy'n ddim mwy na rhybudd i beidio ag aildroseddu ac sy'n methu â delio ag achosion sylfaenol yr ymddygiad troseddol drwy osod amodau. Nid yw hyn yn ddigon os ydym am ddarparu'r cymorth cyfannol a fydd yn dargyfeirio menywod yn effeithiol oddi wrth y system cyfiawnder troseddol yn y tymor hir.
1. Er mwyn ymchwilio i botensial y dull hwn o weithredu, roeddem wedi treialu fframwaith Penderfyniadau y Tu Allan i'r Llys mewn tri heddlu (Gorllewin Swydd Efrog, Swydd Stafford a Swydd Gaerlŷr) yn 2014-15 a oedd yn rhoi pwyslais ar ddiwygio troseddwr. Roedd amodau ar gyfer adsefydlu wedi'u gosod ar 44% o'r holl rybuddiadau amodol a roddwyd.³⁵ Roedd rhai o'r ardaloedd treialu hyn hefyd wedi atgyfeirio menywod i ganolfannau menywod i ddelio â'u hymddygiad troseddol ochr yn ochr â'r Penderfyniad y Tu Allan i'r Llys.
2. Yn fwy cyffredinol, mae nifer o ardaloedd heddlu yn gweithio i ddatblygu opsiynau dargyfeirio o ansawdd da ar gyfer menywod. Byddwn yn ceisio helpu i atgynhyrchu'r dull hwn o weithredu drwy gefnogi'r arweiniad a roddir i'r heddlu gan yr NPCC, a

gyhoeddodd Strategaeth Cyhuddo a Phenderfyniadau y Tu Allan i'r Llys yn Ionawr 2018.

Astudiaeth Achos o Asesu gan yr Heddlu a Phenderfyniadau y Tu Allan i'r Llys

Mae Checkpoint, cynllun gohirio erlyn yn Durham, wedi sicrhau canlyniadau cadarnhaol wrth weithio gyda throseddwr benywaidd y tu allan i'r llys. Drwy ddull aml-asiantaeth, mae Checkpoint yn darparu 'llywiwr' i helpu'r rheini sy'n gymwys drwy gynnal asesiad manwl o anghenion wedi'i seilio ar eu risg aildroseddu, gosod yr amodau a rheoli'r gwaith gyda'r fenyw drwy gydol cyfnod o bedwar mis. Rhaid i'r troseddwr dderbyn y contract a chydymffurfio ag ef neu wynebu'r posibilrwydd o gael ei herlyn am y trosedd. Roedd mwy na 90% o'r rheini a gymerodd ran yn y cynllun wedi'i gwblhau'n llwyddiannus a heb gael cofnod troseddol.

Mae'r enghraifft isod yn disgrifio'r daith gan un troseddwr benywaidd (a elwir yn CM).

Ar ôl ei harestio am siopladrad, roedd yr heddlu wedi nodi bod CM wedi'i chymell ar gam mewn nifer o ffyrdd i gyflawni'r trosedd. Roedd hi'n adnabyddus i'r heddlu ac yn cael ei hystyried yn droseddwr agored i niwed â hanes o ddiodeff troseddau fel cam-drin domestig, trais a difrod, a llosgi bwriadol. Cynhaliwyd asesiad risg a oedd yn edrych ar ei llety, ei sefyllfa ariannol, ei hiechyd, ei theulu a'i pherthnasoedd. Roedd y llywyr wedi nodi problemau cysylltiedig â cham-drin domestig, caethiwed i alcohol a methadon, ac iechyd meddwl.

Cytunodd CM i dderbyn a chydymffurfio ag amodau'r llwybr: dilyn rhaglen lleihau cyffuriau a mynychu grŵp i alcoholiaid, trefnu i weld meddyg teulu i drafod problemau cysylltiedig ag iselder a gorbryder, derbyn atgyfeiriad i Harbour (elusen sy'n gweithio gydag unigolion sydd wedi profi effaith o gam-drin) a gwneud iawn â'r dioddefwr drwy ymddiheuro wyneb yn wyneb.

Yn y cyfnod o bedwar mis, gweithiodd y llywyr i ddarparu system gymorth a meithrin perthynas ymddiriedus. Roedd yr ymyriadau wedi gwella ei dibyniaeth ar gyffuriau ac alcohol, ac wedi helpu'r cleient i ymbellhau oddi wrth ei phartner camdriniol. Oni bai am Checkpoint, byddai CM wedi cael ei phrosesu yn y system cyfiawnder troseddol, gan greu'r posibilrwydd o barhau'r cylch troseddu a methu â delio ag achos sylfaenol yr ymddygiad troseddol. Nid yw CM wedi troseddu ers cwblhau'r llwybr.

Gweithio gydag erlynwyr heblaw'r heddlu

18. Roedd *Adolygiad Perry* yn 2015 ar efadu ffi'r drwydded deledu wedi argymhell bod y BBC a'r Llywodraeth yn edrych ar ffyrdd i ymchwilio i'r gwahaniaeth rhwng y rhywiau mewn erlyniadau yng nghyswllt y drwydded deledu a'i ystyried.³⁶ Rydym wedi cydweithio'n agos â'r Adran Digidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS) a'r BBC yn eu gwaith i ystyried y mater hwn. Mewn ymateb i argymhelliad allweddol i'r adolygiad ynghylch talu hyblyg, cyflwynwyd deddfwriaeth ar 9 Mawrth 2018 sy'n caniatáu i Trwyddedu Teledu roi prawf ar gynllun talu newydd. Mae'r Cynllun Talu Hyblyg ar gyfer y rheini sy'n ei chael yn fwyaf anodd talu ffi'r drwydded deledu ac mae'r cynllun yn cynnig hyblygrwydd os methir taliadau. Mae'r BBC hefyd wedi cynnal ymchwil i'r rhesymau am y gwahaniaeth rhwng y rhywiau ac wedi cyhoeddi ei ganfyddiadau ym mis Rhagfyr. Byddwn yn parhau i fonitro ei ymateb.

Hyrwyddo Dargyfeirio Seiliedig ar Fanwerthu

19. Oherwydd nifer yr achosion o droseddu drwy ddwyn o siopau ymysg menywod, mae cynlluniau dargyfeirio seiliedig ar fanwerthu yn cynnig cyfle pwysig i ddargyfeirio menywod rhag eu herlyn ac i ymdrin â'r anghenion sy'n arwain at eu troseddu. Mae cynllun peilot 'brysbennu manwerthu menywod' yn Bury yn dargyfeirio menywod a ddelir yn siop-ladrata i'w canolfan menywod neu wasanaeth menywod lleol yn hytrach nag i'r system cyfiawnder troseddol. Byddwn yn ceisio casglu rhagor o ddata o'r cynllun peilot hwn, a hyrwyddo ei ddull o weithredu mewn ardaloedd eraill.

Astudiaeth Achos o Gynllun Dargyfeirio Manwerthu Bury

Cafodd April ei hatgyfeirio i'r ganolfan Women of Worth drwy gynllun dargyfeirio manwerthu Bury, yn lle ei herlyn. Roedd April yn fam i un plentyn ac yn fyfyrwr hŷn ac roedd ganddi hanes o anhwylderau bwyta, ac roedd yn dioddef poen cronig, pyliau o banig a lefel isel o hunan-barch. Nodwyd bod ganddi anghenion iechyd meddwl ac iechyd corfforol, a phroblemau hefyd o ran rheoli amser a throseddu.

Yn rhan o'r cymorth a gafodd April yn y ganolfan menywod, roedd pum sesiwn un-i-un lle cafodd gyfle i ystyried sut roedd ei hiechyd meddwl yn effeithio ar ei hymddygiad, a'r ffactorau a oedd yn sbarduno ei throseddu, a dysgodd sut i addasu ei gweithredoedd negyddol. Cafodd gymorth hefyd i ddatblygu technegau i'w helpu i reoli pyliau o banig, i ymdrin ag anhwylderau bwyta, ac i reoli amser yn well. O ganlyniad i hyn, daeth April i fod yn fwy hunanymwybodol, ac i ddeall yn well pam roedd yn troseddu. Datblygodd fwy o hunanreolaeth, roedd yn gallu rheoli'r pyliau o banig ac roedd ganddi fwy o hunan-barch. Dechreuodd April ymwneud eto â gwasanaethau priodol a llwyddodd i gwblhau ei chwrs coleg ac ennill cymhwyster.

Pennod Dau: Atebion Cymunedol

Crynodeb o'r Bennod

20. Mae'r ddalfa wedi'i bwriadu i'w defnyddio fel y dewis olaf, i amddiffyn y cyhoedd ac i gosbi ac adsefydlu'r troseddwr. Fodd bynnag, ychydig o amddiffyniad y mae dedfrydau byr o garchar yn ei gynnig i'r cyhoedd, ac nid ydynt yn rhoi amser ar gyfer gweithgarwch adsefydlu ystyrion. Mewn rhai achosion, gall dedfrydau byr beri i'r troseddwr fod yn fwy agored i niwed a chynyddu'r risg o aildroseddu. Yn aml bydd mynd i'r ddalfa yn amharu'n fawr iawn ar fywydau troseddwy'r a'u teuluoedd, gan beri argyfyngau o ran cyflogaeth, tai a chyswllt â dibynnyddion.
21. Mae'r mater hwn yn effeithio'n fwy ar fenywod ar gyfartaledd: roedd 77% o'r menywod a gafodd ddedfryd o garchar yn 2017 wedi cael dedfryd o lai na 12 mis, o'i gymharu â 62% o ddynion.³⁷ Yn ogystal â hyn, mae poblogaeth sylweddol o fenywod sydd wedi cael dedfryd o garchar am droseddau di-drais lefel isel ond cyson, ond sy'n peri risg isel neu ganolig yn unig o ran amddiffyn y cyhoedd. Yn 2017, roedd bron hanner (47%) y menywod a gafodd ddedfryd fer o garchar wedi dwyn o siopau.³⁸ Mae mwyafrif (94%) y menywod sydd wedi cael dedfryd fyr o garchar o lai na 12 mis yn peri risg isel neu ganolig o ran amddiffyn y cyhoedd.³⁹
22. Mewn cyferbyniad â hyn, mae rheolaeth dda ar droseddwy'r yn y gymuned yn gallu bod yn fwy effeithiol o lawer mewn llawer achos a sicrhau gwell canlyniadau o ran aildroseddu.⁴⁰ Mae gorchmynion cymunedol hefyd yn helpu troseddwy'r i ymwneud â chyflogaeth a sicrhau llety sefydlog sydd ill dau'n ffactorau ar gyfer lleihau aildroseddu. Amharir yn llai o lawer ar deuluoedd a gellir cynnal menywod yn fwy effeithiol yn eu cymuned fel dinasyddion cynhyrchiol ar lai o gost i Lywodraeth gan ddod â mwy o fudd iddyn nhw ac i gymdeithas.
23. Hoffem weld llai o droseddwy'r benywaidd yn cael eu hanfon i'r ddalfa am gyfnodau byr. Byddwn yn ystyried beth allwn ei wneud yn rhagor i bwysleisio y dylai dedfrydau byr o garchar gael eu gweld yn ddewis olaf. Rydym am sicrhau bod y cyhoedd a'r farnwriaeth yn ymddiried mewn dedfrydau digarchar – fel gorchmynion cymunedol effeithiol – sy'n mynd i'r afael yn uniongyrchol ag achosion aildroseddu, yn cynnwys camddefnydd o alcohol neu gyffuriau a ffactorau sy'n dylanwadu ar y ffordd y mae menywod yn ymwneud ag ymyriadau ac yn ymateb iddynt, fel iechyd meddwl. Ein nod fydd lleihau nifer y lleoedd i fenywod mewn carchardai a darparu mwy o opsiynau yn y gymuned ar gyfer menywod sy'n ymdrin ag achosion troseddu ac yn hybu adsefydlu mwy effeithiol.
24. Er mwyn rhoi sylw i'r defnydd mynych o ddedfrydau byr o garchar, rydym yn rhoi nifer o fesurau ar waith i feithrin amgylchedd sy'n cymell y defnydd o ddedfrydau cymunedol yn lle dedfrydau o garchar lle y bo'n briodol.

Byddwn yn helpu i sicrhau bod cyfran fwy o fenywod yn cwblhau eu dedfryd yn y gymuned yn llwyddiannus ac yn lleihau'r nifer sy'n cwblhau dedfrydau byr o garchar drwy:

Sicrhau bod llysoedd yn cael gwybodaeth well a mwy cynhwysfawr am droseddwy'r benywaidd i'w hystyried wrth wneud penderfyniadau ar ddedfrydau drwy:

- Ymgysylltu â llysoedd
- Gwella Adroddiadau Cyn Dedfrydau

Datblygu mwy o opsiynau ar gyfer rheoli menywod yn y gymuned drwy:

- Dreialu Canolfannau Preswyl i Fenywod
- Gwella'r Ddarpariaeth o Lety
- Cynyddu'r defnydd o Ofynion Triniaeth mewn Dedfrydau Cymunedol
- Treialu Monitro Electronig, yn cynnwys technolegau newydd fel monitro lleoliad

Darparu mwy o gymorth i'r troseddwy'r hynny sy'n cael eu rheoli yn y gymuned drwy:

- Ddatblygu gwasanaeth prawf sy'n seiliedig i fwy o raddau ar rywedd

Yr Her

25. Gan fod mwyafrif y carcharorion benywaidd sy'n cwblhau dedfrydau byr yn peri risg isel neu ganolig, gall fod yn fwy priodol, mewn nifer mawr o achosion, iddynt gael eu rheoli yn y gymuned yn hytrach na'r ddalfa.⁴¹ Er hynny, rydym yn gwybod bod y rhan fwyaf o'r menywod a gaiff eu dedfrydau i'r ddalfa yn syth yn cael dedfryd fer o garchar, a bod mwy na hanner yn cael dedfryd o dri mis neu lai.⁴² Ar 31 Mawrth 2018, roedd 15% o'r menywod mewn carchardai yn rhai ar remand.⁴³ Gall hyn fod yn ganlyniad i sefyllfa lle nad yw llety addas ar gael ar eu cyfer, yn hytrach na bod eu proffil risg neu fath o drosedd yn galw am hynny. Er enghraifft, mae bron 9 ym mhob 10 o'r menywod sydd ar remand yn peri risg isel neu ganolig o achosi niwed difrifol.⁴⁴
26. Cafwyd gostyngiad yn y defnydd o orchmynion cymunedol ar gyfer menywod a dynion.⁴⁵ Mae'n bosibl bod cydberthynas rhwng hyn a'r cynnydd a welwyd yn y defnydd o Orchmynion Dedfryd Ohiriedig, sy'n rhoi menywod mewn perygl o gael eu galw'n ôl i'r ddalfa os byddant yn eu torri. Fodd bynnag, mae tystiolaeth a gyhoeddwyd yn ddiweddar hefyd yn dangos, ymysg troseddwy'r tebyg, fod gorchmynion llys (sy'n cynnwys Gorchmynion Dedfryd Ohiriedig) yn gallu lleihau troseddu o'u cymharu â dedfrydau byr o garchar.⁴⁶
27. Mewn rhai achosion, mae gorchmynion cymunedol sydd â gofynion triniaeth yn ddewis gwell ar gyfer troseddwy'r a allai gael dedfryd o garchar fel arall. Yn achos defnyddwy'r sy'n ddibynnol ar alcohol a chyffuriau a throseddwy'r â phroblemau iechyd meddwl, gall y gorchmynion hyn roi sylw i'r ffactorau sy'n eu gwneud yn agored i niwed sy'n cyfrannu at eu troseddu neu'r ffordd y maent yn ymwneud ag ymyriadau ac yn ymateb iddynt. Mae cyfran y troseddwy'r sy'n agored i niwed oherwydd ffactorau o'r fath yn sylweddol ond, yn 2017, llai nag 1% o'r holl droseddwy'r a oedd yn dechrau ar orchmynion llys a oedd wedi cael Gofyniad Triniaeth Iechyd Meddwl, 4% oedd wedi cael Gofyniad Triniaeth am Alcohol, 7% oedd wedi

cael Gofyniad Triniaeth am Gyffuriau a llai nag 1% a oedd wedi cael gofyniad preswyl.⁴⁷

28. Mae dedfrydu yn fater i'r llysoedd, ac ni ddylai ystyriaeth i rywedd y troseddwr gael effaith ar lymder y penderfyniadau ar ddedfrydu, ond fe ddylid ystyried ei amgylchiadau penodol yn lle hynny. Er hynny, yn yr adolygiad thematig gan Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi o'r ddarpariaeth gymunedol i fenywod sy'n troseddu yn 2016, cafwyd nad oedd adroddiadau cyn dedfrydu yn gwahaniaethu rhwng anghenion menywod ac anghenion dynion.⁴⁸
1. Mae'r ddarpariaeth o wasanaethau yn y gymuned a fyddai'n cynorthwyo menywod yn anghyson, yn enwedig yng nghyswllt digartrefedd, sy'n ffactor mewn ymddygiad troseddol ac yn angen pwysig gan y rheini sy'n cael eu rhyddhau o'r ddalfa. Ar ôl safoni ar gyfer ffactorau eraill, roedd carcharorion a oedd yn cysgu allan neu mewn llety dros dro cyn dod i'r ddalfa yn fwy tebygol o gael ail euogfarn o fewn un flwyddyn ar ôl eu rhyddhau.⁴⁹ Mae digartrefedd yn broblem sylweddol i'r boblogaeth o garcharorion benywaidd: rhwng Ebrill a Rhagfyr 2017, roedd 39% o'r menywod a ddyrannwyd i Gwmnïau Adsefydlu Cymunedol a'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol wedi'u rhyddhau i lety ansefydlog, ac roedd 18% wedi'u rhyddhau'n ddigartref.⁵⁰
2. Yn achos y rheini sy'n cael eu rheoli o dan oruchwyliaeth yn y gymuned ar ôl eu rhyddhau, mae diffyg mynediad at wasanaethau cymunedol cefnogol yn gallu cyfrannu at y posibilrwydd o'u galw'n ôl i'r ddalfa. Mewn adolygiad mewnol o ffeiliau achos galw'n ôl, cafwyd bod diffyg llety diogel a chamddefnyddio sylweddau yn ysgogi'r ddau reswm mwyaf cyffredin am alw troseddwr yn ôl i'r carchar: methu â chadw mewn cysylltiad â diffyg cydymffurfio.
1. Yn yr adolygiad thematig gan Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi yn 2016, nodwyd bod diffyg sylw i ganlyniadau ar gyfer menywod ar lefel strategol a gweithredol.⁵¹ Mewn gwasanaethau prawf yn gyffredinol, yn cynnwys Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol a'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol, cafwyd bod y dull o adnabod ac ymateb i anghenion rhywedd-benodol menywod sydd wedi troseddu yn anghyson. Roedd yr adolygiad hefyd wedi cael mai llai nag un ym mhob pedwar o'r swyddogion cyfrifol a oedd wedi cael hyfforddiant a chyfarwyddyd ynghylch rheoli achosion mewn ffordd benodol i fenywod, a bod y cynnig cenedlaethol ar gyfer hyn heddiw yn gyfyngedig iawn.

Sicrhau bod llysoedd yn cael gwybodaeth well a mwy cynhwysfawr am droseddwr benywaidd i'w hystyried wrth benderfynu ar ddedfrydu

2. Mae angen i lysoedd gael gwybodaeth gynhwysfawr er mwyn gosod dedfrydau a fydd yn cosbi ac adsefydlu troseddwr yn effeithiol. Mae adroddiadau cyn dedfrydu sy'n cyfleu cymhlethdod amgylchiadau'r troseddwr ac yn dangos sut y gellir helpu troseddwr i gydymffurfio â gorchymyn cymunedol yn gallu helpu llysoedd i gadw troseddwr yn y gymuned yn hytrach na'u hanfon i'r ddalfa.
3. Rydym am weld pob adroddiad cyn dedfrydu, pa un a yw'n adroddiad llafar ar y diwrnod neu'n adroddiad ysgrifenedig, yn cynnwys manylion am amgylchiadau'r troseddwr, fel rhai am unrhyw ddibynyddion, ac am broblemau o ran iechyd meddwl neu gam-drin domestig. Mae hefyd yn bwysig eu bod yn nodi'r opsiynau sydd ar gael yn lleol ar gyfer dedfrydau cymunedol seiliedig ar rywedd, fel y bydd llysoedd yn cael

eu hysbysu am yr holl opsiynau sydd ar gael ar gyfer dedfrydu troseddwr ac opsiynau ar gyfer dargyfeirio menywod oddi wrth y ddalfa.

Ymgysylltu â llysoedd

4. Mae dedfrydu yn fater i'r llysoedd, a rhaid i unrhyw newid pwyslais o'r ddalfa i ddedfrydau cymunedol gael ei arwain gan y farnwriaeth. Bydd Y Weinyddiaeth Cyfiawnder yn gweithio gyda barnwyr i feithrin ein dealltwriaeth o'r hyn y gellir ei wneud yn rhagor i sicrhau bod risgiau ac anghenion penodol troseddwr benywaidd yn cael eu trafod yn effeithiol yn y llys, ac i sicrhau bod llysoedd yn cael yr holl wybodaeth sydd ei hangen ar gyfer y broses dedfrydu. Gan adeiladu ar sail gwaith blaenorol gyda barnwyr Llys y Goron, byddwn yn cyfweld barnwyr rhanbarth ac ynadon yn y Llys Ynadon, lle mae mwyafrif y troseddwr benywaidd yn cael eu dedfrydu, er mwyn deall yn well sut y gallwn eu cynorthwyo ymhellach pan fyddant yn dedfrydu menywod.

Gwella Adroddiadau Cyn Dedfrydu

5. Yn rhan o'r gwaith sydd wedi dechrau eisoes ar wella ansawdd y wybodaeth y mae'r llys yn ei chael wrth ddedfrydu, rydym wedi cyflwyno'r Offeryn Cynnig Effeithiol ar lefel genedlaethol. Mae'r offeryn hwn yn disgrifio'r dewis o ymyriadau sydd ar gael, yn cynnwys y rheini a gynlluniwyd ar gyfer menywod yn benodol, er mwyn darparu'r opsiynau dedfrydu y mae troseddwr yn addas a chymwys ar eu cyfer i staff sy'n paratoi adroddiadau cyn dedfrydu. Mae gwybodaeth gynhwysfawr yn yr offeryn am y ddarpariaeth leol o opsiynau dedfrydu a thriniaeth yn y gymuned, a fydd yn helpu llysoedd i ddeall pa ymyriadau cymunedol sydd ar gael. Bydd hefyd yn helpu i ddangos arferion da mewn ymyriadau cymunedol ar gyfer menywod a bylchau mewn gwasanaethau lleol.
6. Mae llawer o fenywod yn ei chael yn anodd iawn datgelu manylion am eu hamgylchiadau i staff y system cyfiawnder troseddol. Yn aml byddant yn ofni'r canlyniadau negyddol o roi gwybod am unrhyw broblemau o ran iechyd meddwl neu gamddefnyddio sylweddau, yn enwedig os oes ganddynt ddibynyddion neu os ydynt mewn perthynas gamdriniol. Wrth asesu anghenion menywod ar gyfer adroddiadau cyn dedfrydu, rhaid ystyried yr anawsterau y maent yn eu hwynebu a helpu menywod i ddatgelu gwybodaeth. Drwy weithio gyda gwasanaethau Cyswllt a Dargyfeirio, byddwn yn sicrhau, lle mae caniatâd wedi'i roi, fod gwybodaeth berthnasol o'r asesiadau hyn yn cael ei rhannu â phartneriaid perthnasol yn y system cyfiawnder troseddol fel y gellir ystyried y wybodaeth honno wrth wneud penderfyniadau am gyhuddo a dedfrydu.
7. Er mwyn gwella ein prosesau asesu ein hunain, rydym wedi datblygu rhestr wirio newydd ar gyfer cyfweiliadau adroddiadau cyn dedfrydu (wedi'i seilio ar offeryn seiliedig ar rywedd Gweriniaeth Iwerddon a chynllun peilot Rhanbarth Gogledd-ddwyrain Lloegr o'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol) ar gyfer staff llys y gwasanaeth prawf, sy'n ceisio sicrhau bod y cwestiynau iawn yn cael eu gofyn er mwyn gwneud asesiadau da. Bydd y rhestr wirio yn cael ei chyflwyno'n genedlaethol o haf 2018 gan ddechrau â chynlluniau peilot yn rhanbarthau'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol yng Ngogledd-orllewin, De-ddwyrain a Dwyrain Lloegr. Ochr yn ochr â hyn, bydd templed adroddiad a phhecyn hyfforddi ar gyfer pawb sy'n ysgrifennu adroddiadau cyn dedfrydu yn sicrhau bod ein gweithlu yn gallu asesu ac ymateb i anghenion penodol troseddwr benywaidd. Gan ystyried yr effeithiau negyddol ar deuluoedd mamau a

garcharwyd a'r risg fwy o droseddu sy'n pontio'r cenedlaethau, rydym hefyd wedi rhoi cymorth i gyflwyno'r deunydd hyfforddi ar Ddiogelu Plant wrth Ddedfrydu Mamau a ddatblygwyd gan Dr Shona Minson. Mae'r deunydd hyfforddi hwn yn hybu ymwybyddiaeth o'r gwahanol oblygiadau i blant o garcharu mamau.

Datblygu mwy o opsiynau ar gyfer rheoli menywod yn y gymuned

8. Mae cymorth i fenywod yn y gymuned yn eu galluogi i gynnal eu cysylltiadau â'u teuluoedd ac yn eu helpu i aros mewn cyflogaeth ac mewn llety sefydlog. Mae hyn yn helpu i leihau aildroseddu a'r galw am wasanaethau.
9. Er mwyn sicrhau bod llai o fenywod yn mynd i'r ddalfa, rhaid i ni wella ystod a chadernid yr opsiynau ar gyfer rheoli menywod yn y gymuned yn llwyddiannus. Bydd hyn yn rhoi mwy o hyblygrwydd i lysoedd i ymateb i'r ffactorau penodol sy'n gallu cyfrannu at eu hymddygiad troseddol.

Treialu Canolfannau Preswyl i Fenywod

1. Rydym yn gwybod bod llawer o'r menywod sydd wedi cael neu sydd mewn perygl o gael dedfryd fer o garchar yn rhai sydd ag anghenion cymhleth iawn a hanes o droseddu cyson o'u cymharu â menywod sy'n cael eu goruchwylio yn y gymuned.^{52,53} Heb gael cymorth, bydd nifer mawr o'r rheini sy'n cael gorchymyn cymunedol neu sy'n cael eu goruchwylio ar ôl eu rhyddhau yn torri amodau ac yn cael eu galw'n ôl i'r ddalfa. Mae llety sefydlog yn angen hanfodol ar gyfer y cohort hwn er mwyn lleihau'r risg hon a'u helpu i gael cyflogaeth neu hyfforddiant, ond yn aml nid yw hyn ar gael iddynt. Rhwng Ebrill a Rhagfyr 2017, roedd 39% o'r menywod a ddyrannwyd i Gwmnïau Adsefydlu Cymunedol a'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol wedi cael eu rhyddhau i lety ansefydlog (35% o ddynion).⁵⁴ Rydym am ddarparu rhagor o opsiynau ar gyfer cymorth preswyl yn y gymuned sy'n cynnig y llety a'r cymorth cyfannol a fydd yn caniatáu i'r menywod hyn gwblhau gorchymynion cymunedol yn llwyddiannus er mwyn eu dargyfeirio oddi wrth y ddalfa a pheidio â'u galw'n ôl i'r ddalfa. Dylai hyn fod o gymorth i leihau eu haidroseddu yn y tymor hir a gellid ei gysylltu â'r ddarpariaeth bresennol o wasanaethau cymunedol i fenywod fel canolfannau menywod.
2. Er bod rhai modelau addawol eisoes ar waith ar raddfa fach ar gyfer troseddwy'r benywaidd sy'n canolbwyntio ar gymorth preswyl fel Willowdene Farm, Anawim, Threshold Housing First a'r 218 Centre yn yr Alban, mae angen cael gwell dealltwriaeth o effeithiolrwydd modelau o'r mathau hyn.
3. Rydym wedi ymrwymo i weithio gyda phartneriaid i ddatblygu cynllun peilot i dreialu 'canolfannau preswyl i fenywod' ar o leiaf bum safle ar draws Cymru a Lloegr. Nod y cynllun peilot fydd datblygu sylfaen dystiolaeth gadarn am fodolau a allai fod yn effeithiol, yn gynaliadwy ac yn hawdd eu heangu ar gyfer gwella canlyniadau i droseddwy'r benywaidd a lleihau nifer ac amllder y dedfrydau byr o garchar i fenywod sy'n mynd neu'n dychwelyd i'r ddalfa.
4. Rydym am weld y modelau ar gyfer canolfannau preswyl i fenywod a gaiff eu treialu yn cynnig pecyn cymorth preswyl dwys yn y gymuned i fenywod sydd wedi cael, neu sydd mewn perygl o gael, dedfryd fer o garchar, i'w helpu i ddelio ag achosion sylfaenol eu hymddygiad troseddol. Rydym am eu gweld yn nodi, yn annog ac yn cyd-drefnu defnyddwyr gwasanaethau i ddefnyddio gwasanaethau a fydd yn rhoi sylw

i fathau o ymddygiad troseddol, fel camddefnyddio sylweddau, ac yn caniatáu iddynt sefydlu ffyrdd cadarnhaol o fyw yn y gymuned.

5. Byddwn yn cymryd camau i ymgynghori wrth gynllunio a darparu safleoedd y cynllun peilot, drwy gynnwys darparwyr dichonol, partneriaid, yn cynnwys Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol, a buddsoddwyr, ar lefel genedlaethol a lleol, i sicrhau bod y modelau a weithredir yn gynaliadwy, credadwy a phriodol ar gyfer cyd-destun lleol pob safle. Yn fuan ar ôl cyhoeddi'r strategaeth hon, byddwn yn dechrau ar broses ymgysylltu i ddatblygu manylion ar gyfer cynllunio a darparu safleoedd y cynllun peilot.

Gwella'r Ddarpariaeth o Lety

6. Mae nifer o opsiynau eraill o ran llety i fenywod yn y gymuned sy'n cael eu goruchwylio ar ôl eu rhyddhau, eu rheoli yn y gymuned neu sydd mewn perygl o droseddu. Byddwn yn gweithio gyda'n darparwyr ac adrannau Llywodraeth eraill i sicrhau bod yr opsiynau hyn yn ymateb i anghenion penodol troseddwyr benywaidd, ac yn cynnig y cyfle gorau iddynt adsefydlu ac aros yn y gymuned.
7. Mae'r Gwasanaeth Cymorth Llety Mechnïaeth (BASS) yn un contract Llywodraeth o'r fath sy'n darparu llety i'r rheini sydd ar fechnïaeth, wedi'u rhyddhau ar Gyrrffyw Cyfyngu i'r Cartref ac, mewn nifer bach iawn o achosion, ar ôl eu rhyddhau ar ddiwedd dedfryd o garchar. Mae BASS yn caniatáu i fwy o'r rheini sy'n gymwys gael eu rhyddhau ar fechnïaeth neu ar Gyrrffyw Cyfyngu i'r Cartref, fel y bydd llai'n colli eu rhyddid ac yn profi'r effeithiau negyddol o hynny ar fywyd y teulu, cyflogaeth a thai. Cychwynnodd contract BASS newydd ar 18 Mehefin 2018. Mae cwmpas manyleb y gwasanaeth wedi'i ymestyn i ddarparu mynediad iddo gan garcharorion a ryddhawyd ar drwydded sydd heb lety, yn cynnwys menywod, pan fydd y galw ar gyfer y rheini sydd ar Fechnïaeth neu Gyrrffyw Cyfyngu i'r Cartref yn llai nag y mae ar hyn o bryd. Mae tua 17% o eiddo'r gwasanaeth wedi'i ddynodi ar gyfer troseddwyr benywaidd a gall ymateb i alw ychwanegol.
8. Rydym am ddarparu ar gyfer integreiddio agosach rhwng BASS a chanolfannau menywod sydd wedi'u sefydlu. Mae model ar gyfer hyn yn cael ei dreialu ym Manceinion Fwyaf ar hyn o bryd lle bydd menywod a gaiff eu lleoli yn eiddo BASS yn elwa o gymorth cyfannol o ansawdd da a ddarperir gan Women's Support Alliance. Mae'r cynllun peilot, a ddechreuodd ym Mawrth 2018, i bara am 12 mis ac ystyrir y posibilrwydd o'i ehangu i gynnwys rhagor o safleoedd ym Manceinion Fwyaf a lleoliadau eraill ar draws y wlad.
9. Mae Mangreoedd a Gymeradwywyd (MG) yn adnodd gwerthfawr arall sy'n cynorthwyo troseddwyr benywaidd ar ôl eu rhyddhau. Mae MG ar gael i ddarparu lefelau uwch o amddiffyniad i'r cyhoedd a'i gwneud yn llai tebygol y bydd troseddwyr isel eu risg yn troseddu ymhellach (e.e. troseddwyr sydd wedi cyflawni troseddau treisgar a/neu rywiol difrifol) ar ôl eu rhyddhau ar drwydded. Rydym yn adolygu nifer y lleoedd i fenywod mewn MG i sicrhau bod darpariaeth ar gyfer menywod lle y bo'i hangen. Rydym yn ceisio nodi darpariaeth addas mewn MG i fenywod yng Nghymru ac yn Llundain, lle rydym wedi cydnabod bod angen dirfawr.

Cynyddu'r defnydd o Ofynion Triniaeth mewn Dedfrydau Cymunedol

29. Mae tri Gofyniad Triniaeth Dedfryd Gymunedol (GTDG) ar gael i'r llysoedd ar hyn o bryd - Gofynion Triniaeth Iechyd Meddwl, Gofynion Adsefydlu Cyffuriau a Gofynion Triniaeth am Alcohol - ond ychydig o ddefnydd a wneir ohonynt.⁵⁵ Mae hyn er gwaethaf y ffaith bod problemau iechyd meddwl, cyffuriau ac alcohol yn gyffredin iawn yng nghohort y troseddwy'r benywaidd. O'r rheini a gafodd asesiad, mae problem iechyd meddwl gan 22% o'r menywod sy'n cael eu goruchwyllo o dan orchymyn llys, mae problem camddefnyddio alcohol gan 29% a phroblem camddefnyddio sylweddau gan 32%.⁵⁶
30. Yn achos rhai o'r menywod hyn, gallai GTDG ddod â gwell canlyniadau na dedfryd o garchar. Mae ymchwil gan Y Weinyddiaeth Cyfiawnder a gyhoeddwyd yn ddiweddar yn awgrymu bod dedfrydau sy'n cynnwys triniaeth iechyd meddwl, lle nodwyd problemau iechyd meddwl, yn gysylltiedig â gostyngiadau sylweddol mewn aildroseddu o'u cymharu ag achosion tebyg heb driniaeth o'r fath.⁵⁷ Roedd y gyfradd aildroseddu tua 3.5 pwynt canran yn is dros gyfnod dilynol o un flwyddyn. Roedd data cysylltiedig Y Weinyddiaeth Cyfiawnder a Public Health England (PHE) yn dangos, yn achos y rheini a oedd wedi troseddu yn y ddwy flynedd cyn derbyn triniaeth am gamddefnyddio sylweddau yn y gymuned, fod gostyngiad o 33% yn nifer y troseddau a gyflawnwyd yn y ddwy flynedd ddilynol, a bod 44% heb droseddu yn y ddwy flynedd ar ôl hynny. Roedd y canlyniad hwn yn drawiadol iawn yn achos y rheini sy'n derbyn triniaeth am alcohol yn unig, gan fod 59% o'r rhain heb aildroseddu yn y ddwy flynedd ar ôl y driniaeth, tra oedd y ganran yn 31% ar gyfer y rheini a gafodd driniaeth am opiadau.⁵⁸
31. Mae'r Weinyddiaeth Cyfiawnder yn cydweithio â'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol (DHSC), NHS England a PHE ar brotocol i gynyddu'r defnydd o GTDG yn Lloegr. Mae hyn yn cael ei dreialu ar hyn o bryd ar bum safle, un ohonynt wedi dechrau fel safle i fenywod yn unig yn gweithredu o ganolfan menywod yn Northampton. Byddwn yn defnyddio'r canfyddiadau o'r gwerthusiad o'r rhaglen hon a gynhelir yn ddiweddarach yn 2018 i edrych ar y posibilrwydd o'i gyflwyno'n ehangach ar draws y wlad, ac wrth ystyried gwaith ychwanegol ar ddulliau gweithredu seiliedig ar rywedd ar gyfer dedfrydau cymunedol â gofynion triniaeth.

Astudiaeth Achos o Ofyniad Triniaeth Dedfryd Gymunedol

Mae Julie yn fenyw yn ei 20au hwyr sydd â hanes hir o gamddefnyddio sylweddau a phroblemau iechyd meddwl, ac o gael ei cham-drin. Cafodd ddedfryd yn ddiweddar yn un o ardaloedd y Protocol Gofynion Triniaeth Dedfryd Gymunedol sy'n cynnwys dau o'r tri Gofyniad Triniaeth – Gofyniad Triniaeth Iechyd Meddwl a Gofyniad Adsefydlu Cyffuriau.

Cymerwyd Julie i ofal cyn cyrraedd ei 10 mlwydd oed oherwydd esgeuluso gan ei rhieni, a cham-drin corfforol a rhywiol. Ar ôl gadael gofal, collodd Julie ei llety yn fuan iawn a daeth i gysylltiad â'r system cyfiawnder troseddol am fod â chyffuriau dosbarth A yn ei meddiant. Parhaodd Julie i droseddu, a chwblhaodd ddwy ddedfryd o garchar a nifer o orchymynion cymunedol. Ar ganol ei 20au, cafodd Julie blentyn a gymerwyd i ofal. Roedd Julie yn ei chael yn anodd iawn ymdopi â hyn, a chafodd ddiagnosis am anhwylder personoliaeth emosiynol ansefydlog, yn ogystal â phrofi cyfres o ddiagnosis hunan-niweidio ac ymgeisiau i'w lladd ei hun.

Yn fuan wedyn, cafodd ei harestio a'i chyhuddo o fod â swm bach o gyffuriau a reolir yn ei meddiant a hefyd o ddwyn o siop. Yn y llys, cafodd Julie asesiad a oedd yn dangos ei bod

yn gymwys ar gyfer Gofyniad Triniaeth Iechyd Meddwl, er ei bod yn wynebu risg fawr o gael dedfryd o garchar. Plediodd Julie yn euog ac argymhellwyd ei bod yn cwblhau Gofyniad Triniaeth Iechyd Meddwl a Gofyniad Adsefydlu Cyffuriau dros gyfnod o 6 mis. Hefyd gosodwyd Gofyniad Gweithgarwch Adsefydlu o 10 diwrnod i helpu Julie i gael gwasanaethau ariannol, cymorth tai a chymorth arall.

Roedd y gofynion yn y Gorchmynion Cymunedol wedi'u hamserlennu fel bod sylw'n cael ei roi i'w phroblemau cyffuriau yn gyntaf. Cwblhaodd y rhan hon o'r gorchymyn yn llwyddiannus ac roedd wedyn yn gallu derbyn y driniaeth iechyd meddwl. Cafodd Julie driniaeth wythnosol a oedd yn canolbwyntio ar ei phrofiadau o drawma, a sut roedd hyn wedi cyfrannu at ei hymddygiad troseddol. Cafodd gymorth i ddeall ei diagnosis cynharach ac i ddatblygu strategaethau ymdopi i ymyrryd yn yr emosiynau poenus a oedd yn peri iddi gamddefnyddio sylweddau a throseddu. Cwblhaodd Julie y gorchymyn yn llwyddiannus ac mae'n cael cymorth nawr gan y ganolfan menywod leol i gwblhau cwrs coleg.

Treialu Monitro Electronig, yn cynnwys technolegau newydd fel monitro lleoliad

32. Mae monitro electronig yn cynnig y posibilrwydd o ddarparu rhagor o gymorth i fenywod yn y gymuned. Mae tystiolaeth yn awgrymu bod monitro electronig yn fwyaf tebygol o wella canlyniadau wrth ei ddefnyddio ar y cyd ag ymyriadau sy'n cynnwys elfennau adsefydlu.⁵⁹ Er bod monitro electronig yn opsiwn sydd eisoes ar gael i'r llysoedd, ac yn cael ei ddefnyddio gan amlaf i fonitro cyrffiw, credwn y gallai gynnig mwy o gymorth, o'i ddefnyddio'n fwy creadigol, i adsefydlu troseddwr a, lle bo'n briodol, dargyfeirio menywod oddi wrth y ddalfa, yn cynnwys remand. Mae nifer o gynlluniau peilot yn edrych ar y defnydd o wahanol dechnolegau monitro electronig. Byddwn yn dysgu'r gwersi o ran pa mor briodol neu effeithiol y gall y rhain fod ar gyfer troseddwr benywaidd, yn cynnwys eu defnyddio yn lle'r ddalfa.
33. Yn benodol, byddai monitro lleoliad drwy ddefnyddio tagiau GPS yn gallu darparu ffyrdd newydd ac arloesol i reoli menywod yn y dyfodol. Mae'r Weinyddiaeth Cyfiawnder wedi treialu'r defnydd o GPS yn ddiweddar a bydd gwerthusiad, sydd i'w gyhoeddi yr haf hwn, yn darparu gwybodaeth ynghylch sut y gellir defnyddio technoleg monitro lleoliad i reoli diffynyddion a throseddwr yn fwy effeithiol yn y gymuned, cyn ac ar ôl yr euogfarn. Mae Swyddfa Heddlu a Throsedd Maer Llundain (MOPAC) yn arwain y ffordd ar y mesurau hyn, ac rydym yn cydweithio â'r swyddfa i roi prawf ar ddefnydd gorfodol o dagiau GPS ar gyfer troseddwr cyson drwy'r cynllun peilot Gripping the Offender (GtO). Dyma'r tro cyntaf i'r defnydd gorfodol ohonynt gael ei dreialu.
34. Rydym hefyd yn treialu'r defnydd o dagiau monitro alcohol i werthuso a yw cyfnod didor o sobrwydd yn cael effaith ar adsefydlu ac yn lleihau'r risg o aildroseddu. Gan fod yfed problemus yn ffactor risg sy'n cael ei gysylltu'n amlach ag aildroseddu ymysg menywod nag ymysg dynion, mae'n glir bod lle i ymyriadau sy'n delio â chamddefnyddio alcohol a all fod yn addas a llesol iawn i'r cohort hwn.⁶⁰ Bydd y canfyddiadau ar gael o'r cynlluniau peilot hyn o ddiwedd 2018. Byddwn yn parhau i gydweithio'n agos â'r Swyddfa Gartref a'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol (DHSC) wrth geisio a darparu opsiynau cyfiawnder troseddol addas i leihau yfed niweidiol ac aildroseddu yn rhan o strategaeth alcohol newydd y Llywodraeth.

Darparu mwy o gymorth i'r troseddwy'r hynny sy'n cael eu rheoli yn y gymuned

35. Mae darparu gwasanaethau digonol yn y gymuned a gwasanaeth prawf seiliedig ar rywedd yn hollbwysig i helpu menywod i aros yn y gymuned un ai yn lle'r ddalfa neu ar ôl eu rhyddhau.

Datblygu gwasanaeth prawf sy'n seiliedig i fwy o raddau ar rywedd

36. Byddwn yn parhau i ystyried gwelliannau y gallwn eu gwneud i'r gwasanaethau prawf a'r cymorth y maent yn ei ddarparu i droseddwy'r benywaidd, yn cynnwys meithrin cysylltiadau cryfach â chanolfannau menywod y trydydd sector. Rhan ganolog o hyn fydd gwaith i wella'r darparu ar wasanaethau Drwy'r Gât. Rydym yn cynnal trafodaethau â Chwmnïau Adsefydlu Cymunedol ynghylch sut y gallent wneud rhagor i helpu troseddwy'r i chwalu rhwystrau i ailsefydlu, yn cynnwys datblygu dull haenog o ddarparu gwasanaethau wedi'i seilio ar angen. Gan fod nifer mawr o droseddwy'r benywaidd yn y ddalfa sydd ag anghenion cymhleth, dylai'r dull hwn o weithredu fod o fudd neilltuol i droseddwy'r benywaidd.
37. Gan weithredu ar sail y canfyddiadau gan Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi fod y ddarpariaeth o wasanaethau i fenywod yn well mewn ardaloedd lle'r oedd arweinyddiaeth benodol ar droseddu gan fenywod, bydd y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol yn penodi uwch swyddog prawf penodedig i'r rôl hon ym mhob un o'i ranbarthau drwy gynllun peilot cychwynnol am un flwyddyn.⁶¹ Bydd y person hwn yn hyrwyddwr penodedig i fenywod, yn gyfrifol am fonitro a gwella perfformiad, hyrwyddo hyfforddiant, datrys problemau mewn gwasanaethau a gweithredu arferion seiliedig ar rywedd. Bydd yn ei swydd o fis Medi 2018. Mae'r holl Gwmnïau Adsefydlu Cymunedol wedi enwi arweinydd strategol ar gyfer menywod a byddwn yn eu hannog i ganolbwyntio ar faterion tebyg.
38. Byddwn yn parhau â'r gwaith sydd wedi'i ddechrau eisoes ar ddarparu canllawiau seiliedig ar rywedd i ymarferwyr prawf. Yn ychwanegol i'r ddogfen ganllaw *Working with Women Offenders* a gyhoeddwyd y llynedd sy'n disgrifio sut mae ymarferwyr prawf sy'n gweithio gyda menywod yn y system cyfiawnder troseddol yn gallu darparu gwasanaethau iddynt mewn ffordd sy'n amlgu ac yn adlewyrchu'r arfer gorau, rydym yn adolygu'r hyfforddiant cyffredinol ar weithrediadau sy'n ymwneud â rheoli troseddwy'r benywaidd. Byddwn hefyd yn cymryd camau i gydweithio â'n gweithlu mewn carchardai ar hyfforddiant seiliedig ar rywedd a thrawma, fel y gallwn greu dull o ymwneud â throseddwy'r benywaidd ar draws y system cyfiawnder troseddol sy'n cydnabod ffactorau sy'n eu gwneud yn agored i niwed ac yn ymdrin â'u hanghenion.
39. Er mwyn proffesiynoli'r gweithlu prawf ymhellach, rydym yn bwriadu creu cofrestr broffesiynol fel modd i wella'r asesu a rheoli ar gyfer troseddwy'r benywaidd.
40. Byddwn yn darparu un pecyn hyfforddi, i gymryd lle deunydd presennol a deunydd sydd wedi dyddio, i staff carchardai a staff y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol. Rydym am sicrhau bod yr holl staff yn y system prawf yn derbyn yr hyfforddiant diweddaraf, felly byddwn yn cynnig yr hyfforddiant hwn i'r Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol hefyd. Bydd yr hyfforddiant yn ymwneud ag asesu a rheoli menywod sydd â gwahanol fathau o anghenion cymhleth. Bydd hyn yn paratoi staff i weithio'n effeithiol mewn ffordd wybodus gyda menywod sy'n profi trawma fel y byddant yn

cydymffurfio i'r graddau mwyaf posibl â'u Gorchmynion Cymunedol a thrwyddedau ac yn lleihau'r risg o aildroseddu.

41. Rydym am helpu troseddwyr i gwrdd â'r gofynion sydd wedi'u pennu iddynt er mwyn lleihau'r nifer sy'n cael eu galw'n ôl i'r ddalfa yn ddiangen. Er mwyn gwneud hyn, byddwn yn rhoi gwell gwybodaeth i'n staff prawf fel y gallant wneud penderfyniadau mwy gwybodus am faterion cyffredin sy'n arwain at alw troseddwyr yn ôl. Er enghraifft, mae anawsterau o ran gofal plant yn aml yn rhwystr i gydymffurfio â gofynion; byddwn yn diweddarau cyfarwyddiadau i staff prawf ar Ofal Plant Troseddwyr fel y gallant helpu troseddwyr benywaidd i fodloni'r gofynion sydd wedi'u pennu iddynt lle'r oedd anawsterau o ran gofal plant yn rhwystr cyn hynny.
42. Rydym yn ymwybodol bod heriau unigryw yn cael eu profi gan droseddwyr benywaidd Duon, Asiaidd a lleiafrifol ethnig a throseddwyr benywaidd sy'n wladolion tramor yn y system cyfiawnder troseddol, yn y ddalfa ac yn y gymuned. Dyma pam y byddwn yn edrych yn fanwl ar y camau pellach y gellir eu cymryd i adnabod a rhoi sylw i anghenion penodol y grwpiau hyn. Byddwn yn cydweithio'n agos â sefydliadau yn y sector gwirfoddol a sectorau eraill sy'n gweithio gyda throseddwyr benywaidd Duon, Asiaidd a lleiafrifol ethnig a rhai sy'n wladolion tramor i feithrin eu gallu i rannu'r arferion gorau a ffurfio rhwydweithiau drwy ddigwyddiadau a hwylusir a dulliau mwy strwythuredig o roi gwybod am ddatblygiadau polisi. Mae Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi eisoes wedi ymrwymo i weithio gyda sefydliadau sy'n gweithio ym maes Pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifol Ethnig ar weithredu argymhelliad 31 yn Adolygiad Lammy i ddileu rhwystrau rhag is-gontractio rhwng Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol a chymunedau Pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifol Ethnig er mwyn helpu i rannu arferion da. Byddwn yn darparu rhagor o hyfforddiant seiliedig ar ddiwylliant i staff ar reoli ac adsefydlu troseddwyr. Bydd hyn yn hybu ymwybyddiaeth staff o'r effeithiau o ddiwylliant, ffydd a pherthnasoedd teuluol cynhaliol i fenywod yn y system cyfiawnder troseddol.

Pennod Tri: Dalfeydd Gwell

Crynodeb o'r Bennod

43. Er ein bod am leihau'r boblogaeth o fenywod mewn carchardai, rydym yn cydnabod na fydd dargyfeirio menywod a allai gwblhau dedfrydau byr o garchar fel arall i'r gymuned yn mynd law yn llaw o reidrwydd â gostyngiadau sylweddol ym mhoblogaeth y menywod mewn carchardai yn y tymor byr. Er bod cyfran sylweddol o'r menywod sy'n mynd i'r carchar yn cwblhau dedfrydau tymor byr, menywod ar ddedfryd hir fydd mwyafrif y boblogaeth mewn carchardai ar adeg benodol.⁶² Yn ogystal â hyn, bydd rhai menywod o hyd y bydd yn rhaid eu cadw yn y ddalfa am gyfnod penodol am resymau sy'n ymwneud ag amddiffyn y cyhoedd neu oherwydd natur ddifrifol eu troseddau. Er mai ein nod yw lleihau nifer y lleoedd i fenywod mewn carchardai, rydym yn cydnabod mai gwaith hirdymor fydd hwn.
44. Bydd bron pob un o'r menywod a gafodd ddedfryd o garchar yn cael ei rhyddhau i'r gymuned ryw ddiwrnod. Rhaid rhoi blaenoriaeth i ddiwygio ac adsefydlu'r troseddwy'r hyn os ydym i leihau troseddu, lleihau aildroseddu ac amddiffyn dioddefwyr. Er hynny, mae canlyniadau i droseddwy'r benywaidd yn y ddalfa yn wael a gallant fod yn waeth nag i ddynion. Mae menywod yn profi cyfraddau uwch o hunan-niweidio ac mae cyfran fwy o fenywod yn y carchar wedi profi cam-drin domestig ac yn profi problemau iechyd meddwl nag o ddynion. Ar ôl eu rhyddhau, mae cyfran lai ohonynt yn cael llety sefydlog i'w helpu i bontio'n ôl i'r gymuned.^{63, 64} Mae'r effaith ar blant a theuluoedd o garcharu neu droseddoli rhieni hefyd yn sylweddol. Mae bod â rhiant a gafodd euogfarn yn ffactor risg ar gyfer troseddu – ac mae rhai astudiaethau wedi dod i'r casgliad bod y risg hon yn ymddangos yn fwy pan gaiff y rhiant ei garcharu.⁶⁵ Gan fod cyfran y menywod y mae eu plant dibynnol yn byw gyda nhw cyn eu carcharu yn fwy nag ymhlith dynion, gall carcharu menywod gael effaith anghymesur ar aildroseddu sy'n pontio'r cenedlaethau.⁶⁶ Mae rhywfaint o dystiolaeth sy'n dangos, er bod ymyriadau niwtral o ran rhywedd wedi bod yn effeithiol weithiau, ei bod yn debygol y bydd dulliau seiliedig ar rywedd yn fwy llwyddiannus.⁶⁷ Er mwyn sicrhau canlyniadau cyfartal i fenywod, dylem fabwysiadu dull o weithredu seiliedig ar rywedd ac amgylchedd wedi'i addasu sy'n bodloni eu hanghenion rhywedd-benodol.
45. Byddwn yn creu amgylchedd carcharol sy'n rhoi'r gallu i adsefydlu ac yn sicrhau gwell canlyniadau, ac sy'n helpu menywod ar ôl eu rhyddhau i dorri'r cylch aildroseddu ac ailintegreiddio'n llwyddiannus â chymdeithas.

Byddwn yn sicrhau dalfeydd gwell drwy:

Addasu'r amgylchedd carcharol i gwrdd ag anghenion troseddwy'r benywaidd drwy:

- Ganolbwyntio ar well cysylltiadau â phlant a theuluoedd
- Gwella Diogelwch
- Dod yn Wybodus am Drawma
- Gwella Iechyd a Llesiant

Cynnig cymorth cynhwysfawr i adsefydlu drwy:

- Rymuso Gweithlu'r Carchardai
- Datblygu Addysg a Chyflogaeth

Yr Her:

46. Mae ein tystiolaeth yn dangos nad yw menywod yn ymateb yn dda i'r amgylchedd carcharol. Rydym yn gwybod bod menywod yn ddwywaith yn fwy tebygol o nodi bod arnynt angen cymorth i ddelio â phroblemau iechyd meddwl (49% o'i gymharu â 18% o garcharorion gwrywaidd). Maent yn ddwywaith yn fwy tebygol na charcharorion gwrywaidd o ddioddef gorbryder ac iselder (49% o'i gymharu â 23%) ac yn fwy tebygol o nodi symptomau sy'n arwyddion o seicosis (25% o'i gymharu â 15%).⁶⁸
47. Pwrpas carchardai yw amddiffyn y cyhoedd a chynorthwyo troseddwr i ddiwygio fel na fyddant yn aildroseddu. Dylai menywod – fel yr holl garcharorion eraill – ddisgwyl bod yn ddiogel drwy gydol eu hamser yn y ddalfa. Mae hyn yn arbennig o wir am y rheini sy'n wynebu'r risg o hunanladdiad a hunan-niweidio, er bod nifer yr achosion o hynny ymysg troseddwr benywaidd yn parhau'n rhy uchel. Er bod cyfradd y marwolaethau drwy hunanladdiad mewn carchardai menywod wedi gostwng i un yn y 12 mis hyd fis Mawrth 2018, o 10 yn y 12 mis blaenorol, mae hynny'n un yn ormod.⁶⁹ Cyfradd yr achosion o hunan-niweidio ymysg menywod oedd 2,093 ym mhob 1,000 yn 2017, bron 5 gwaith yn uwch na'r gyfradd ar gyfer dynion, sef 445 ym mhob 1,000.⁷⁰
48. Mae nifer o astudiaethau wedi dangos mai ffactor risg cryf ar gyfer troseddu yw bod â rhiant sydd wedi cael euogfarn am drosedd.⁷¹ Mae rhai astudiaethau wedi cael bod y ffactor risg hwn yn ymddangos yn gryfach os yw'r rhiant wedi'i garcharu yn hytrach na chael euogfarn yn unig. Mae ymchwil hefyd yn awgrymu y gall plant fod yn fwy agored i effaith carcharu rhiant os yw rhieni'n cael eu carcharu'n amlach neu am gyfnodau hirach, ac os yw rhieni'n cael eu cadw o dan amodau mwy cosbol.
49. Roedd Adolygiad yr Arglwydd Farmer yn 2017 wedi canfod, er gwaethaf y dystiolaeth hon, fod "unacceptable inconsistency of respect for the role families can play in boosting rehabilitation and assisting in resettlement across the prison estate".⁷² Er bod Adolygiad yr Arglwydd Farmer yn canolbwyntio ar rôl y teulu wrth atal aildroseddu a throsteddu sy'n pontio'r cenedlaethau ymysg carcharorion gwrywaidd, mae ei ganfyddiadau'n bwysicach mewn perthynas â throsteddwr benywaidd a'u teuluoedd. Mae canfyddiadau o arolygon Y Weinyddiaeth Cyfiawnder o ailsefydlu ar ôl bod yn y ddalfa wedi dangos bod mwy o lawer o garcharorion benywaidd nag o garcharorion gwrywaidd wedi nodi eu bod yn byw gyda'u plant cyn mynd i'r ddalfa; tua 60% o fenywod o'i gymharu â thua 45% o ddynion yn y carchar sydd â phlant.⁷³
50. Roedd mwy na hanner y menywod (56.1%) a ryddhawyd o'r ddalfa rhwng Ebrill a Mehefin 2016 wedi aildroseddu o fewn blwyddyn.⁷⁴ Un ffactor a all gyfrannu at hyn yw'r canlyniadau gwael ar ôl eu rhyddhau i droseddwr benywaidd mewn perthynas â thai a chyflogaeth. Rhwng Ebrill a Rhagfyr 2017, roedd 39% o fenywod a ddyrannwyd i Gwmniau Adsefydlu Cymunedol ac i'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol wedi'u rhyddhau i lety ansefydlog, ac roedd 18% wedi'u rhyddhau'n ddirgaref.⁷⁵ Roedd ychydig llai na dwy ran o dair o'r menywod a ryddhawyd o'r carchar yn 2010/11 yn hawlio budd-daliadau i'r di-waith un mis ar ôl eu rhyddhau.⁷⁶

Addasu'r amgylchedd carcharol i gwrdd ag anghenion troseddwy'r benywaidd

51. Mae'r agenda ehangach ar ddiwygio carchardai wedi creu rhaglen waith gynhwysfawr i wella amodau yn y ddalfa ar draws yr ystad carchardai a bydd nifer o elfennau ynddi'n dod â budd i droseddwy'r benywaidd. Er hynny, mae angen ymyriadau hefyd ar gyfer y cohort hwn sy'n ymateb i'w hanghenion penodol, er mwyn sicrhau'r un canlyniadau iddyn nhw ag i'r rheini mewn carchardai dynion.
52. Mae'r angen am ddulliau teilwredig o weithredu'n fwy amlwg byth ar gyfer y rheini sydd â nodweddion gwarchoddedig, fel menywod Duon, Asiaidd a lleiafrifol ethnig, neu fenywod sydd wedi profi trawma.⁷⁷ Oherwydd y nifer uwch na'r cyfartaledd o fenywod Duon, Asiaidd a lleiafrifol ethnig yn y system cyfiawnder troseddol a chyfran y troseddwy'r benywaidd sydd wedi profi cam-drin domestig, mae'n bwysig bod ein gweithlu, amgylchedd ac ymyriadau'n dod yn fwy effro i'w profiadau ac yn ymatebol i'w hanghenion fel unigolion.

Canolbwyntio ar well cysylltiadau â phlant a theuluoedd

53. Y flwyddyn ddiwethaf, lansiodd Y Weinyddiaeth Cyfiawnder yr adroddiad o Adolygiad yr Arglwydd Farmer yn 2017 ar y pwysigrwydd o gryfhau cysylltiadau teuluol carcharorion gwrywaidd er mwyn atal aildroseddu a lleihau troseddu sy'n pontio'r cenedlaethau. Rydym wedi gofyn i'r Arglwydd Farmer ymgymryd â gwaith ychwanegol i adolygu ei argymhellion o safbwynt anghenion troseddwy'r benywaidd, gan fod nifer mawr o fenywod yn y carchar yn brif ofalwyr i'w plant. Roedd yr Adolygiad gwreiddiol yn ymwneud yn gyfan gwbl â dynion sy'n cwblhau dedfryd o garchar. Fodd bynnag, bydd y gwaith newydd hwn yn edrych yn fwy cyffredinol ar ffyrdd i gryfhau cysylltiadau teuluol, yn enwedig â phlant, ar gyfer menywod sy'n cwblhau dedfryd yn y gymuned ac ar ôl eu rhyddhau, yn ogystal â menywod sydd yn y ddalfa. Bydd yr Arglwydd Farmer yn cyhoeddi'r canfyddiadau o'r gwaith hwn erbyn diwedd 2018.
54. Roedd Adolygiad yr Arglwydd Farmer yn 2017 yn argymhell 'Virtual visits... should be available for the small percentage of families or individual family members who cannot visit frequently or at all'.⁷⁸ Rydym yn edrych ar hyn o bryd ar Systemau Fideo Seiliedig ar y Rhynggrwyd (llwyfannau tebyg i Skype) ar draws ystadau dynion a menywod, i ganiatáu cyswllt teuluol na fyddai unigolion yn gallu ei gael fel arall.
55. O fis Ionawr 2018, cyflwynwyd system archebu ymweliadau ganolog ar draws yr Ystad Menywod gyda'r bwriad o ddarparu gwasanaeth gwell a mwy cyson i deuluoedd a menywod. Rydym hefyd yn gwella'r gallu i gyfathrebu ymysg teuluoedd, ac yn hwyluso diwrnodau teulu yn ogystal â chyrsiau a rhaglenni i hybu ymgysylltu teuluol a rianta.
56. Wrth ymateb i Adolygiad yr Arglwydd Farmer yn 2017, rydym wedi cyflwyno gofyniad bod yr holl Lywodraethwyr Carchar o Ebrill 2018 yn llunio strategaethau lleol a fydd yn dangos sut y byddant yn helpu carcharorion i wella lefel yr ymgysylltu â'u ffrindiau a theuluoedd. Byddwn yn cyhoeddi Fframwaith Polisi Teulu newydd yn hydref 2018, i gynorthwyo Llywodraethwyr i gwrdd â gofynion newydd a safoni ansawdd y gwasanaethau a ddarperir yn yr holl garchardai, gan helpu i gryfhau perthnasoedd rhwng carcharorion, eu teulu a'u ffrindiau. Mae Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi

hefyd wedi penodi arolygydd arweiniol ar gyfer Plant a Theuluoedd ac wedi cynnwys hyn yn ei rhestr o ddisgwyliadau ar gyfer carchardai.

57. Ar gyfer troseddwyr benywaidd sy'n famau i blant ifanc iawn ac sydd ag angen bod yn y ddalfa, mae'n aml er lles y plentyn iddo fod gyda'i fam yn ystod y cyfnod pwysig o sefydlu cwlwm agosrwydd. Mae Unedau Mamau a Babanod yn galluogi menywod i aros gyda'u babanod a phlant ifanc hyd 18 mis oed ac yn darparu cymorth rhianta. Budd pennaf y plentyn a'i ddiogelwch yn yr uned yw'r brif ystyriaeth. Er mwyn sicrhau bod y ddarpariaeth bresennol yn ymateb i anghenion ac yn cynnig y cymorth gorau i fenywod a'u plant, byddwn yn adolygu gweithrediadau'r Unedau Mamau a Babanod a'n dull o reoli achosion cymhleth.

Gwella Diogelwch

1. Mae pob marwolaeth yn y ddalfa yn drychineb, a gwnawn bopeth yn ein gallu i'w hatal a chadw carcharorion yn ddiogel. Yn 2016 cafwyd nifer uchel iawn o farwolaethau drwy hunanladdiad, ac rydym wedi dechrau adolygiad i ddeall pam y digwyddodd hyn a sut y gallem ei atal yn y dyfodol. Ymgwymerwyd ag ymarfer cyflym gan y Panel Cyngori Annibynnol ar Farwolaethau yn y Ddalfa i gasglu gwybodaeth am y ffyrdd gorau i atal hunanladdiad a hunan-niweidio a chadw menywod yn ddiogel yn y ddalfa. Mae'r adolygiad hwn wedi cyflwyno tystiolaeth ac argymhellion i Weinidogion sy'n cael eu gweithredu gennym ochr yn ochr â'r strategaeth hon.⁷⁹ Roedd yr Ombwdsmon Carchardai a Phrawf hefyd wedi cyhoeddi bwletin o argymhellion a oedd wedi'u seilio ar adolygiad o nifer o'i ymchwiliadau rhwng 2013 a 2016, y rhan fwyaf ohonynt yn adleisio'r rheini gan y Panel Cyngori Annibynnol. Rydym yn canolbwyntio ar ddarparu gwasanaethau iechyd a chamddefnyddio cyffuriau ac ar y pwysigrwydd o gyfnewid gwybodaeth am risg a chynllunio gofal. Rydym yn parhau i roi sylw i'w hargymhellion, mewn partneriaeth ag Adrannau ar draws Whitehall a chynrychiolwyr y sectorau academaidd a gwirfoddol.
2. Ochr yn ochr â'r argymhellion o adolygiad yr Ombwdsmon Carchardai a Phrawf, rydym yn rhoi nifer o fentrau eraill ar waith yn yr ystad carchardai i amddiffyn a chynorthwyo troseddwyr yn well. Mae'r Cynllun Her, Cymorth ac Ymyrraeth wedi'i roi ar waith yn yr holl garchardai: offeryn rheoli newydd yw hwn sy'n helpu staff i bennu egwyddorion clir ar gyfer rheoli risg a lleihau risg. Mae'r cynllun yn tynnu sylw at y pwysigrwydd o hybu a datblygu newid mewn unigolion ac yn sicrhau bod cynlluniau cymorth unigol ar waith i gwrdd ag amgylchiadau penodol y troseddwr. Rydym yn gweithio i sicrhau bod y Cynllun Her, Cymorth ac Ymyrraeth yn cael ei weithredu mewn ffordd ymatebol ar gyfer menywod yn y ddalfa drwy gynnal arolwg o'r llenyddiaeth ynghylch sut y gall ymyriadau o'r fath fod yn fwyaf effeithiol i fenywod.
3. Gan gydnabod bod anghenion penodol o ran diogelwch yn yr Ystad Menywod, mae Swyddog Arweiniol Diogelwch Grŵp penodedig wedi'i benodi. Bydd yn helpu Llywodraethwyr i ymdrin â'r heriau neilltuo i ddiogelwch yn eu sefydliadau, gan bennu ymarfer effeithiol pwrpasol ar gyfer menywod a'i rannu ar draws yr Ystad Menywod.
4. Rydym yn gwella hyfforddiant i staff carchardai fel y bydd staff yn cael gwell cymorth i reoli menywod agored i niwed yn y ddalfa. Rydym wedi cyflwyno hyfforddiant ynghylch menywod yn benodol mewn cysylltiad â'r system rheoli achosion Asesu, Gofal yn y Ddalfa a Gwaith Tîm (ACCT) i sicrhau bod staff yn cael gwell dealltwriaeth o ymddygiad ac anghenion menywod agored i niwed. Rydym wedi cyflwyno

hyfforddiant diwygiedig a gwell o'r enw *Cyflwyniad i hyfforddiant ar atal hunanladdiad a hunan-niweidio* ar gyfer holl staff y carchardai, a oedd wedi'i gwblhau gan fwy na 7,000 o staff erbyn Mawrth 2018.

5. Wrth wella diogelwch yn y ddalfa, rhaid rhoi sylw hefyd i anghenion cymhleth y menywod sy'n wynebu'r risg fwyaf. Mae'r System Goruchwylio Achosion Ganolog wedi'i rhoi ar waith ers mis Medi 2015 er mwyn gallu goruchwylio menywod o'r fath ar sail anghenion, a gwneud carchardai menywod yn fwy diogel hefyd i garcharorion eraill a staff. Mae menywod a ddynodwyd yn rhai â 'Statws Cyfyngedig' drwy asesu yn cael eu hatgyfeirio'n awtomatig i'r System ac mae'r rheini sy'n dangos anghenion cymhleth yn cael eu hatgyfeirio gan sefydliadau unigol. Wedyn caiff pob achos ei asesu gan y Bwrdd Atgyfeirio ac Adolygu Achosion sy'n cynnwys staff sy'n gyfrifol am faterion gweithredol, gwaith achosion iechyd meddwl, seicoleg a diogelwch uchel. Mae'r Bwrdd yn cydweithio i ddarparu cymorth i garchardai sy'n rheoli menywod ag anghenion cymhleth a gall gynnig dewisiadau yn lle trefniadau presennol ac awgrymu llwybrau gwahanol i symud ymlaen, os yw hynny'n ymddangos yn briodol. Nod y cymorth ychwanegol yw sicrhau bod sefydliadau'n gwneud popeth a ellir i sefydlogi'r unigolyn a datblygu cynllun priodol ac amserol ar gyfer ailintegreiddio.

Astudiaeth achos creu amgylchedd gwybodus am drawma i ymdrin â hunan-niweidio

Mae'n bwysig bod carchardai a staff carchardai yn deall yr effaith o hanes o drawma yn eu poblogaethau. Cafwyd un achos o'r fath lle mae hyn wedi gweithio'n dda yng Ngharchar Styal, lle mae menyw, Sally, yn cwblhau dedfryd o bedair blynedd neu ragor ar hyn o bryd. Roedd gan Sally hanes o gael ei cham-drin yn rhywiol yn ei phlentyndod, ond nid oedd wedi datgelu hyn nes iddi ddechrau gweithio gyda staff yng Ngharchar Styal. Tra oedd hi yn y ddalfa, roedd Sally yn ofidus iawn ac yn dangos lefelau uchel iawn o hunan-niweidio. Roedd staff yng Ngharchar Styal wedi ymwneud â Sally er mwyn rhoi mwy o reolaeth iddi ar ei llesiant ei hun. Cafodd Sally gymorth i goginio pryd o fwyd i'w theulu pan ddaethant i'w gweld yn y carchar. Roedd hi hefyd yn profi lefelau uchel o orbryder pan oedd yn cael ei chloi yn ei chell yn yr adain ar amser cinio, felly cafodd Sally gymorth i dreulio amser cinio yn y bloc o'i dewis, a chafodd ei symud yno yn y pen draw. Yn achos Sally, mae nifer yr achosion o hunan-niweidio wedi gostwng o bron 70 i lai na 10 mewn chwe mis.

Dod yn Wybodus am Drawma

6. Rydym wedi ymrwmo i ddatblygu dull o weithredu gwybodus am drawma ar gyfer gweithio gyda menywod, gan y bydd cyfran fawr ohonynt wedi profi trawma i ryw raddau yn ystod eu bywyd ac oherwydd y cysylltiad rhyngddo ac ymddygiad troseddol. Rydym yn ddiolchgar am haelioni'r Fonesig Edwina Grosvenor a'i helusen, One Small Thing, sy'n hyrwyddo ymarfer gwybodus am drawma gyda menywod sydd wedi'u troseddoli. Cyflawnwyd y gwaith hwn mewn partneriaeth â Dr Stephanie Covington, clinigydd ac awdur o America, sy'n arbenigo mewn datblygu a gweithredu gwasanaethau ymatebol i rywedd a gwybodus am drawma.
7. Mae One Small Thing yn darparu hyfforddiant *Dod yn Wybodus am Drawma*, sy'n rhoi gwell dealltwriaeth o'r mathau o ymddygiad sydd yn aml yn deillio o hanes o drawma, gan ganiatáu datblygu sgiliau newydd gan staff ar gyfer ymateb i'r mathau hyn o ymddygiad. Nod yr hyfforddiant yw lleihau gwrthdaro a gwneud y gweithle yn fwy diogel i staff.

8. Mae'r elusen wedi rhedeg digwyddiadau di-dâl ar ymarfer gwybodus am drawma ers mis Medi 2015 i'r rheini sy'n gweithio mewn carchardai ac i ddarparwyr gwasanaethau i fenywod yn y gymuned. Roedd hyn yn cynnwys cyfres o weithdai hyfforddi, rhai ohonynt o dan arweiniad Dr Stephanie Covington, a oedd wedi'u darparu i staff ar draws yr ystad carchardai menywod, yn ogystal â digwyddiad hyfforddi'r hyfforddwyr ym Mehefin 2017 a oedd yn cynnwys cydweithwyr yn y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol. Mae hyfforddiant wedi'i ddarparu bellach i'r holl uwch dimau rheoli yn yr ystad carchardai menywod, ac mae carchardai'n parhau i sefydlu'r dull hwn o weithredu ac i hyfforddi staff o bob gradd.
9. *Gwella Trawma* yw'r cam pwysig nesaf, lle mae carcharorion benywaidd yn cael eu hyfforddi i gynnal hyfforddiant dan arweiniad cymheiriad eu hunain. Mae'r cwrs *Gwella Trawma* yn cynnwys chwe sesiwn sy'n helpu menywod i ymdopi â thrawma. Mae'r hyfforddiant hwn dan arweiniad cymheiriad wedi'i sefydlu yn y rhan fwyaf o'r Ystad Menywod. Y sefydliad arweiniol yw Carchar Send ac mae sefydliadau eraill yn ei ddilyn.

Astudiaeth achos Dod yn Wybodus am Drawma, Carchar Send

Mae Carchar Send wedi gweithio ochr yn ochr â'r elusen One Small Thing i hyfforddi'r holl staff gweithredol ac anweithredol i Ddod yn Wybodus am Drawma. Mae Carchar Send hefyd yn cynnig yr ymyriad Gwella Trawma. Cyn dechrau'r ymyriad Gwella Trawma yn 2017, nid oedd ymyriad seiliedig ar rywedd unigol ar gael i helpu menywod i reoli effaith trawma yn y gorffennol. Oherwydd hyn, byddai menywod yn aml yn ceisio rheoli eu trawma drwy actio trais yn erbyn nhw eu hunain neu yn erbyn eraill er mwyn eu datgysylltu eu hunain oddi wrth eu trawma neu ei 'reoli'. Carchar Send oedd y lleoliad cyntaf yn yr Ystad Menywod i gynnal y rhaglen lwyddiannus hon, ac mae gweddill yr Ystad Menywod wedi'i ddilyn erbyn hyn.

Ers rhedeg yr ymyriad yng Ngharchar Send, mae'r carchar wedi gallu helpu 64 o fenywod ac mae ganddo restr aros o 43 fenywod sy'n cynyddu o hyd. Cyflawnwyd hyn drwy roi gwybod am y cwrs a'i hyrwyddo gan y menywod sydd wedi'i gwblhau a'i gael yn fuddiol.

Sut mae Dod yn Wybodus am Drawma wedi helpu un o'r carcharorion yng Ngharchar Send:

Mae Miss X yn droseddwr benywaidd sy'n wladolyn tramor ac sydd ar hyn o bryd yn cwblhau dedfryd o garchar o fwy na phedair blynedd. Nid oedd wedi cael euogfarn cyn hynny tra oedd yn y DU a rhoddodd wybod i Garchar Send nad wedi cael euogfarn mewn gwlad dramor.

Ar adeg yr ymyriad, rhoddodd Miss X wybod i staff nad oedd yn gwybod pam roedd wedi'i lleoli ar yr ymyriad ac nad oedd yn barod i gymryd rhan am ei bod yn teimlo nad oedd wedi profi trawma yn ystod ei bywyd. Roedd staff wedi siarad yn fyr â hi am ei thaith drwy'r system gyfreithiol i'r ddalfa ac wedi dweud bod hynny ar ei ben ei hun yn brofiad trawmatig. Wedi hynny, cytunodd Miss X i ddod i'r sesiynau ond dywedodd na fyddai'n cymryd rhan.

Erbyn diwedd yr ail sesiwn, roedd Miss X yn emosiynol iawn a siaradodd yn agored am y cam-drin domestig yr oedd wedi'i brofi a oedd wedi arwain at ei throeddu. Mae goruchwyliwr troseddwy'r Miss X wedi dweud ei bod yn credu bod yr ymyriad Gwella Trawma wedi bod o gymorth i'r droseddwr ac wedi lleihau'r risg y mae'n ei hwynebu o ran

perthnasoedd yn y dyfodol. Mae staff yn credu ei fod wedi cymell Miss X i gydnabod y trawma y mae wedi'i brofi yn ystod ei bywyd a'i galluogi i ddod o hyd i ffyrdd i ymdopi â hyn.

Bellach mae Miss X wedi'i hadleoli i'r uned ailsefydlu yng Ngharchar Send ac wedi gofyn am gymorth gan staff mewn perthynas â'i hallgludo. Cyn ei throsglwyddo i Garchar Send, roedd Miss X wedi cael ei monitro o dan y system Asesu, Gofal yn y Ddalfa a Gwaith Tîm (ACCT) i'w helpu ar adegau anodd. Ers cwblhau'r ymyriad Gwella Trawma, nid yw Miss X wedi amlygu unrhyw ymddygiad a fyddai'n peri i staff gredu bod risg iddi ei niweidio ei hun neu eraill.

Gwella Iechyd a Llesiant

10. Mae argymhellion o adolygiadau o farwolaethau yn y ddalfa drwy hunanladdiad yn dangos bod anghenion am driniaeth iechyd meddwl, cyffuriau ac alcohol sydd heb eu diwallu yn y carchar sy'n peri bod menywod yn y ddalfa yn fwy agored i niwed. Rydym yn gweithio gyda NHS England a Public Health England i bennu safonau clir i'w bodloni gan wasanaethau iechyd carchardai. Rydym yn cydgysylltu gwasanaethau er mwyn mynd i'r afael â chydafiachedd sy'n cynnwys problemau iechyd meddwl a chamddefnyddio sylweddau. Rydym hefyd yn cynnal adolygiad o'r ymyriadau sydd ar gael ar draws yr Ystad Menywod, i sicrhau ein bod yn darparu'r opsiynau triniaeth mwyaf effeithiol ar gyfer y cohort hwn, ac yn ymateb i'r holl fathau o anghenion sydd ganddynt.
11. Mae nifer mawr o fenywod yn cael bod y broses o gael eu cludo o'r carchar i'r llys ar gyfer gwrandawriad byr yn achosi straen mawr. Rydym yn cydweithio â Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi, Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Mawrhydi, a'r Farnwriaeth i hybu defnydd mwy aml o gysylltiadau fideo dibynadwy ar draws yr Ystad Menywod. Bydd hyn yn lleihau'r angen i ddiffynyddion deithio i wrandawriadau byr ac yn cynnig mwy o hyblygrwydd ac effeithlonrwydd.
12. Mae'r llwybr anhwylderau personoliaeth i droseddwyr benywaidd yn rhwydwaith integredig o wasanaethau i droseddwyr benywaidd a reolir gan y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol (yn y ddalfa ac yn y gymuned) sydd wedi cael diagnosis am 'anhwylder personoliaeth'. Amcan y llwybr yw gwella'r amddiffyniad i'r cyhoedd a llesiant meddyliol, ac ymdrin ag ymddygiad troseddol menywod. Mae'r ymyriadau wedi'u seilio ar wybodaeth am seicoleg, rhywedd a thrawma. Rydym wedi cydweithio ag NHS England i hyrwyddo'r gwaith o ddarparu'r llwybr hwn, ac mae gwasanaethau wedi cynyddu deirgwaith er 2013. Byddwn yn gweithio gyda'n partneriaid ym maes iechyd i atgynhyrchu'r modelau gofal cyfannol hyn yn yr holl wasanaethau gofal iechyd mewn carchardai yn yr Ystad Menywod.

Options - Astudiaeth Achos o Wasanaeth Ymyriadau Anhwylder Personoliaeth, Carchar Downview

Mae'r gwasanaeth 'Options' yn rhan o'r Llwybr Anhwylderau Troseddwyr ac mae ar waith yng Ngharchar Downview ers ei ailagor yn 2016. Cyn hynny roedd y gwasanaeth ar waith yng Ngharchar Holloway am fwy na degawd.

Gwasanaeth triniaeth yw Options sy'n cynnig Therapi Ymddygiad Dialectig i droseddwyr benywaidd sy'n bodloni'r meini prawf ar gyfer Anhwylder Personoliaeth Ffiniol a/neu Wrthgymdeithasol. Mae Options hefyd yn darparu hyfforddiant i staff, yn rhan o'r fenter

Datblygu'r Gweithlu. Hyd yn hyn, mae Options wedi hyfforddi mwy na 150 o aelodau staff yng Ngharchar Downview, yn cynnwys swyddogion carchar a phrawf.

Mae Options hefyd yn cynnig sesiynau llunio pythefnosol. Ceir cyfarfodydd cydweithredol seiliedig ar seicoleg rhwng staff amlddisgyblaeth lle mae anghenion cymhleth menywod yn cael eu hystyried ac argymhellion ar gyfer rheoli a thriniaeth yn cael eu rhannu a'u hamlinellu.

Mae'r gwasanaeth hefyd yn cynnig rôl ymgynghori i'r holl staff sy'n gweithio yng Ngharchar Downview sydd ag angen cyngor a chymorth ar gyfer rheoli a deall menywod.

Geirda gan fenywod yng Ngharchar Downview am y Rhaglen Options:

"Rwyf wedi cwblhau'r rhaglen Options ar Therapi Ymddygiad Dialectig Uwch yn gynharach eleni. Mae wedi cael effaith fawr ar fy mhatrymau meddwl a'm hymwybyddiaeth ofalgar ac mae'n rhan ganolog o'm bywyd pob dydd nawr. Rwyf wedi cael fy ngharcharu er mwyn amddiffyn y cyhoedd ac wedi mynd heibio i'r tariff ac, o ganlyniad uniongyrchol i'r offer y mae Therapi Ymddygiad Dialectig ac Options wedi'u rhoi i mi, rwyf yn credu, byddaf yn cael gwrandawriad parôl ar gyfer fy rhyddhau cyn hir."

"Rwyf wedi mynd ymlaen i fod yn Fentor Cymheiriaid Options. Agwedd bwysig ar hyn yw bod tîm ohonom yn ysgrifennu llawlyfr Therapi Ymddygiad Dialectig dan arweiniad troseddwy ar gyfer troseddwy sy'n dilyn y rhaglen fel y byddant yn gallu gweld ei bod yn berthnasol. Fel mentor cymheiriaid, rwyf hefyd yn helpu i hyfforddi swyddogion carchar ar y rhaglen Options, drwy ddweud wrthyn nhw sut mae wedi fy helpu a sut mae'n eu helpu nhw i gael gwell dealltwriaeth o safbwynt y carcharor."

Cynnig cymorth cynhwysfawr i adsefydlu

58. Er mwyn adsefydlu troseddwyr benywaidd yn llwyddiannus a lleihau aildroseddu, mae'n bwysig bod ein gweithlu carchardai yn deall y ffactorau sy'n sbarduno ymddygiad troseddol menywod, a bod ymyriadau seiliedig ar rywedd yn fwy tebygol o fod yn effeithiol.⁸⁰
59. Rhaid i ni hefyd roi'r cymorth gorau posibl i droseddwyr benywaidd tra byddant yn y carchar fel y gallant bontio'n ôl yn llwyddiannus i'r gymuned ar ôl eu rhyddhau. Fel y nodwyd yn *Strategaeth Addysg a Chyflogaeth Y Weinyddiaeth Cyfiawnder*, gall y carchar roi hwb i helpu troseddwyr i gychwyn ar lwybr i fywyd gwell.
60. Mae pobl sy'n gadael y carchar a ddaw o hyd i gyflogaeth rhwng 6 a 9 pwynt canran yn llai tebygol o aildroseddu na'r rheini nad ydynt, hyd yn oed ar ôl ystyried nifer o ffactorau eraill.⁸¹ Yn ogystal â lleihau aildroseddu, mae mynd â chyn-droseddwyr oddi ar fudd-daliadau ac i waith yn lleihau'r baich ariannol ar ysgwyddau trethdalwyr a'r wladwriaeth les.⁸²

Grymuso Gweithlu'r Carchardai

61. Ar hyn o bryd, mae'n ofynnol i'r holl garchardai menywod gydymffurfio â safonau seiliedig ar rywedd ar gyfer gweithio gyda charcharorion benywaidd, sydd wedi'u nodi yng Ngorchymyn y Gwasanaeth Carchardai (PSO) 4800. Rydym yn bwriadu sefydlu Fframwaith Polisi Menywod yn lle PSO 4800 a fydd yn cynnwys canllawiau ar yr

arferion gorau ar gyfer gweithio gyda throseddwy'r benywaidd. Bydd y rhain yn gymwys nid yn unig i swyddogion carchar ond hefyd i'r gweithlu ym mhob rhan o'r system cyfiawnder troseddol a thu hwnt. Rydym yn datblygu'r Fframwaith hwn ar hyn o bryd drwy ymgynghori ag adrannau Llywodraeth eraill a rhanddeiliaid allanol ac yn bwriadu cyhoeddi fersiwn derfynol erbyn hydref 2018.

62. Mae tîm arwain yr Ystad Menywod yng Ngwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi hefyd yn ffurfio grŵp cyfeirio ar ymarfer moesegol a fydd yn fforwm lle bydd uwch arweinwyr carchardai yn gallu datrys materion ymarferol, a sicrhau bod canllawiau ymarfer ar gyfer yr Ystad Menywod yn gyson, gan roi sylw i faterion cyfredol.
63. Rydym wedi cynllunio model newydd ar gyfer Rheoli Troseddwy'r yn y Ddalfa a addaswyd yn ôl anghenion menywod, sy'n ystyried cymhlethdod ochr yn ochr â risg, ac yn cyflwyno amser gweithiwr allweddol i ddarparu cymorth mwy manwl i droseddwy'r unigol.
64. Byddwn yn ymestyn eto y rhyddid sydd gan lywodraethwyr i recriwtio swyddogion carchar i'r Ystad Menywod ar sail meini prawf sy'n adlewyrchu'r gwerthoedd a sgiliau penodol sydd eu hangen ar gyfer dull gweithredu seiliedig ar rywedd. Gall hyn fod yn wahanol i angen y mwyafrif ac i'r dull recriwtio a ddilynir ar gyfer yr ystad dynion. Gan fod nifer uwch na'r cyfartaledd o fenywod Duon, Asiaidd a Lleiafrifol Ethnig mewn carchardai, mae'n hollbwysig ein bod yn darparu gweithlu sydd nid yn unig yn ymwybodol o effaith nodweddion gwarchoddedig ar brofiad troseddwy'r benywaidd, ond yn gynrychiadol o'r menywod y maent yn gweithio gyda nhw.⁸³ Roedd Adolygiad Lammy wedi gwneud dau argymhelliad mewn perthynas â gweithlu'r carchardai, gan gyfeirio at yr angen i recriwtio Pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifol Ethnig a thargedau ar gyfer arweinwyr.⁸⁴ Mae'r Llywodraeth wedi derbyn y ddau argymhelliad hyn. Mae wedi gosod amcan ar gyfer sicrhau bod 14% o'r holl recriwtiaid (ar draws Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi) yn Bobl Dduon, Asiaidd neu Leiafrifol Ethnig erbyn 2020, a chynyddu amrywiaeth y cnewyllyn o uwch arweinwyr erbyn Rhagfyr 2020.

Datblygu Addysg a Chyflogaeth

1. Fel y nodwyd yn y *Strategaeth Addysg a Chyflogaeth*, a gyhoeddwyd ar 25 Mai 2018, gall gwaith fod yn sylfaen ar gyfer math gwahanol o fywyd.⁸⁵ Roedd y strategaeth yn amlinellu ein cynlluniau i ddiwygio addysg carchardai er mwyn rhoi mwy o drosolwg a rheolaeth i lywodraethwyr ar eu darpariaeth addysg. Mae hyn yn golygu y bydd llywodraethwyr yn yr Ystad Menywod yn gallu penderfynu ar gwricwlwm addysg sy'n cwrdd ag anghenion penodol carcharorion benywaidd, penderfynu sut y caiff ei drefnu a'i ddarparu, a dewis pwy fydd yn ei ddarparu. Bydd trefniadau contract newydd yn galluogi llywodraethwyr i gaffael nifer o wasanaethau arbenigol gwahanol gan ddarparwyr allanol, fel cymorth gan gymheiriaid a hyfforddiant un i un. Mae Academi Gyflogaeth Halfords yn Drake Hall yn un enghraifft o blith nifer lle mae llywodraethwr wedi datblygu partneriaethau effeithiol iawn i ddarparu hyfforddiant galwedigaethol ochr yn ochr â chyflogwyr.
2. Yn ogystal â hyn, mae'r Rhwydwaith Dyfodol Newydd yn cael ei ddatblygu i helpu i greu partneriaethau rhwng cyflogwyr, ac mae wedi grymuso llywodraethwyr i wella cyfleoedd cyflogaeth ar gyfer carcharorion ar ôl eu rhyddhau. Bydd y rhwydwaith yn lleoli arbenigwyr cyflogaeth rhanbarthol mewn grwpiau carchardai rhanbarthol er

mwyn darparu cyngor i lywodraethwyr a bydd hefyd yn cymell mwy o fusnesau i weithio gyda charchardai. Bydd y Rhwydwaith Dyfodol Newydd yn dechrau ar ei waith cyn diwedd 2018. Byddwn yn sicrhau bod anghenion penodol menywod yn cael eu hystyried yn y gwaith hwn.

3. Rydym yn cynnal adolygiad ar hyn o bryd o'r rheolau presennol ar gyfer rhyddhau ar drwydded dros dro (ROTL). Mae ROTL yn agwedd hanfodol ar adsefydlu a'r bwriad yw gwella mynediad at bob math o drefniadau rhyddhau dros dro, lle bo hynny'n ddiogel, yn cynnwys trefniadau i wneud mwy o waith yn y ddalfa a fydd yn arwain at gyflogaeth ar ôl rhyddhau carcharorion.
4. Cyn gwneud unrhyw addasiadau i agweddau ar drefniadau rhyddhau dros dro, byddwn yn rhoi ystyriaeth fanwl i'r effaith o unrhyw newidiadau arfaethedig ar droseddwyr benywaidd. Byddwn hefyd yn edrych ar unrhyw gyfleoedd i weithredu ar sail rhywedd, ar ôl ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad.

Pennod Pedwar: Fframwaith ar gyfer Gweithredu

Crynodeb o'r Bennod

5. Mae'r weledigaeth a gynigir yn y strategaeth hon yn galw am ddull o weithredu sy'n gyfannol ac wedi'i deilwra, sy'n rhoi pwyslais ar adnabod, ymyrryd a dargyfeirio'n gynnar (lle y bo'n briodol).
6. Mae nifer o wasanaethau - yn cynnwys y rheini yn y system cyfiawnder troseddol, asiantaethau statudol eraill fel Comisiynwyr yr Heddlu a Throsedd, a'r trydydd sector - yn ymwneud â chwrdd ag anghenion cymhleth y cohort o droseddwyr benywaidd. Yr unig ffordd i sicrhau newid mesuradwy i'r grŵp hwn yw drwy gydweithredu, cydgysylltu a gweithio'n ddyfal drwy bartneriaeth ar raddfa fawr.
7. Rydym wedi ymrwymo i ddarparu'r arweinyddiaeth gref sydd ei hangen i gael y budd mwyaf posibl o'r nifer mawr o fentrau presennol ar draws Llywodraeth sy'n gallu cynorthwyo troseddwyr benywaidd. Rydym am roi 'mandad' i ardaloedd lleol i roi blaenoriaeth iddynt, ac i hyrwyddo nodau a champau gweithredu'r strategaeth hon. Rydym am weld ardaloedd lleol yn teimlo eu bod wedi'u grymuso i ymdrin ag anghenion troseddwyr benywaidd mewn ffordd sy'n cwrdd ag anghenion ac amgylchiadau lleol. Oherwydd yr amgylchedd ariannol cyfyngedig y mae'r Llywodraeth yn gweithredu ynddo ar hyn o bryd, mae'n bwysig bod yr holl atebion yn cael eu treialu'n drwyadl i wneud y defnydd gorau o'r cyllid sydd ar gael.
8. Rydym wedi datblygu fframwaith ar gyfer gweithredu'r strategaeth hon, i ddangos yn glir beth y gellir ei ddisgwyl gan Y Weinyddiaeth Cyfiawnder, y Llywodraeth a'r gwasanaethau sy'n gweithio gyda menywod yn y system cyfiawnder troseddol. Byddwn hefyd yn rhoi'r trefniadau angenrheidiol ar waith ar gyfer arolygu a llywodraethu'r broses o roi'r strategaeth ar waith. Mae hyn yn cynnwys diwygio'r Bwrdd Cynghorol ar Droseddwyr Benywaidd, parhau i gydgysylltu â'r Arolygiaethau Cyfiawnder Troseddol a gweithio gydag adrannau llywodraeth eraill drwy ein Bwrdd Arwain Troseddwyr Benywaidd traws-lywodraethol (gweler y Diweddglo).

O dan arweiniad lleol

9. Rydym am weld ardaloedd lleol ledled Cymru a Lloegr yn teimlo eu bod wedi'u grymuso i gynllunio dulliau o weithredu sydd wedi'u teilwra yn ôl anghenion penodol eu poblogaethau ac amgylchiadau lleol. Byddwn yn parhau i'w helpu drwy ddarparu tystiolaeth o'r hyn sy'n gweithio. Credwn fod datblygu Dull System Gyfan sy'n cynnig cymorth cyfannol drwy ddarparu gwasanaethau lleol mewn ffordd gydgysylltiedig yn allweddol i sicrhau gwell canlyniadau. Byddwn yn gwneud hyn drwy:
 - Barhau i gefnogi Dulliau System Gyfan
 - Archwilio Datganoli

Canolbwyntio ar bartneriaeth

1. Rydym am sicrhau dull cydgysylltiedig o weithredu ar draws Llywodraeth ar lefel genedlaethol a rhwng gwasanaethau ar lefel leol, yn cynnwys y trydydd sector, i ddarparu ymateb cyfannol i anghenion menywod. Byddwn yn gosod strwythur clir i helpu partneriaid i gydweithio'n effeithiol i ymdrin â'r ffactorau sy'n sbarduno troseddu ac anghenion troseddwr benywaidd. Byddwn yn gwneud hyn drwy:
 - Ddatblygu Concordat Cenedlaethol ar Droseddwr Benywaidd
 - Cryfhau gweithio ar draws Llywodraeth

Seiliedig ar dystiolaeth

1. Drwy weithio gydag ardaloedd a darparwyr lleol, byddwn yn parhau i ddatblygu'r sylfaen dystiolaeth er mwyn cael gwell dealltwriaeth o'r hyn sy'n gweithio. Rhoddir prawf ar ymyriadau am gynaliadwyedd, y gallu i'w heangu'n gyflym ac i sicrhau'r defnydd gorau o'r cyllid sydd ar gael. Byddwn yn gwneud hyn drwy:
 - Rannu data a thystiolaeth a rhoi cymorth i gasglu rhagor ohonynt

Y Fframwaith:

O dan arweiniad lleol

1. Rydym am weld cyfran fwy o droseddwr benywaidd a menywod sydd mewn perygl o droseddu yn cael eu helpu yn y gymuned. Er mwyn cyflawni hyn, rhaid i gymunedau lleol fod â'r gallu i ymateb i anghenion y menywod hyn. Rydym am weld ardaloedd lleol ledled Cymru a Lloegr yn teimlo eu bod wedi'u grymuso i gynllunio dulliau o weithredu sydd wedi'u teilwra yn ôl anghenion penodol eu poblogaethau ac amgylchiadau lleol.

Parhau i gefnogi Dulliau System Gyfan

2. Dylai pob ardal leol fod â chynllun i ymdrin ag amgylchiadau penodol troseddwr benywaidd. Rydym am weld modelau aml-asiantaeth, Dull System Gyfan yn cael eu lledaenu sy'n dod ag asiantaethau lleol (cyfiawnder troseddol, statudol a gwirfoddol) at ei gilydd gan weithredu mewn ffordd gydgysylltiedig, seiliedig ar rywedd i ddarparu'r cymorth cyfannol, pwrpasol y mae ar droseddwr benywaidd ei angen, gan rannu buddsoddiadau a chanlyniadau.
1. Rydym yn gwybod bod gweithredu drwy Dulliau System Gyfan yn gallu llwyddo. Mae'r Llywodraeth wedi buddsoddi cyllid sbarduno o £1 miliwn er 2016 mewn nifer o ardaloedd sy'n datblygu Dulliau System Gyfan, ac mae tystiolaeth gynnar o'r safleoedd hyn yn dangos llwyddiant addawol. Mae canolfannau menywod yn aml yn elfen ganolog mewn Dulliau System Gyfan a gallant fod yn effeithiol wrth leihau aildroseddu: roedd dadansoddiad gan Justice Data Lab yn 2015 yn dangos gostyngiad yn y gyfradd aildroseddu profedig am un flwyddyn a oedd rhwng 1 a 9 pwynt canran ymysg troseddwr benywaidd a gafodd gymorth gan 32 o ganolfannau menywod ledled Lloegr o'i gymharu â grŵp cyfatebol o droseddwr cyffelyb.⁸⁶
2. Bydd y model Dull System Gyfan yn amrywio yn ôl anghenion a gwasanaethau lleol ond mae'r elfennau allweddol yn cynnwys: asesiad cynnar o anghenion wrth ddod i

gysylltiad â'r heddlu am y tro cyntaf, dull menyw-ganolog sy'n datrys problemau yn y llys, a chymorth cofleidiol, seiliedig ar rywedd ochr yn ochr â gorchmynion cymunedol ac ar ôl eu rhyddhau o'r carchar.

3. Mae modelau Dull System Gyfan yn briodol i fenywod sydd mewn perygl o droseddu a throseddwy'r benywaidd. Lle mae menywod yn dod i gysylltiad â'r system cyfiawnder troseddol, dylai Dull System Gyfan ddargyfeirio menywod oddi wrthi, lle y bo'n briodol. Drwy ddarparu cymorth cydgysylltiedig i'r fenyw pan ddaw i gysylltiad â'r heddlu gyntaf, disgwylir y bydd llai o fenywod yn cael dedfryd fer o garchar neu'n torri amodau gorchmynion cymunedol, ac yn aildroseddu. Gallai hyn ddod â buddion cymdeithasol pwysig, yn cynnwys llai o alwadau dros y tymor hir neu mewn argyfwng ar wasanaethau fel iechyd a thai, mwy o fenywod yn cael gafael ar gymorth i ddelio â cham-drin domestig, a llai o blant yn cael eu cymryd i ofal neu eu rhoi ar y gofrestr risg.
4. Mae nifer o ardaloedd yn cynnwys Cymru, Manceinion Fwyaf, Surrey, Sussex, West Mercia, Swydd Gaerhirfryn a Cumbria, Norfolk a Chaerwysg eisoes yn gweithredu Dulliau System Gyfan. Byddwn yn gweithio gyda nhw i ddatblygu sylfaen dystiolaeth ar gyfer y dull hwn o weithredu ac i rannu'r arferion gorau, er mwyn cyflwyno'r model hwn yn fwy eang.

Astudiaeth Achos Dull System Gyfan Manceinion

Mae Dull System Gyfan Manceinion Fwyaf yn gweithredu'n llawn er Ionawr 2015. Mae'r Dull yn cynnwys brysbennu achosion gan yr heddlu, llys datrys problemau, a chymorth ochr yn ochr â gorchmynion cymunedol ac ar ôl rhyddhau o'r carchar, ac mae canolfannau menywod wedi'u sefydlu yn holl fwrdeistrefi Manceinion Fwyaf i ddarparu cymorth drwy 'siop un stop' i fenywod yn unig. Defnyddiwyd cyllid Y Weinyddiaeth Cyfiawnder yn 2015-16 i ddelio â'r rhwystrau i ymgysylltu a oedd yn wynebu rhai menywod (e.e. menywod Duon, Asiaidd a lleiafrifol ethnig ac oedolion ifanc).

Er na allwn ddod i'r casgliad bod y Dull System Gyfan wedi cael effaith uniongyrchol, cafwyd gostyngiad addawol yn nifer yr oedolion benywaidd a erlynwyd ac yn y nifer a gafodd dedfryd o garchar ym Manceinion Fwyaf er 2014.

Mae tystiolaeth sy'n deillio o Ddull System Gyfan Manceinion Fwyaf yn dangos:

65. *Gostyngiad o 40% yn nifer yr oedolion benywaidd a gafodd eu dedfrydu i'r ddalfa ar unwaith er 2014, o'i gymharu â gostyngiad o 3% ar gyfer Cymru a Lloegr.⁸⁷*
- *Gostyngiad o 45% yn nifer yr oedolion benywaidd a gafodd eu harestio er 2014/15, o'i gymharu â gostyngiad o 18% ar gyfer Cymru a Lloegr.⁸⁸*
- *Bod anghenion lluosog gan 91% o'r rheini a aseswyd ym Manceinion Fwyaf hyd ddiwedd Mawrth 2017.⁸⁹ Erbyn diwedd Mawrth 2017, roedd 605 o fenywod wedi cwblhau mwy nag un asesiad Seren Canlyniadau (o faterion fel iechyd meddwl, camddefnyddio sylweddau a llety). Ar gyfartaledd, gwelwyd newid cadarnhaol o 1.5 ym mhob mater a aseswyd (ar raddfa rhwng 1 a 10).*
- *Bod y gyfradd aildroseddu profedig yn 17% ar gyfer cohort bach o fenywod a atgyfeiriwyd i'r canolfannau*

Astudiaeth Achos o Fenter Exeter CoLab 'Resilient Women, Resilient System'

Yn Nyfnaint, roedd astudiaeth yn 2017 wedi dangos bod y ddarpariaeth i fenywod ag anghenion cymhleth yn ddigyswllt, yn enwedig ar gyfer y rheini sydd ar y llwybr cyfiawnder. Roedd y rhanddeiliaid a gyfrannodd wedi cynnig cipolwg ar heriau a chryfderau'r llwybr presennol, yn ogystal â'u dyheadau am well darpariaeth. Teimlai ymatebwyr fod arweinyddiaeth glir, ymrwymedig i wella canlyniadau i fenywod ar y llwybr cyfiawnder yn allweddol i greu Dull System Gyfan a fyddai'n cefnogi hyn.

Mae CoLab Exeter yn ganolfan aml-asiantaeth sy'n gartref i 28 o sefydliadau sydd wedi'u seilio ar 4 thema strategol allweddol: Iechyd a Llesiant, Lleihau Aildroseddu, Digartrefedd ac Ymadfer o Afiechyd Meddwl a Chamddefnyddio Sylweddau. Nod menter Dull System Gyfan CoLab/Y Weinyddiaeth Cyfiawnder 'Resilient Women, Resilient System' oedd gwella'r ddarpariaeth i fenywod a oedd ar y Llwybr Cyfiawnder neu mewn perygl o fynd arno, gan ddefnyddio model a oedd yn buddsoddi yn y system ac yn y fenyw ei hun. Agwedd allweddol ar hyn oedd defnyddio model seiliedig ar 'gydnerthedd' a oedd yn adeiladu ar sail asedau'r system a'r fenyw.

Mae'r prosiect wedi datblygu dwy ffrwd waith allweddol. Mae'r gyntaf yn gweithio'n uniongyrchol gyda menywod drwy sesiynau galw heibio pwrpasol sy'n cynnig amrywiaeth o gyfleoedd cymorth mewn amgylchedd i fenywod yn unig, ochr yn ochr â fforwm menywod a gweithdai strwythuredig penodol sy'n trafod nifer o bynciau y maent wedi nodi eu bod yn allweddol ar gyfer ymadfer. Yr ail ffrwd waith oedd creu Grŵp Stiwardiaeth System sy'n cynnwys cynrychiolwyr uwch o bob agwedd ar y llwybr cyfiawnder yn cynnwys yr Heddlu, Iechyd y Cyhoedd, y Cwmni Adsefydlu Cymunedol, Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd ac adran dai'r awdurdod lleol. Maent wedi gweithio ar sail y sylfaen dystiolaeth y mae'r prosiect wedi'i datblygu i ddylanwadu ar bolisi lleol a rhanbarthol, yn cynnwys Strategaeth Lleihau Aildroseddu Dyfnaint, Strategaeth Lleihau Digartrefedd Caerwysg a Strategaeth a Fframwaith Comisiynu Bywydau Cymhleth Dyfnaint, sy'n cynnwys Trais Domestig a Rhywiol a Chamddefnyddio Sylweddau, y cyfan ohonynt bellach yn gweithredu ar sail gwybodaeth am drawma.

Rhwng Medi 2017 a Mawrth 2018 roedd wedi gweithio gyda 75 o fenywod a ddaeth i'r sesiynau agored aml-asiantaeth 'Resilient Women' yn rheolaidd, ac wedi cael 297 o ymweliadau â'r adeilad gan unigolion ychwanegol i gael gwybodaeth, cyngor a chymorth. Roedd 50% o'r atgyfeiriadau i'r gwasanaeth wedi'u gwneud gan y Cwmni Adsefydlu Cymunedol, y mwyafrif ohonynt yn ymwneud â rhai a oedd yn destun gorchmynion cymunedol, tra oedd yr atgyfeiriadau gan y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol yn ymwneud â chymorth ar ôl rhyddhau o'r carchar. Cafwyd cynnydd cyson yn y nifer a oedd yn eu hatgyfeirio eu hunain ac, erbyn Mawrth 2018, roeddent yn 33% o'r nifer a oedd yn dod i'r ganolfan. Roedd 78% wedi profi trawma o ganlyniad i drais a cham-drin domestig a rhywiol. Roedd 32% o'r rheini a ddaeth i'r ganolfan yn 50 oed ac yn hŷn. Yn achos 48% o'r rheini a oedd yn famau, roedd eu plant wedi'u cymryd i ofal. Y tri angen pennaf yr oedd menywod wedi'u datgan wrth ddod i gysylltiad oedd camddefnyddio sylweddau, iechyd meddwl, a'r gallu i gael addysg a hyfforddiant.

Ymysg y pynciau a drafodwyd mewn sesiynau roedd datblygu sgiliau ar gyfer cydnerthedd ariannol, ysgrifennu creadigol, sgiliau ar gyfer cyflogadwyedd, a pherthnasoedd iach. Yn ddiweddar mae'r menywod wedi cymryd rhan yn y broses o gydgyllunio rhaglen uwchsgilio ar gyfer 'newid patrymau' a ddatblygir i'w defnyddio yn y dyfodol mewn amrywiaeth o leoliadau cyfiawnder.

Archwilio datganoli

1. Mae dulliau gweithredu o dan arweiniad lleol yn fwy tebygol o fod yn effeithiol os yw ardaloedd lleol yn meddu ar yr offer sydd eu hangen i ddylanwadu ar bartneriaid a newid. Rydym yn awyddus i ddatganoli pŵer a chyfrifoldeb o Lywodraeth ganolog i ardaloedd lleol fel y bydd ganddynt yr offer sydd eu hangen arnynt i ddarparu Dull System Gyfan yn eu cymunedau. Rydym wedi llofnodi cytundebau Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth gyda Llundain a Manceinion Fwyaf sy'n ein rhwymo i geisio datganoli rhagor o bwerau. Mae'r ddau gytundeb yn nodi bod troseddwy'r benywaidd yn gohort y mae ardaloedd yn awyddus i wneud cynnydd yn ei gylch, ac rydym yn gweithio i ddatblygu opsiynau.
2. Byddwn hefyd yn gweithio gydag ardaloedd eraill i bennu a gweithredu ar opsiynau i gynyddu rhyddid a gweithio mewn partneriaeth i ymdrin ag anghenion troseddwy'r benywaidd. Bydd hyn yn cynnwys gweithio gyda Chomisiynwyr Heddlu a Throsedd i ddeall sut ac a fydd bwerau a chyfrifoldebau ychwanegol yn eu helpu i sbarduno canlyniadau gwell yn y maes hwn.

Canolbwyntio ar bartneriaeth

3. Bydd dull cydgysylltiedig o weithredu ar draws Llywodraeth ar lefel genedlaethol, a rhwng asiantaethau a gwasanaethau ar lefel leol. Ar lefel genedlaethol byddwn yn gweithio ar draws Llywodraeth i sicrhau cydnabyddiaeth i anghenion penodol troseddwy'r benywaidd mewn mentrau ehangach. Byddwn hefyd yn amlinellu beth y gellir ei ddisgwyl gan wasanaethau ar lefel leol er mwyn sicrhau dull cydgysylltiedig o weithredu.

Datblygu Concordat Cenedlaethol ar Droseddwy'r Benywaidd

4. Byddwn yn gweithio ar draws Llywodraeth a chyda phartneriaid cenedlaethol eraill i ddatblygu a chytuno ar Goncordat Cenedlaethol ar Droseddwy'r Benywaidd. Rydym am gael Concordat sy'n ddatganiad ar y cyd o fwriad, cytundeb a chyd-ddealltwriaeth ynghylch sut y dylai gwasanaethau cyhoeddus gydweithio mewn partneriaethau lleol i adnabod yr anghenion sydd gan fenywod, sydd yn aml yn gymhleth a lluosog, wrth iddynt fynd drwy'r system cyfiawnder troseddol.
5. Drwy'r concordat, rydym am sefydlu fframwaith clir o egwyddorion a chanllawiau ar arferion da y bydd sefydliadau a phartneriaethau lleol yn gallu ei ddefnyddio i gomisiynu gwasanaethau. Rydym yn gobeithio y bydd y ddogfen hon yn eu cynorthwyo'n well i ddatblygu gwasanaethau o ansawdd da, yn ogystal ag adlewyrchu'r dystiolaeth ar gyfer sicrhau canlyniadau gwell i'r grŵp hwn o fenywod.
6. Ein huchelgais yw y bydd sefydliadau a phartneriaethau lleol yn mabwysiadu'r concordat o'u gwirfodd ar ôl ei gyhoeddi, ac yn disgrifio sut byddant yn cydweithio. Wedyn byddant yn cymhwyso egwyddorion y concordat wrth gynllunio a darparu gwasanaethau lle y bo modd. Byddwn yn parhau i ymgynghori â'r adrannau Llywodraeth perthnasol a phartneriaid cenedlaethol a lleol i ddatblygu a chytuno ar y concordat erbyn diwedd 2018.

Cryfhau gweithio ar draws Llywodraeth

7. Mae Llywodraeth yn cydnabod fwyfwy na ellir ymdrin ag anghenion unigolion ar wahân i'w gilydd drwy adrannau Llywodraeth gwahanol, a'u bod yn galw am ddull o weithredu mewn partneriaeth sy'n pontio ffiniau traddodiadol. Mae nifer o grwpiau traws-lywodraethol yn ymdrin ag anghenion cymhleth pobl sy'n agored i niwed. Mae'r rhain yn cynnwys Grŵp Cyfarwyddwyr Pobl Agored i Niwed Whitehall, y Grŵp Anghenion Cymhleth Traws-adrannol a'r Grŵp Lleihau Aildroseddu. Byddwn yn gweithio drwy bob un o'r rhain i sicrhau gwell canlyniadau i droseddwr benywaidd a menywod sydd mewn perygl o droseddu, yn cynnwys ystyried cyfleoedd i greu cyllidebau trawsadrannol i ddelio ag anghenion cohortau penodol, fel y rheini sydd ag anghenion cymhleth.
 8. Bydd y grŵp Lleihau Aildroseddu newydd, o dan gadeiryddiaeth Canghellor Dugiaeth Caerhirfryn, yn gweithio ar draws Llywodraeth i fynd i'r afael â rhai o brif achosion aildroseddu, yn cynnwys cyflogaeth, iechyd a llely. Rhai o amcanion y grŵp hwn fydd pennu cyfleoedd i gysylltu polisiâu presennol i ddelio â'r prif ffactorau sy'n sbarduno aildroseddu, a datblygu tystiolaeth draws-lywodraethol ar weithgareddau sy'n ymwneud ag aildroseddu a'r ymyriadau sy'n fwyaf tebygol o fod yn effeithiol. Yn ogystal â'r Weinyddiaeth Cyfiawnder, bydd y grŵp yn cynnwys swyddogion o'r Swyddfa Gartref, Swyddfa'r Cabinet, y Trysorlys, yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP), Gweinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol (MHCLG), yr Adran Addysg (DfE), a DHSC.
 9. Mae MHCLG yn cynnal adolygiad cynhwysfawr o ariannu a chomisiynu gwasanaethau cam-drin domestig ledled Lloegr. Bydd yr adolygiad yn gwneud defnydd o wybodaeth o archwiliad sy'n cael ei gynnal gan Ipsos MORI. Bydd hyn yn rhoi darlun i ni o'r ddarpariaeth ledled Lloegr ac yn galluogi Llywodraeth i asesu'r effaith o wasanaethau a nodi unrhyw fylchau yn y ddarpariaeth. Bydd MHCLG yn ystyried canlyniadau o'r adolygiad wrth benderfynu ar y ffordd y bydd yn gwella gwasanaethau i ddioddefwyr ag anghenion cymhleth. Byddwn yn cydgyssylltu â MHCLG i sicrhau bod anghenion penodol troseddwr benywaidd a menywod sydd mewn perygl o droseddu yn cael eu hystyried yn y broses hon.
 10. Byddwn yn gweithio ar y cyd ac yn elwa o fentrau presennol Llywodraeth, fel y set o Egwyddorion ar gyfer gofal seiliedig ar rywedd a thrawma i wasanaethau iechyd meddwl i fenywod sy'n cael ei datblygu ar hyn o bryd gan y Tasglu Iechyd Meddwl Menywod o dan arweiniad yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol (DHSC).
 11. Daeth ymgynghoriad y Llywodraeth ar gam-drin domestig, Trawsnewid yr Ymateb i Gam-drin Domestig, i ben ar 31 Mai 2018. Roeddem wedi ymgynghori ar nifer o fesurau a oedd yn galw am ddeddfu a mesurau o fath arall i fynd i'r afael â cham-drin domestig. Roedd yr ymgynghoriad hefyd yn gofyn am farn ynghylch sut y gallwn weithio'n well i adnabod menywod agored i niwed sydd mewn perygl o droseddu ac i ddelio'n gynharach â materion sy'n ymwneud â cham-drin domestig. Bydd yr ymgynghoriad yn cyfrannu at y gwaith y byddwn yn ymgymryd ag ef. Byddwn yn gweithio'n fanwl ar yr ymateb i'r ymgynghoriad hwn i sicrhau ein bod yn adnabod ac yn bodloni anghenion troseddwr benywaidd.
- Mae Strategaeth Trais yn Erbyn Menywod a Genethod 2016 yn sail i nifer o'r argymhellion yn y Strategaeth Troseddwyr Benywaidd, oherwydd y cysylltiadau rhwng cam-drin domestig a throseddu, a mynychder y ffactorau sy'n peri bod menywod yn agored i niwed ymysg troseddwr benywaidd.⁹⁰ Sefydlwyd gweithgor ar draws

Whitehall i elwa o'r arbenigedd yn y sector, i sicrhau bod gwahaniaeth gwirioneddol yn cael ei wneud ar gyfer menywod sy'n agored i niwed ac wedi'u hymyleiddio. Mae Cynllun Gweithredu presennol y Strategaeth Trais yn Erbyn Menywod a Genethod yn cael ei roi ar waith drwy'r Grŵp Rhyngweinidogol ar Drais yn Erbyn Menywod a Genethod o dan gadeiryddiaeth yr Ysgrifennydd Cartref, a fydd hefyd yn ystyried cynigion newydd i fynd i'r afael â cham-drin domestig o fewn y fframwaith hwn.

66. Mae'r Llywodraeth wedi ymgynghori ar fodel ariannu newydd ar gyfer tai â chymorth yn gynharach yn 2018. Disgwylir ymateb yn yr haf.
67. Mae'r Llywodraeth hefyd wedi pasio *Deddf Lleihau Digartrefedd 2017*, a ddaeth i rym yn 2018, i ddiwygio deddfwriaeth digartrefedd Lloegr, gan sicrhau bod mwy o bobl yn cael yr help sydd ei angen arnynt yn gynharach i'w hatal rhag mynd yn ddigartref yn y lle cyntaf. Mae'n gosod dyletswyddau ar awdurdodau lleol i ymyrryd yn gynharach i atal digartrefedd yn eu hardal ac mae'n ei wneud yn ofynnol i awdurdodau lleol ddarparu gwasanaethau digartrefedd newydd i bawb sy'n profi effaith digartrefedd, nid yn unig y rheini sy'n cael eu hamddiffyn o dan ddeddfwriaeth bresennol. Mae'r Ddeddf hefyd yn cyflwyno dyletswydd atgyfeirio sy'n ei gwneud yn ofynnol bod awdurdodau cyhoeddus yn Lloegr a bennwyd mewn rheoliadau yn hysbysu awdurdod lleol am ddefnyddwyr gwasanaethau, yn cynnwys troseddwy'r, a all fod yn ddigartref neu mewn perygl o fynd yn ddigartref yn eu barn nhw. Mae hyn yn golygu y bydd dyletswydd ar garchardai a darparwyr prawf i atgyfeirio ac atal digartrefedd ymysg eu poblogaeth o fis Hydref 2018.
1. Mae'r Llywodraeth wedi ymrwymo i haneru achosion o gysgu allan erbyn 2022 a'u dileu'n llwyr erbyn 2027. Er mwyn cyflawni'r uchelgais hwn, byddwn yn cyhoeddi strategaeth draws-lywodraethol ar gysgu allan ym mis Gorffennaf 2018. Cyflawnir y strategaeth drwy'r Tasglu Traws-lywodraethol ar Gysgu Allan a Lleihau Digartrefedd. Roedd tua un rhan o dair o'r bobl a oedd yn cysgu allan yn Llundain yn 2016/17 wedi treulio amser yn y carchar cyn hynny ac rydym yn gwybod bod angen gwaith sylweddol i roi gwell cymorth i gael llety i'r rheini sy'n gadael carchar.⁹¹ Bydd y strategaeth ar gysgu allan yn cynnwys camau i helpu grwpiau sy'n agored iawn i niwed, yn cynnwys menywod sy'n cysgu allan, y mae gan nifer mawr ohonynt hanes o droseddau ac anghenion lluosog a chymhleth.
2. Yn dilyn y cyhoeddiad am Fenter Cysgu Allan newydd, mae MHCLG wedi dyrannu £30 miliwn yn ddiweddar i 83 o ardaloedd i gynyddu'r cymorth sydd ar gael ar unwaith i bobl sy'n byw ar y strydoedd a'u helpu i gael llety. Bydd y Fenter hon yn rhoi mesurau ar waith a fydd yn cael effaith sydyn y flwyddyn hon. Bydd cynghorau ledled Lloegr sydd â'r niferoedd uchaf o rai sy'n cysgu allan yn cael cyfran o'r cyllid hwn i gynyddu'n sylweddol y cymorth y maent yn gallu ei gynnig i bobl yn awr, a hefyd i'r rheini a fydd mewn perygl y gaeaf nesaf. Defnyddir cyllid i ddarparu 1,750 o leoedd gwely ychwanegol i rai sy'n cysgu allan a 531 o weithwyr digartrefedd penodedig ychwanegol. Bydd y cyllid hefyd yn helpu i wella'r cydgyssylltu rhwng gwasanaethau sydd ar gael i'r rheini sydd mewn angen ac mewn perygl.
3. Ar y cyd â Llywodraeth Cymru, rydym yn ymchwilio i ganfod sut byddai'r cynlluniau peilot Tai yn Gyntaf sydd ar waith yn awr yng Nghymru a Lloegr yn gallu helpu i sicrhau bod troseddwy'r ag anghenion cymhleth, yn cynnwys troseddwy'r benywaidd, yn gallu cael llety addas. Mae'r cynlluniau peilot a ariannwyd gan MHCLG yn Lloegr yn cael eu darparu gan Ddinas-Ranbarth Lerpwl a Rhanbarthau Awdurdodau Cyfunol Gorllewin Canolbarth Lloegr a Manceinion Fwyaf, a byddant yn cael eu gwerthuso'n drwyadl gan sefydliadau allanol i bennu pa mor effeithiol yw'r dull hwn o weithredu,

sydd wedi'i brofi'n llwyddiannus mewn gwledydd tramor, mewn cyd-destun Seisnig. Rydym yn cydweithio'n agos â'r tri rhanbarth sy'n treialu'r cynllun i sicrhau bod anghenion penodol y rhai sydd â hanes o droseddu yn cael eu diwallu.

4. Wrth gyflwyno Credyd Cynhwysol, mae DWP yn darparu rhagdaliadau i gyn-garcharorion hyd at y swm y mae ganddynt hawl iddo am y mis llawn cyntaf, gan liniaru angen ariannol brys. Gellir talu'r swm hwn yn ôl dros gyfnod o hyd at 12 mis. Mae'r holl hawlwyd Credyd Cynhwysol yn esempt rhag y diwrnodau aros a gyflawnir ar hyn o bryd o dan y Lwfans Ceisio Gwaith. Er mwyn darparu ar gyfer yr amgylchiadau cymhleth sydd gan nifer mawr o droseddwyr benywaidd, gellir gwneud trefniadau talu amgen, drwy dalu costau tai yn uniongyrchol i landlordiaid, rhannu taliadau rhwng partneriaid, neu wneud taliadau'n amlach nag unwaith y mis. Yn hollbwysig, mae carcharorion sy'n cwblhau dedfryd fer o 12 mis neu lai, sy'n cynnwys unrhyw amser a dreulir ar remánd, yn gallu cadw elfen tai eu hawliad am Gredyd Cynhwysol am hyd at 6 mis (os na fyddant yn absennol am gyfanswm o fwy na 6 mis) o dan reolau newydd ar absenoldeb dros dro. Bydd hyn yn eu hatal rhag bod yn ddigartref ar ôl eu rhyddhau. Yn achos y carcharorion hynny sy'n derbyn budd-daliadau etifeddol, gallant gael cymorth at eu costau tai am 13 wythnos ar yr amod nad oes disgwyl i'w dedfryd fod yn hirach na hynny. Yn achos carcharorion sydd ar remánd, gall cymorth budd-dal tai bara hyd at 52 wythnos.
5. Ar hyn o bryd, mae Hyfforddwyr Gwaith Carchar DWP yn darparu cymorth cyflogaeth i garcharorion yn ystod eu dedfryd ac yn eu helpu i hawlio budd-daliadau cyn eu rhyddhau. Mae hyn yn cynnwys cymorth i gasglu'r holl fanylion a dogfennau sydd eu hangen i gyflwyno hawliad am Gredyd Cynhwysol ac i drefnu apwyntiad yn y ganolfan waith leol ar ddiwrnod eu rhyddhau, fel y gallant gwblhau eu hawliad a chael cymorth ariannol ar unwaith drwy ragdaliadau. Mae newidiadau diweddar mewn Credyd Cynhwysol yn golygu bod yr holl hawlwyd, yn cynnwys rhai sy'n gadael carchar, yn gallu ymgeisio am ragdalu hyd at 100% o'r swm misol y disgwylir y bydd ganddynt hawl iddo o'r diwrnod cyntaf ar ôl gwneud hawliad. Mae'r gwaith hwn yn digwydd yng nghyd-destun cytundeb partneriaeth cenedlaethol ehangach rhwng Y Weinyddiaeth Cyfiawnder a DWP, sy'n pennu rolau a chyfrifoldebau clir ar gyfer y gwahanol gyrff sy'n ymwneud â helpu rhagor o garcharorion i gael cyflogaeth yn y dyfodol ledled Cymru a Lloegr .

Seiliedig ar dystiolaeth

6. Byddwn yn datblygu'r sylfaen dystiolaeth am yr hyn sy'n gweithio, gan roi prawf ar ymyriadau am gynaliadwyedd, y gallu i'w tyfu'n unol â'r anghenion, ac i sicrhau'r defnydd gorau o'r cyllid sydd ar gael. Byddwn yn rhannu'r arferion gorau yn eang, gan gefnogi arferion hyfforddi cydweithredol a meithrin rhwydweithiau proffesiynol.

Rhannu data a thystiolaeth a helpu i gasglu rhagor ohonynt

7. Rydym wedi ymrwymo i weithio gydag ardaloedd lleol i ddatblygu sylfaen gadarn o ddata a thystiolaeth, ac rydym yn sefydlu gweithgor dadansoddi traws-lywodraethol ar droseddwyr benywaidd i gydweithio a rhannu'r gwersi a ddysgwyd.
68. Rydym eisoes wedi cymryd camau i roi i ardaloedd lleol y wybodaeth sydd ei hangen arnynt i greu dull seiliedig ar rywedd o ymwneud â menywod yn eu hardal drwy gynnwys offeryn data Canlyniadau Llys yn ôl Ardal Heddlu yn ein cyhoeddiad

Ystadegau Cyfiawnder Troseddol blynyddol.⁹² Byddwn hefyd yn datblygu pecyn data ochr yn ochr â'r Concordat a fydd yn galluogi ardaloedd lleol i chwilio'r data llysoedd hyn a data lleol allweddol eraill ar eu cohort. Ein nod yw galluogi ardaloedd lleol i gael gwell dealltwriaeth o anghenion y menywod yn eu hardal a theilwra eu gwaith yn unol â hynny. Bydd hefyd yn caniatáu iddynt dracio llwyddiant a chanlyniadau eu gwaith.

69. Byddwn yn defnyddio modelau Dull System Gyfan presennol i ddatblygu'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer dulliau aml-asiantaeth, i ddeall beth sy'n gweithio, ac i sicrhau gwerth am arian ac arferion da. Byddwn yn chwilio am gyfleoedd i ddod ag ardaloedd sydd â diddordeb at ei gilydd i drafod yr agweddau ymarferol a'r manteision o ddatblygu Dull System Gyfan. Mae'n bwysig iawn bod sefydliadau llai sy'n cynorthwyo menywod Duon, Asiaidd a lleiafrifol ethnig a menywod â nodweddion gwarchoddedig eraill yn gallu elwa drwy ddysgu gwersi gan sefydliadau mwy ac oddi wrth ei gilydd, a byddwn yn rhoi blaenoriaeth i'w cynnwys. Byddwn hefyd yn ceisio ymgysylltu â menywod Duon, Asiaidd a lleiafrifol ethnig sydd â phrofiad o fod yn y system cyfiawnder troseddol er mwyn ystyried eu profiad wrth ddatblygu polisi yn y maes hwn. Bydd y Rhaglen Teuluoedd Cythryblus, sy'n darparu cymorth cyfannol o ansawdd da i deuluoedd sydd mewn perygl ac sy'n cael ei hariannu gan MHCLG, yn rhannu'r canfyddiadau o'r gwerthusiad ohoni a'i harferion gorau i hwyluso gwaith tebyg mewn ardaloedd lleol eraill. Byddwn yn ceisio cynnwys y gwersi a ddysgir o hyn mewn adnoddau ar gyfer Dulliau System Gyfan.
70. Mae'r Llywodraeth yn darparu cyllid i Clinks, sefydliad cynghrair yn y trydydd sector, i ddatblygu a hwyluso rhwydweithiau cymorth mewn meysydd arbenigol, gan ddarparu cyfarfodydd, negeseuon pwrpasol, a chymorth. Bydd y rhain yn canolbwyntio'n benodol ar fenywod a theuluoedd a throseddwy'r sy'n Bobl Dduon, Asiaidd a lleiafrifol ethnig. Byddant hefyd yn ceisio gwella canlyniadau i bobl â nodweddion gwarchoddedig a'u cynorthwyo.
71. Rydym yn ddarostyngedig i Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus (*Deddf Cydraddoldeb 2010*) sy'n canolbwyntio'n rhagweithiol ar ddileu gwahaniaethu, hyrwyddo cydraddoldeb a meithrin cysylltiadau da. Dylai ein holl waith gyda menywod gael ei seilio ar Ddadansoddiad Cydraddoldeb i sicrhau ein bod yn creu systemau, strwythurau a ffyrdd o weithio cynhwysol sy'n dod â budd i fenywod o bob cefndir, yn unol â'n cyfrifoldebau o dan *Ddeddf Cydraddoldeb 2010*. Rydym yn gwybod bod nifer y menywod yn y ddalfa sydd o gymunedau Pobl Dduon, Asiaidd a lleiafrifol ethnig yn uwch ar gyfartaledd, a bod y rheini sy'n Wladolion Tramor yn gallu profi heriau neilltuol. Wrth weithredu'r strategaeth ar lefel genedlaethol a lleol, bydd yn bwysig ystyried sut i deilwra ein gwaith i sicrhau bod menywod o bob cefndir yn gallu elwa ohono. Bydd camau i fonitro nodweddion gwarchoddedig heblaw rhywedd yn caniatáu i ni fesur cynnydd.

Diwedd glo

72. Er mwyn sicrhau newid ystyrllon i droseddwy'r benywaidd, i'w teuluoedd, i ddiodefwyr eu troseddau ac i gymdeithas ehangach, rhaid i ni sicrhau ein bod yn atebol am y blaenoriaethau a bennwyd yn y strategaeth hon. Byddwn yn ymrwymo i gyhoeddi diweddariad blynyddol ar gynnydd ar waith y strategaeth. Er mwyn gwneud hyn, mae angen rhoi prosesau llywodraethu priodol ar waith i oruchwyllo'r camau i gyflawni'r ymrwymadau a wnaed yn y strategaeth hon. Byddwn yn diwygio'r Bwrdd Cynghorol ar Droseddwy'r Benywaidd, yn parhau i weithio drwy'r Bwrdd Arwain Troseddwy'r Benywaidd traws-lywodraethol, ac yn cydgysylltu â'r Arolygiaethau Cyfiawnder Troseddol.
73. Mae'r Bwrdd Cynghorol ar Droseddwy'r Benywaidd, sy'n cynnwys rhanddeiliaid allweddol, asiantaethau cyfiawnder troseddol a swyddogion o Adrannau Llywodraeth perthnasol, wedi darparu cyngor arbenigol a her i Lywodraeth ar bwnc troseddu gan fenywod er 2013. Mae ei waith wedi bod yn amhrisiadwy wrth ddatblygu'r strategaeth hon. Wrth i ni symud ymlaen i'r cyfnod gweithredu nesaf, rydym am wneud y corff hwn yn fwy effeithiol byth drwy:
- Roi cyfrifoldeb i'r Bwrdd am fonitro a chynghori ar gyflawni ymrwymadau yn y strategaeth hon
 - Sicrhau bod gennym gynrychiolaeth berthnasol o arbenigwyr drwy ddiweddarau aelodaeth y rhanddeiliaid yn rheolaidd drwy broses ymgeisio
 - Sicrhau bod Gweinidogion o Adrannau Llywodraeth perthnasol eraill yn bresennol yng nghyfarfodydd y Bwrdd, gan sicrhau bod troseddu gan fenywod yn parhau'n flaenoriaeth ar draws Llywodraeth
 - Cysylltu gwaith y Bwrdd â gwaith gan grwpiau traws-lywodraethol eraill sy'n effeithio ar droseddwy'r benywaidd
74. Bydd heriau'n sicr o godi wrth gyflawni'r strategaeth hon. Mae'r Weinyddiaeth Cyfiawnder yn gweithredu mewn amgylchedd lle mae cyfyngiadau ariannol ac, yn y cyd-destun hwn, rydym yn glir bod rhaid i'r mesurau a roddir ar waith i gyflawni'r strategaeth hon fod yn seiliedig ar dystiolaeth ac wedi'u gwerthuso i ddangos a yw'n briodol ehangu'r defnydd ohonynt ac a ellir gwneud hynny'n gyflym ac mewn ffordd gynaliadwy.
75. Yn ogystal â hyn, fel rydym wedi cydnabod yn y strategaeth drwyddi draw, mae'r system cyfiawnder troseddol 'ymhellach i lawr y gadwyn' yn aml mewn perthynas â'r amrywiaeth fawr o wasanaethau statudol a thrydydd sector y mae troseddwy'r benywaidd wedi dod i gysylltiad â nhw. Hyd yn oed pan fydd menywod o fewn y system cyfiawnder troseddol, mae angen cydweithio â nifer o adrannau ac asiantaethau Llywodraeth eraill er mwyn gallu gweithio'n effeithiol i adsefydlu'r cohort hwn. Mae'n hollbwysig ein bod yn gweithio mewn partneriaeth ar draws Llywodraeth i ymdrin â throseddu gan fenywod fel blaenoriaeth a rennir. Mae cost troseddu gan fenywod yn effeithio ar bob un ohonom – a bydd y buddion o gyflawni ein gweledigaeth yn fanteisiol i bob un ohonom.
76. Os gwiredwn ein gweledigaeth o weld llai o fenywod yn y system cyfiawnder troseddol, llai o fenywod yn y ddalfa, a mwy o fenywod yn cael eu rheoli'n

Ilwyddiannus yn y gymuned, byddwn wedi cyfrannu'n sylweddol at greu system gyfiawnder sy'n well i bawb.

77. Wrth ddatblygu ein blaenoriaethau strategol, rydym wedi gwneud defnydd o waith blaenorol gan eraill ar draws Llywodraeth y gall cohort y troseddwyr benywaidd elwa ohono. Byddwn yn gweithio i sicrhau y bydd y strategaeth hon yn parhau i gyfrannu i'w gwaith yn y dyfodol, ac y bydd anghenion penodol troseddwyr benywaidd yn cael eu cydnabod a'u hystyried yn eu hagendâu.
78. Yn olaf, hoffem ddiolch i bawb sydd wedi gweithio ar y ddogfen strategaeth hon ac wedi cyfrannu iddi. Mae hyn yn cynnwys y staff a menywod roeddem wedi cwrdd â nhw yng Ngharchar East Sutton Park, Carchar Styal a Charchar Downview, a oedd wedi darparu adborth mor ddidwyll. Mae'ch cymorth a'ch cydweithrediad wedi bod yn amhrisiadwy hyd yma, a bydd yn parhau felly yn y dyfodol os ydym i gyflawni'r uchelgais sydd wedi'i ddisgrifio yma. Dim ond drwy weithio mewn partneriaeth ar draws ffiniau trefniadol a sefydliadol i sicrhau'r canlyniadau gorau y byddwn yn gallu sicrhau'r math o system gyfiawnder a ddaw â budd i gymdeithas gyfan.

Atodiad A: Cylch Gorchwyl Adolygiad yr Arglwydd Farmer

Gan adeiladu ar sail yr Adolygiad Farmer gwreiddiol: *Y pwysigrwydd o gryfhau cysylltiadau teuluol carcharorion er mwyn atal aildroseddu a lleihau troseddu sy'n pontio'r cenedlaethau*, a oedd yn canolbwyntio ar ddyinion yn y carchar, comisiynir adolygiad annibynnol pellach gan yr Arglwydd Farmer i ymchwilio i'r modd y mae cynorthwyo troseddwr benywaidd i ymgysylltu â'u teuluoedd yn gallu lleihau atgwympo, hybu adsefydlu a helpu i ddelio â materion sy'n ymwneud â throseddu sy'n pontio'r cenedlaethau.

Bydd yr Adolygiad dilynol yn ceisio dysgu am:

1. Yr hyn sy'n helpu troseddwr benywaidd, eu teuluoedd ac yn enwedig eu plant, i gynnal a hyd yn oed gwella cysylltiadau teuluol, lle y bo'n briodol, tra byddant yn cwblhau dedfryd o garchar neu ddedfryd gymunedol, neu ar ôl eu rhyddhau.
2. Yr heriau o fagu plant a chyflawni rôl y prif ofalwr wrth fod yn bell oddi wrth eu plant neu yn y gymuned.
3. Yr hyn sy'n helpu'r carcharorion hynny sydd heb gysylltiadau teuluol, un ai am eu bod wedi mynd drwy'r system gofal, am fod eu plant wedi'u cymryd i'r system gofal, neu am fod natur eu troseddu yn golygu na chaniateir iddynt gysylltu â'u teuluoedd.
4. Sut y gellir troi hyn yn bolisi a chomisiynu ar gyfer newid.

Grŵp arbenigol

- Nicola Drinkwater, Pennaeth Troseddu gan Fenywod, Clinks
- Tina Parker, Pennaeth Gwasanaethau Menywod, Pact
- Kate Paradine, Prif Weithredwr Women in Prison
- Jenny Earle, Cyfarwyddwr Rhaglen, Ymddiriedolaeth Diwygio Carchardai
- Cyfarwyddwr, Ystad Carchardai Menywod, Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi
- Dirprwy Gyfarwyddwr, Polisi Troseddwyr Agored i Niwed, Y Weinyddiaeth Cyfiawnder
- Gabrielle Lee, Llywodraethwr Carchar Low Newton
- Carlene Dixon, Llywodraethwr Carchar Send
- Julia Mulligan, Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd, Gogledd Swydd Efrog
- Val Castell, Pwyllgor Llysoedd Oedolion, Cymdeithas yr Ynadon
- Un neu ragor o fenywod sydd â phrofiad o fyw yn y carchar ac o'r anawsterau wrth gyflawni cyfrifoldebau'r prif ofalwr wrth gwblhau dedfryd o garchar.

Endnotes

- ¹ Mae tystiolaeth gadarn bod problemau mewn perthynas â chyffuriau, alcohol ac iechyd meddwl yn fwy cyffredin ymysg troseddwy'r. Mewn arolwg gan Y Weinyddiaeth Cyfiawnder yn 2005/06, dywedodd 46% o garcharorion benywaidd eu bod wedi ceisio cyflawni hunanladdiad – mwy na dwywaith y gyfradd ar gyfer carcharorion gwrywaidd (21%). Mae'r gyfradd hon yn uwch nag yn y boblogaeth gyffredinol, lle mae tua 6% wedi ceisio cyflawni hunanladdiad. Yn yr un arolwg gan Y Weinyddiaeth Cyfiawnder, dywedodd 64% o garcharorion eu bod wedi defnyddio cyffuriau Dosbarth A yn y pedair wythnos cyn dod i'r ddalfa o'i gymharu â 13% o'r boblogaeth gyffredinol, ac aseswyd bod 49% o garcharorion mewn perygl o brofi gorbryder a/neu iselder, o'i gymharu â 16% o'r boblogaeth gyffredinol. Yn yr Arolwg Afiachedd Seiciatrig Oedolion o garcharorion (1998), roedd gan 90% o garcharorion un neu ragor o'r pum anhwylder seiciatrig a astudiwyd (seicosis, niwrosis, anhwylder personoliaeth, dibyniaeth beryglus ar ddiod a chyffuriau). Y Weinyddiaeth Cyfiawnder (2013). Gender differences in substance misuse and mental health amongst prisoners Ar gael yn: <https://www.gov.uk/government/publications/gender-differences-in-substance-misuse-and-mental-health-amongst-prisoners--2>
- ² Mae camddefnyddio sylweddau wedi'i gysylltu â thebygolrwydd mwy o aildroseddu. Yn ôl arolwg gan Y Weinyddiaeth Cyfiawnder o oedolion mewn carchardai a gafodd ddedfryd yn 2005 a 2006, roedd 62% o garcharorion a ddywedodd iddynt ddefnyddio cyffuriau yn y pedair wythnos cyn dod i'r ddalfa wedi aildroseddu yn y flwyddyn ar ôl eu rhyddhau o'i gymharu â 30% o'r rheini a ddywedodd nad oeddent erioed wedi defnyddio cyffuriau. Roedd 62% o'r rheini a ddywedodd iddynt yfed alcohol bob diwrnod yn y pedair wythnos cyn dod i'r ddalfa wedi cael ail euogfarn, o'i gymharu â 49% o'r rheini a ddywedodd nad oeddent wedi gwneud hynny. Bydd sylw i broblemau iechyd meddwl hefyd yn debygol o helpu troseddwy'r i ymdrin yn well ag anghenion eraill sy'n cael eu cysylltu'n fwy uniongyrchol â throeddu, fel derbyn triniaeth cyffuriau neu gadw llety sefydlog. Y Weinyddiaeth Cyfiawnder (2013). Gender differences in substance misuse and mental health amongst prisoners Ar gael yn: <https://www.gov.uk/government/publications/gender-differences-in-substance-misuse-and-mental-health-amongst-prisoners--2>
- ³ Mae'r gost ddynol o drais yn erbyn menywod a genethod yn uchel. Mae profiadau o gam-drin yn dod â chanlyniadau seicolegol, emosïynol a chorfforol difrifol a gallant gyfrannu at anafteision lluosog, neu ffordd gaotig o fyw sy'n cynnwys camddefnyddio sylweddau, digartrefedd, ymddygiad troseddol, ymwneud â gangiau, puteindra neu broblemau iechyd meddwl. Mae'r ffaith bod 41% o boblogaeth y carchardai wedi profi cam-drin domestig neu wedi bod yn dyst iddo yn dangos y niwed ehangach i gymdeithas y mae troseddau o'r fath yn ei achosi. (Llywodraeth EM (2016). Ending Violence Against Women and Girls Strategy 2016-2020, t.8.) Ar gael yn: https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/522166/VAWG_Strategy_FINAL_PUBLICATION_MASTER_vRB.PDF
- ⁴ Y Weinyddiaeth Cyfiawnder (2018). Offender Management Statistics quarterly: October to December 2017. Ar gael yn: <https://www.gov.uk/government/statistics/offender-management-statistics-quarterly-october-to-december-2017>
- ⁵ Y Weinyddiaeth Cyfiawnder (2018). Criminal Justice System statistics quarterly: December 2017. Ar gael yn: <https://www.gov.uk/government/statistics/criminal-justice-system-statistics-quarterly-december-2017>
- ⁶ Y Weinyddiaeth Cyfiawnder (2018). Supporting data tables: Female offender strategy. Ar gael yn: <https://www.gov.uk/government/publications/female-offender-strategy>
- ⁷ Y Weinyddiaeth Cyfiawnder (2018). Proven reoffending statistics: April 2016 to June 2016. Ar gael yn: <https://www.gov.uk/government/statistics/proven-reoffending-statistics-april-2016-to-june-2016>

- ⁸ Y Weinyddiaeth Cyfiawnder (2018). Criminal Justice System statistics quarterly: December 2017. Ar gael yn: <https://www.gov.uk/government/statistics/criminal-justice-system-statistics-quarterly-december-2017>
- ⁹ Amcangyfrif Llywodraeth o gyfanswm y gost i lywodraeth yn 2015/16 sy'n gysylltiedig â throseddwy'r benywaidd [o'r cysylltiad â'r heddlu hyd ddiwedd y ddedfryd], ar sail cyfuniad o wahanol ffynonellau data a rhagdybiaethau. Amcangyfrifon lefel uchel yw'r rhain wedi'u seilio ar nifer o setiau data sydd wedi'u cyhoeddi neu heb eu cyhoeddi, ac mae ansicrwydd mawr ynghylch nifer o'r amcangyfrifon o gostau sydd wedi'u cynnwys.
- ¹⁰ Y Weinyddiaeth Cyfiawnder (2018). Safety in custody quarterly: update to December 2017. Ar gael yn: <https://www.gov.uk/government/statistics/safety-in-custody-quarterly-update-to-december-2017>
- ¹¹ Y Farwnes Corston (2007). A Report by Baroness Jean Corston of a Review of Women with Particular Vulnerabilities in the Criminal Justice System. Ar gael yn: <http://www.justice.gov.uk/publications/docs/corston-report-march-2007.pdf>
- ¹² Cynhaliodd Y Weinyddiaeth Cyfiawnder Asesiad Tystiolaeth Cyflym yn 2015 i edrych ar y dystiolaeth am effeithiolrwydd ymyriadau ar gyfer oedolion benywaidd a gafodd euogfarn am drosedd. O'u cymharu â mentrau niwtral o ran rhywedd, roedd mwy o'r rhaglenni seiliedig ar rywedd a adolygwyd wedi arwain at lai o atgwmpo.
Y Weinyddiaeth Cyfiawnder (2015). Effective interventions for Women offenders: A Rapid Evidence Assessment. Ar gael yn: https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/448859/effective-interventions-for-women-offenders.pdf
- ¹³ Murray a Farrington (2008) The effects of parental imprisonment on children. Yn Tonry (gol), Crime and justice: A review of research (Cyfrol 3, tt 133-206). University of Chicago Press.
- ¹⁴ Y Weinyddiaeth Cyfiawnder (2014). Prisoners' childhood and family backgrounds. Ar gael yn: <https://www.gov.uk/government/publications/prisoners-childhood-and-family-backgrounds>
- ¹⁵ Y Weinyddiaeth Cyfiawnder (2018). Criminal Justice System statistics quarterly: December 2017. Ar gael yn: <https://www.gov.uk/government/statistics/criminal-justice-system-statistics-quarterly-december-2017>
- ¹⁶ Y Weinyddiaeth Cyfiawnder (2018). Supporting data tables: Female offender strategy. Ar gael yn: <https://www.gov.uk/government/publications/female-offender-strategy>
- ¹⁷ Y Weinyddiaeth Cyfiawnder (2018). Do offender characteristics affect the impact of short custodial sentences and court orders on reoffending? Ar gael yn: https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/706597/do-offender-characteristics-affect-the-impact-of-short-custodial-sentences.pdf
- ¹⁸ Y Weinyddiaeth Cyfiawnder (2018). Safety in custody quarterly: update to December 2017. Ar gael yn: <https://www.gov.uk/government/statistics/safety-in-custody-quarterly-update-to-december-2017>
- ¹⁹ Y Weinyddiaeth Cyfiawnder (2013). Gender differences in substance misuse and mental health amongst prisoners Ar gael yn: <https://www.gov.uk/government/publications/gender-differences-in-substance-misuse-and-mental-health-amongst-prisoners--2>
- ²⁰ Y Weinyddiaeth Cyfiawnder (2018). Do offender characteristics affect the impact of short custodial sentences and court orders on reoffending? Ar gael yn: https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/706597/do-offender-characteristics-affect-the-impact-of-short-custodial-sentences.pdf
- ²¹ Y Weinyddiaeth Cyfiawnder (2016). Diogelwch Carchardai a'u Diwygio. Ar gael yn: https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/570486/cym-prison-safety-and-reform-white-paper.pdf
- ²² Y Weinyddiaeth Cyfiawnder (2018). Criminal Justice System statistics quarterly: December 2017. Ar gael yn: <https://www.gov.uk/government/statistics/criminal-justice-system-statistics-quarterly-december-2017>

- ²³ Llywodraeth EM (2016). Ending Violence Against Women and Girls Strategy 2016-2020, t.8. Ar gael yn:
https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/522166/VAWG_Strategy_FINAL_PUBLICATION_MASTER_vRB.PDF)
- ²⁴ Y Weinyddiaeth Cyfiawnder (2015). Achieving Better Outcomes for Women Offenders. Ar gael yn: <https://www.gov.uk/government/publications/achieving-better-outcomes-for-women-offenders>
- ²⁵ Y Weinyddiaeth Cyfiawnder (2018). Supporting data tables: Female offender strategy. Ar gael yn: [https://www.gov.uk/government/publications/female-offender-strategytitle tbc \(supporting data tables\)](https://www.gov.uk/government/publications/female-offender-strategytitle%20tbc%20(supporting%20data%20tables))
- ²⁶ Yr Ymddiriedolaeth Diwygio Carchardai (2017). "There's a reason we're in trouble": Domestic abuse as a driver to women's offending. Ar gael yn:
http://www.prisonreformtrust.org.uk/Portals/0/Documents/Domestic_abuse_report_final_lo.pdf
- ²⁷ Walby, S. (2009). *The Cost of Domestic Violence Up-date 2009*, Lancaster University
- ²⁸ Y Weinyddiaeth Cyfiawnder (2018). Criminal Justice System statistics quarterly: December 2017. Ar gael yn: <https://www.gov.uk/government/statistics/criminal-justice-system-statistics-quarterly-december-2017>
- ²⁹ Ibid.
- ³⁰ Ibid.
- ³¹ Murray, Farrington, a Sekol (2012) Children's Antisocial Behavior, Mental Health, Drug Use and Educational Performance After Incarceration: A Systematic Review and Meta-Analysis. *Psychological Bulletin* 2012. Cyfrol 138. Rhif 2, 175-210
- ³² Y Weinyddiaeth Cyfiawnder (2014). Prisoners' childhood and family backgrounds. <https://www.gov.uk/government/publications/prisoners-childhood-and-family-backgrounds>
- ³³ Y Weinyddiaeth Cyfiawnder (2016). Black, Asian and Minority Ethnic disproportionality in the Criminal Justice System in England and Wales. Ar gael yn:
https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/639261/bame-disproportionality-in-the-cjs.pdf
- ³⁴ Yn adroddiad yr Ymddiriedolaeth Diwygio Carchardai 'Fair Cop? Improving Outcomes for women at the point of arrest', nodwyd pa mor bwysig ac effeithiol oedd asesu cynnar wrth ddod i gysylltiad â'r heddlu. Ar gael yn:
<http://www.prisonreformtrust.org.uk/Portals/0/Documents/Women/Fair%20Cop.pdf>
- ³⁵ Y Weinyddiaeth Cyfiawnder (2018). Adult Out of Court Disposal Pilot Evaluation – Final Report.
- ³⁶ DCMS (2015). The TV Licence Fee and Enforcement Review. Ar gael yn:
<https://www.gov.uk/government/consultations/tv-licence-enforcement-review-a-consultation>
- ³⁷ Y Weinyddiaeth Cyfiawnder (2018). Criminal Justice System statistics quarterly: December 2017. Ar gael yn: <https://www.gov.uk/government/statistics/criminal-justice-system-statistics-quarterly-december-2017>
- ³⁸ Y Weinyddiaeth Cyfiawnder (2018). Criminal Justice System statistics quarterly: December 2017. Ar gael yn: <https://www.gov.uk/government/statistics/criminal-justice-system-statistics-quarterly-december-2017>
- ³⁹ O'r rheini a oedd wedi cael asesiad ar 30 Medi 2017. Y Weinyddiaeth Cyfiawnder (2018). Supporting data tables: Female offender strategy. Ar gael yn:
<https://www.gov.uk/government/publications/female-offender-strategy>
- ⁴⁰ Y Weinyddiaeth Cyfiawnder (2018). Do offender characteristics affect the impact of short custodial sentences and court orders on reoffending? Ar gael yn:
https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/706597/do-offender-characteristics-affect-the-impact-of-short-custodial-sentences.pdf
- ⁴¹ Y Weinyddiaeth Cyfiawnder (2018). Supporting data tables: Female offender strategy. Ar gael yn: <https://www.gov.uk/government/publications/female-offender-strategy>

- ⁴² Y Weinyddiaeth Cyfiawnder (2018). Criminal Justice System statistics quarterly: December 2017. Ar gael yn: <https://www.gov.uk/government/statistics/criminal-justice-system-statistics-quarterly-december-2017>
- ⁴³ Y Weinyddiaeth Cyfiawnder (2018). Offender Management Statistics quarterly: October to December 2017. Ar gael yn: <https://www.gov.uk/government/statistics/offender-management-statistics-quarterly-october-to-december-2017>
- ⁴⁴ Y Weinyddiaeth Cyfiawnder (2018). Supporting data tables: Female offender strategy. Ar gael yn: <https://www.gov.uk/government/publications/female-offender-strategy>
- ⁴⁵ Y Weinyddiaeth Cyfiawnder (2018). Offender Management Statistics quarterly: October to December 2017. Ar gael yn: <https://www.gov.uk/government/statistics/offender-management-statistics-quarterly-october-to-december-2017>
- ⁴⁶ Y Weinyddiaeth Cyfiawnder (2018). Do offender characteristics affect the impact of short custodial sentences and court orders on reoffending? Ar gael yn: https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/706597/do-offender-characteristics-affect-the-impact-of-short-custodial-sentences.pdf
- ⁴⁷ Y Weinyddiaeth Cyfiawnder (2018). Supporting data tables: Female offender strategy. Ar gael yn: <https://www.gov.uk/government/publications/female-offender-strategy>
- ⁴⁸ Arolygiaeth Prawf EM (2016). A thematic inspection of the provision and quality of services in the community for women who offend. Ar gael yn: <https://www.justiceinspectors.gov.uk/hmiprobation/wp-content/uploads/sites/5/2016/09/A-thematic-inspection-of-the-provision-and-quality-of-services-in-the-community-for-women-who-offend.pdf>
- ⁴⁹ Y Weinyddiaeth Cyfiawnder (2013). The factors associated with proven re-offending following release from prison: findings from Waves 1 to 3 of SPCR. Ar gael yn: https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/491119/re-offending-release-waves-1-3-spcr-findings.pdf
- ⁵⁰ Mae hyn yn cynnwys hostelau mechnïaeth (arhosiad byr), ffrindiau/teulu (dros dro), digartref (arall, cysgu allan a sgwatio), llety dros dro/tymor byr a data coll. Y Weinyddiaeth Cyfiawnder (2018). Supporting data tables: Female offender strategy. Ar gael yn: <https://www.gov.uk/government/publications/female-offender-strategy>
- ⁵¹ Arolygiaeth Prawf EM (2016). A thematic inspection of the provision and quality of services in the community for women who offend. Ar gael yn: <https://www.justiceinspectors.gov.uk/hmiprobation/wp-content/uploads/sites/5/2016/09/A-thematic-inspection-of-the-provision-and-quality-of-services-in-the-community-for-women-who-offend.pdf>
- ⁵² Er enghraifft, mae angen llety gan 62% o fenywod yn y carchar sy'n cwblhau dedfryd o lai na 12 mis ac mae angen o ran cyflogaeth gan 77%, o'u cymharu â 33% a 45%, yn y drefn honno, ymysg menywod sy'n cwblhau gorchymyn llys yn y gymuned. Y Weinyddiaeth Cyfiawnder (2018). Supporting data tables: Female offender strategy. Ar gael yn: <https://www.gov.uk/government/publications/female-offender-strategy>
- ⁵³ Roedd bron dwy ran o dair (64%) o'r menywod a gafodd eu dedfrydu i'r carchar ar unwaith yn 2017 wedi cael 11 neu ragor o euogfarnau cyn hynny; 35% o'r rheini a gafodd ddedfryd ohiriedig; a 30% o'r rheini gafodd ddedfryd o dan orchymyn cymunedol. Y Weinyddiaeth Cyfiawnder (2018). Criminal Justice System statistics quarterly: December 2017. Ar gael yn: <https://www.gov.uk/government/statistics/criminal-justice-system-statistics-quarterly-december-2017>
- ⁵⁴ Y Weinyddiaeth Cyfiawnder (2018). Supporting data tables: Female offender strategy. Ar gael yn: <https://www.gov.uk/government/publications/female-offender-strategy>

- ⁵⁵ O'r holl droseddwy'r (gwrywaidd a benywaidd) a ddechreuodd gyflawni gorchmynion llys yn 2017: roedd Gofyniad Triniaeth Cyffuriau ar orchymyn 7% ohonynt, roedd Gofyniad Triniaeth am Alcohol ar orchymyn 4% ohonynt, ac roedd Gofyniad Triniaeth Iechyd Meddwl ar orchymyn llai nag 1% ohonynt.
Y Weinyddiaeth Cyfiawnder (2018). Supporting data tables: Female offender strategy. Ar gael yn: <https://www.gov.uk/government/publications/female-offender-strategy>
- ⁵⁶ Ibid.
- ⁵⁷ Y Weinyddiaeth Cyfiawnder (2018). Do offender characteristics affect the impact of short custodial sentences and court orders on reoffending? Ar gael yn: https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/706597/do-offender-characteristics-affect-the-impact-of-short-custodial-sentences.pdf
- ⁵⁸ Y Weinyddiaeth Cyfiawnder a PHE (2017). The impact of community-based drug and alcohol treatment on reoffending. Ar gael yn: https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/674858/PHE-MoJ-experimental-MoJ-publication-version.pdf
- ⁵⁹ Graham a Mclvor (2015). Scottish and international review of the uses of Electronic Monitoring. Ar gael yn: <http://www.sccjr.ac.uk/wp-content/uploads/2015/08/Scottish-and-International-Review-of-the-Uses-of-Electronic-Monitoring-Graham-and-Mclvor-2015.pdf>
- ⁶⁰ Y Weinyddiaeth Cyfiawnder (2015). Achieving Better Outcomes for Women Offenders. Ar gael yn: <https://www.gov.uk/government/publications/achieving-better-outcomes-for-women-offenders>
- ⁶¹ Arolygiaeth Prawf EM (2016). A thematic inspection of the provision and quality of services in the community for women who offend. Ar gael yn: <https://www.justiceinspectorates.gov.uk/hmiprobation/wp-content/uploads/sites/5/2016/09/A-thematic-inspection-of-the-provision-and-quality-of-services-in-the-community-for-women-who-offend.pdf>
- ⁶² Ar 31 Mawrth 2018, roedd 15% o'r menywod mewn carchardai ar remánd ac roedd 13% yn cwblhau dedfryd o lai na 12 mis, ac roedd 7% wedi'u galw'n ôl i'r carchar. Menywod yn cwblhau dedfryd rhwng 12 mis a 4 blynedd oedd 26% o boblogaeth y carchardai, ac roedd 28% pellach yn rhai a oedd yn cwblhau dedfryd o 4 blynedd neu ragor, a 9% yn cwblhau dedfryd oes neu IPP.
Y Weinyddiaeth Cyfiawnder (2018). Offender Management Statistics quarterly: October to December 2017. Ar gael yn: <https://www.gov.uk/government/statistics/offender-management-statistics-quarterly-october-to-december-2017>
- ⁶³ Y Weinyddiaeth Cyfiawnder (2018). Safety in custody quarterly: update to December 2017. Ar gael yn: <https://www.gov.uk/government/statistics/safety-in-custody-quarterly-update-to-december-2017>
- ⁶⁴ Y Weinyddiaeth Cyfiawnder (2018). Supporting data tables: Female offender strategy. Ar gael yn: <https://www.gov.uk/government/publications/female-offender-strategy>
- ⁶⁵ Murray a Farrington (2008) The effects of parental imprisonment on children. Yn Tonry (gol), Crime and justice: A review of research (Cyfrol 3, tt 133-206). University of Chicago Press.
- ⁶⁶ Y Weinyddiaeth Cyfiawnder (2014). Prisoners' childhood and family backgrounds. Ar gael yn: <https://www.gov.uk/government/publications/prisoners-childhood-and-family-backgrounds>
- ⁶⁷ Y Weinyddiaeth Cyfiawnder (2015). Effective interventions for Women offenders: A Rapid Evidence Assessment. Ar gael yn: https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/448859/effective-interventions-for-women-offenders.pdf
- ⁶⁸ Y Weinyddiaeth Cyfiawnder (2013). Gender differences in substance misuse and mental health amongst prisoners Ar gael yn: <https://www.gov.uk/government/publications/gender-differences-in-substance-misuse-and-mental-health-amongst-prisoners--2>

- ⁶⁹ Y Weinyddiaeth Cyfiawnder (2018). Safety in custody quarterly: update to December 2017. Ar gael yn: <https://www.gov.uk/government/statistics/safety-in-custody-quarterly-update-to-december-2017>
- ⁷⁰ Ibid.
- ⁷¹ Murray a Farrington (2008) The effects of parental imprisonment on children. Yn Tonry (gol), Crime and justice: A review of research (Cyfrol 3, tt 133-206). University of Chicago Press.
- ⁷² Yr Arglwydd Farmer (2017). The Importance of Strengthening Prisoners' Family Ties to Prevent Reoffending and Reduce Intergenerational Crime, t. 4. Ar gael yn: https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/642244/farmer-review-report.pdf
- ⁷³ Niven a Stewart (2005) Resettlement outcomes on release from prison. Home Office Findings 248. London: Home Office. Cyfeiriwyd ato yn Y Weinyddiaeth Cyfiawnder (2014). Prisoners' childhood and family backgrounds.
- ⁷⁴ Y Weinyddiaeth Cyfiawnder (2018). Supporting data tables: Female offender strategy. Ar gael yn: <https://www.gov.uk/government/publications/female-offender-strategy>
- ⁷⁵ Ibid.
- ⁷⁶ Y Weinyddiaeth Cyfiawnder (2014). Statistics on women and the Criminal Justice System 2013. Ar gael yn: https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/380090/women-cjs-2013.pdf
- ⁷⁷ Nodwedddion gwarchoddedig yw'r naw grŵp sy'n cael eu hamddiffyn o dan *Ddeddf Cydraddoldeb 2010*. Y rhain yw: oed, anabledd, ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, rhyw, a chyfeiriadedd rhywiol.
- ⁷⁸ Yr Arglwydd Farmer (2017). The Importance of Strengthening Prisoners' Family Ties to Prevent Reoffending and Reduce Intergenerational Crime, t. 15. Ar gael yn: https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/642244/farmer-review-report.pdf
- ⁷⁹ IAP (2017). Preventing the Deaths of Women in Prison – initial results of a rapid information gathering exercise by the Independent Advisory Panel on Deaths in Custody. Ar gael yn: <http://iapdeathsincustody.independent.gov.uk/wp-content/uploads/2017/04/IAP-rapid-evidence-collection-v0.2.pdf>
- ⁸⁰ Y Weinyddiaeth Cyfiawnder (2015). Effective interventions for Women offenders: A Rapid Evidence Assessment. Ar gael yn: https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/448859/effective-interventions-for-women-offenders.pdf
- ⁸¹ Y Weinyddiaeth Cyfiawnder (2013). Analysis of the impact of employment on reoffending following release from custody, using Propensity Score Matching. Ar gael yn:
- ⁸² Y Weinyddiaeth Cyfiawnder (2018). Education and Employment Strategy 2018. Ar gael yn: <https://www.gov.uk/government/publications/education-and-employment-strategy-2018>
- ⁸³ Y Weinyddiaeth Cyfiawnder (2018). Offender Management Statistics quarterly: October to December 2017. Ar gael yn: <https://www.gov.uk/government/statistics/offender-management-statistics-quarterly-october-to-december-2017>
- ⁸⁴ Lammy (2017). Lammy Review: Final report. Ar gael yn: <https://www.gov.uk/government/publications/lammy-review-final-report>
- ⁸⁵ Y Weinyddiaeth Cyfiawnder (2018). Education and Employment Strategy 2018. Ar gael yn: <https://www.gov.uk/government/publications/education-and-employment-strategy-2018>
- ⁸⁶ Y Weinyddiaeth Cyfiawnder (2015). Justice Data Lab Re-offending Analysis: Women's Centres throughout England. Ar gael yn: https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/427388/womens-centres-report.pdf

- ⁸⁷ Y Weinyddiaeth Cyfiawnder (2018). Criminal Justice System statistics quarterly: December 2017. Ar gael yn: <https://www.gov.uk/government/statistics/criminal-justice-system-statistics-quarterly-december-2017>
- ⁸⁸ Y Swyddfa Gartref (2017). Police powers and procedures England and Wales year ending 31 March 2017 second edition. Ar gael yn: <https://www.gov.uk/government/statistics/police-powers-and-procedures-england-and-wales-year-ending-31-march-2017>
- ⁸⁹ Greater Manchester (heb ei gyhoeddi). Management information collected by Greater Manchester and shared with the MOJ.
- ⁹⁰ Llywodraeth EM (2016). Ending Violence Against Women and Girls Strategy 2016-2020, t.8. Ar gael yn: https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/522166/VAWG_Strategy_FINAL_PUBLICATION_MASTER_vRB.PDF
- ⁹¹ Awdurdod Llundain Fwyaf (2017). CHAIN Annual Report Greater London April 2016 to March 2017. Ar gael yn: <https://data.london.gov.uk/dataset/chain-reports?resource=db4d244e-ab51-44e1-96dd-c8bafa65a62a>
- ⁹² Mae'r dadansoddiad hwn o ardaloedd heddlu wedi'i seilio ar y man lle deliwyd â'r trosedd yn hytrach na'r man lle cyflawnwyd y trosedd.
Y Weinyddiaeth Cyfiawnder (2018). Criminal Justice System statistics quarterly: December 2017. Ar gael yn: <https://www.gov.uk/government/statistics/criminal-justice-system-statistics-quarterly-december-2017>